



**Yn Hysbys, Yn Cael Eu Cynnwys Ac Yn
Uchelgeisiol: Hybu addysg dysgwyr sydd â
phrofiad o fod mewn gofal**

Hydref 2026

Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:

- ysgolion a safleoedd meithrin a gynhelir gan awdurdodau lleol, neu sy'n cael arian ganddynt
- ysgolion cynradd
- ysgolion uwchradd
- ysgolion pob oed
- ysgolion arbennig a gynhelir
- unedau cyfeirio disgyblion
- ysgolion annibynnol
- addysg bellach
- colegau arbenigol annibynnol
- dysgu oedolion yn y gymuned
- gwasanaethau addysg llywodraeth leol
- trefniadau trochi Cymraeg mewn awdurdodau lleol
- gwasanaethau gwaith ieuenctid
- addysg gychwynnol athrawon
- Cymraeg i oedolion
- prentisiaethau
- dysgu yn y sector cyfiawnder

Mae Estyn hefyd:

- yn adrodd i Senedd Cymru ac yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Lywodraeth Cymru, Medr ac eraill
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon/cyhoeddiad hwn yn gywir adeg ei chyhoeddi/gyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r cynnwys at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor

Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon neges e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae hwn a holl gyhoeddiadau eraill Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).

© Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Crynodeb gweithredol.....	1
Cyflwyniad	4
Cefndir	5
Argymhellion	11
Pennod 1: Arweinyddiaeth a goruchwyliaeth strategol.....	13
1.1 Arweinyddiaeth ac uchelgais strategol.....	13
1.2 Monitro, gwerthuso ac atebolrwydd.....	14
1.3 Cynlluniau Addysg Personol a phrosesau cynllunio	16
1.4 Cydlynu strategol a gweithio mewn partneriaeth.....	19
1.5 Defnydd strategol o adnoddau	20
Crynodeb o Bennod 1	22
Pecyn cymorth 1: Gwerthuso arweinyddiaeth a goruchwyliaeth strategol.....	23
Pennod 2 – Cefnogi dysgu, lles a dilyniant	25
2.1 Cefnogi lles a pharodrwydd i ddysgu.....	25
2.2 Arfer sy'n ystyriol o drawma ac arfer sy'n ymwybodol o ymlyniad	28
2.3 Cefnogi dysgu a chyflawniad.....	30
2.4 Cymorth personoledig i ddysgwyr ag anghenion sy'n gorgyffwrdd.....	31
2.5 Dyheadau a chyfleoedd yn y dyfodol.....	33
Crynodeb o Bennod 2	34
Pecyn cymorth 2: Gwerthuso dysgu, lles a dilyniant	35
Pennod 3 – Perthnasoedd, perthyn a llais y dysgwr	38
3.1 Perthnasoedd dibynadwy a pherthyn	38
3.2 Llais y dysgwr	42
3.3 Cyfranogi mewn cynllunio a gwneud penderfyniadau	43
3.4 Lleihau stigma a hybu cynhwysiant.....	45
Crynodeb o Bennod 3	47
Pecyn cymorth 3: Gwerthuso perthnasoedd, perthyn a llais y dysgwr.....	49
Pennod 4 – Cyfnodau pontio a pharhad	51
4.1 Parhad addysgol trwy gyfnodau o ansefydlogrwydd	51

4.2 Cefnogi parhad yn ystod cyfnodau pontio	53
4.3 Rhannu gwybodaeth a chymorth cydlynol.....	54
4.4 Parhad cyfrwng Cymraeg	56
Crynodeb o Bennod 4	57
Pecyn cymorth 4: Gwerthuso cyfnodau pontio a pharhad	59
Pennod 5 – Tegwch a chyfle.....	61
5.1 Gwelededd a nodi	61
5.2 Tegwch, perthyn a chynhwysiant	63
5.3 Cyfranogiad, cyfle a dyhead	65
Crynodeb o Bennod 5	68
Pecyn cymorth 5: Gwerthuso tegwch a chyfle	69
Atodiad 1: Cwestiynau myfyriol i lywodraethwyr	71
Atodiad 2: Llais y Dysgwr – “My School”	73
Atodiad 3: Ymatebion o’r Arolwg o Wasanaethau Addysg Llywodraeth Leol	75
Dulliau a sail y dystiolaeth	89
Geirfa	93
Cyfeiriadau	97

Crynodeb gweithredol

- 1 Gwerthusodd yr adroddiad hwn pa mor effeithiol yr oedd ysgolion a gynhelir, unedau cyfeirio disgyblion (UCDau) ac awdurdodau lleol yn hybu addysg, lles a dyheadau dysgwyr rhwng 3 ac 16 oed sydd â phrofiad o fod mewn gofal. Ystyriodd brofiadau plant a oedd yn derbyn gofal, a fabwysiadwyd o ofal, a oedd yn byw mewn gofal gan berthynas, a oedd yn destun gorchmynion gwarcheidiaeth arbennig neu blant a oedd yn derbyn gofal yn flaenorol. Gall dysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal wynebu heriau penodol yn ymwneud â sefydlogrwydd addysgol, presenoldeb, ymgysylltiad, perthyn a chyrhaeddiad, er bod eu profiadau a'u hanghenion yn amrywio'n sylweddol. Manteisiodd yr adolygiad ar ymweliadau ag ysgolion, unedau cyfeirio disgyblion (UCDau) ac awdurdodau lleol; tystiolaeth o arolygon; ymgysylltiad â dysgwyr mewn ysgolion, UCDau a thrwy sefydliadau trydydd sector; tystiolaeth gan randdeiliaid; adolygiad o lenyddiaeth, polisi ac arweiniad perthnasol; a thystiolaeth arolygu.
- 2 Trwy gydol yr adolygiad, dangosodd arweinwyr a staff ymrwymiad cryf i gefnogi dysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal. Roedd llawer ohonynt yn adnabod dysgwyr unigol yn dda ac yn gweithio'n galed i'w helpu i deimlo'n ddiogel a'u bod yn cael eu cynnwys a'u cefnogi. Roedd y darparwyr cryfaf yn cyfuno perthnasoedd ymddiriedus cadarnhaol a chymorth bugeiliol o ansawdd uchel â disgwyliadau uchelgeisiol ar gyfer dysgu, cyflawniad a chyfleoedd yn y dyfodol. Fodd bynnag, canfyddiad canolog oedd bod darparwyr yn fwy llwyddiannus wrth ddisgrifio'r cymorth yr oeddent yn ei gynnig, yn gyffredinol, nag wrth ddangos pa ddulliau oedd yn gwella cynnydd addysgol, cyrhaeddiad a deilliannau tymor hwy dysgwyr.
- 3 Canfu'r adolygiad fod ysgolion, UCDau ac awdurdodau lleol yn gallu nodi, monitro a chefnogi plant a oedd yn derbyn gofal ar hyn o bryd yn well, yn gyffredinol, na grwpiau eraill o ddysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal. Roedd trefniadau'n llai cyson ar gyfer dysgwyr a oedd wedi'u mabwysiadu, dysgwyr dan drefniadau gofal gan berthynas neu orchymyn gwarcheidiaeth arbennig a dysgwyr a oedd wedi derbyn gofal yn flaenorol. O ganlyniad, nid oedd llawer o ddarparwyr yn gallu gwerthuso profiadau na deilliannau addysgol y dysgwyr hyn â'r un hyder â'r rhai a oedd yn derbyn gofal ar hyn o bryd, gan gyfyngu ar eu gallu i nodi anghenion sy'n dod i'r amlwg, ymyrryd yn gynnar a gwerthuso effaith cymorth.
- 4 Roedd arweinyddiaeth gref ac atebolrwydd clir yn ffactorau pwysig wrth wella profiadau addysgol dysgwyr. Roedd yr ysgolion a'r awdurdodau lleol cryfaf yn monitro cynnydd, cyrhaeddiad a chyrchfannau ochr yn ochr â gwybodaeth am

bresenoldeb a lles dysgwyr ac unrhyw waharddiadau o ysgolion ac UC Dau. Fodd bynnag, nid oedd deilliannau addysgol yn cael digon o amlygrwydd bob tro mewn trefniadau monitro a rhianta corfforaethol. Yn aml, roedd presenoldeb, ymddygiad a lles dysgwyr yn cael eu monitro'n fwy cyson na'u cynnydd a'u cyflawniad addysgol, gan gyfyngu ar ddealltwriaeth arweinwyr o b'un a oedd cymorth yn gwella deilliannau dros gyfnod.

- 5 Roedd perthnasoedd ac ymdeimlad o berthyn yn ganolog i brofiadau addysgol cadarnhaol dysgwyr. Roeddent yn tynnu sylw'n gyson at bwysigrwydd oedolion y gellir ymddiried ynddynt a oedd yn gwrando, yn deall eu hamgylchiadau ac yn cynnig cefnogaeth gyson. Roedd y perthnasoedd hyn yn helpu dysgwyr i deimlo eu bod yn cael eu hadnabod, eu gwerthfawrogi a'u cynnwys yng nghymuned eu hysgol. Roeddent hefyd yn rhoi hyder i ddysgwyr rannu eu safbwyntiau, codi pryderon a chymryd rhan mewn penderfyniadau am eu haddysg a'u cymorth. Roedd perthnasoedd cryf a chyfathrebu'n rheolaidd â rhieni, gofawyr a gweithwyr proffesiynol ehangach hefyd yn helpu darparwyr i ddeall amgylchiadau newidiol a chydlynu cymorth yn fwy effeithiol.
- 6 Roedd dysgwyr yn fwy tebygol o rannu pryderon a chymryd rhan mewn penderfyniadau pan roeddent yn teimlo eu bod yn cael eu deall ac yn hyderus y byddai oedolion yn gwrando ac yn ymateb. Er bod llawer o ddysgwyr yn ceisio barn dysgwyr, nid oedd y rhain yn dylanwadu ar gynllunio eu haddysg a'u cymorth bob tro. Pwysleisiodd dysgwyr hefyd bwysigrwydd preifatrwydd, cyfrinachedd ac ymdrin â gwybodaeth bersonol yn ofalus, a oedd yn helpu i gynnal ymddiriedaeth ac yn lleihau'r risg y byddai dysgwyr yn teimlo eu bod yn cael eu hynysu oherwydd eu profiad o fod mewn gofal.
- 7 Roedd ymwybyddiaeth o arfer sy'n ystyriol o drawma ac arfer sy'n ymwybodol o ymlyniad wedi cynyddu ar draws ysgolion, UC Dau ac awdurdodau lleol. Roedd y darparwyr cryfaf wedi ymwreiddio'r dulliau hyn mewn perthnasoedd, ymddygiad ac arfer bob dydd. Fodd bynnag, yn gyffredinol, roedd darparwyr yn well am ddangos bod staff wedi cael hyfforddiant na dangos sut roedd y dulliau hyn wedi gwella presenoldeb, cyfranogiad, cynnydd a chyrhaeddiad dysgwyr.
- 8 Roedd tystiolaeth o drafodaethau â dysgwyr, ymweliadau â darparwyr ac ymchwil ehangach yn dangos bod addysg sefydlog yn helpu i leihau effaith tarfu mewn agweddau eraill ar fywydau dysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal. Yn aml, roedd ysgolion ac UC Dau yn cynnig sefydlogrwydd a pharhad pan roedd agweddau eraill ar fywydau dysgwyr yn newid. Fodd bynnag, roedd symud lleoliad, newid ysgol a newidiadau yn y gweithwyr proffesiynol a oedd yn cefnogi dysgwyr

weithiau'n tarfu ar ddysgu, perthnasoedd a chymorth. Nid oedd cydweithio a rhannu gwybodaeth yn ddigon cyson bob tro, yn enwedig wrth i ddysgwyr symud rhwng lleoliadau, gwasanaethau neu ardaloedd awdurdodau lleol. Roedd gan awdurdodau lleol gyfrifoldeb pwysig i ddiogelu parhad addysg cyfrwng Cymraeg wrth i ddysgwyr newid ysgol neu leoliad gofal. Fodd bynnag, nid oedd y gallu i fanteisio ar addysg a chymorth cyfrwng Cymraeg yn barhaus yn gyfartal ledled Cymru.

- 9 Nid oedd trefniadau ariannu ac atebolrwydd bob amser yn cefnogi darpariaeth gyson ar gyfer y boblogaeth ehangach sydd â phrofiad o fod mewn gofal. Roedd awdurdodau lleol yn amrywio yn y ffordd roeddent yn dehongli ac yn defnyddio cyllid y Grant Datblygu Disgyblion ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal (PDG-CLA), nid oedd trefniadau cilyddol yn gweithredu'n effeithiol bob tro ac roedd gwybodaeth genedlaethol am brofiadau a deilliannau dysgwyr sydd wedi'u mabwysiadu a'r rhai sydd dan drefniadau gofal gan berthynas neu orchymyn gwarcheidiaeth arbennig yn gyfyngedig o hyd.
- 10 Roedd llawer o ddarparwyr yn gweithio'n galed i sicrhau bod dysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys, eu parchu a'u gwerthfawrogi, heb gael eu diffinio gan eu profiad o fewn mewn gofal. Fodd bynnag, nid oedd trin dysgwyr yn yr un modd â'u cyfoedion bob amser yn mynd i'r afael â'r rhwystrau ychwanegol yr oedd rhai ohonynt yn eu hwynebu. Roedd y darparwyr cryfaf yn deall nad oedd trin dysgwyr yn deg yn golygu eu trin yn yr un ffordd bob tro. Roeddent yn helpu dysgwyr i deimlo eu bod yn perthyn, yn cynnal disgwyliadau uchel ac yn sicrhau eu bod yn gallu manteisio'n deg ar gwricwlwm uchelgeisiol, cyfleoedd cyfoethogi, cymwysterau a llwybrau addysg neu gyflogaeth yn y dyfodol.
- 11 At ei gilydd, roedd dysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn fwyaf tebygol o ffynnu lle'r oedd ysgolion, UC Dau ac awdurdodau lleol yn nodi ac yn deall eu hamgylchiadau unigol, yn cynnal disgwyliadau uchel ac yn cydlynu cymorth yn effeithiol. Er i'r adolygiad nodi llawer o enghreifftiau o arfer gref, tynnodd sylw hefyd at yr angen am fwy o ffocws ar gynnydd addysgol, cyrhaeddiad a deilliannau tymor hwy. Mae hyn yn hanfodol er mwyn sicrhau bod dysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn cael eu cefnogi nid yn unig i ymgysylltu ag addysg, ond hefyd i wneud cynnydd cryf, cyflawni'n dda ac elwa ar gyfleoedd gwell yn y dyfodol.

Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn ymateb i gais am gyngor gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg ar y pryd, Lynne Neagle AS, yn y llythyr cylch gwaith i Estyn ar gyfer 2025/2026. Mae'n archwilio pa mor effeithiol y mae ysgolion a gynhelir, UC Dau ac awdurdodau lleol yng Nghymru yn gwella profiadau addysgol, lles a dyheadau dysgwyr rhwng 3 ac 16 oed sydd â phrofiad o fod mewn gofal.

Ystyriodd yr adolygiad brofiadau dysgwyr a oedd yn derbyn gofal ar hyn o bryd, a fabwysiadwyd o ofal, a oedd yn byw mewn gofal gan berthynas neu dan orchmynion gwarcheidiaeth arbennig neu a oedd wedi derbyn gofal yn flaenorol. Gwerthusodd pa mor effeithiol oedd gwasanaethau addysg yn nodi, yn cefnogi ac yn monitro'r dysgwyr hyn, gan gynnwys y rhai nad oeddent yn 'derbyn gofal' ffurfiol mwyach ac y gellid felly esgeuluso eu hanghenion yn haws.

Mae'r adroddiad wedi'i fwriadu ar gyfer Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, arweinwyr ysgolion, arweinwyr UC Dau, llywodraethwyr ac ymarferwyr sy'n gweithio gyda dysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal. Mae'n adeiladu ar adroddiad thematig cynharach Estyn, *Codi cyrhaeddiad, cyflawniad a dyheadau plant sy'n derbyn gofal* (Estyn, 2016).

Mae'r canfyddiadau wedi'u seilio ar dystiolaeth a gasglwyd o ymweliadau ag ysgolion a gynhelir, UC Dau a gwasanaethau addysg awdurdodau lleol ledled Cymru. Cynhaliodd arolygwyr drafodaethau ag arweinwyr, ymarferwyr, llywodraethwyr, swyddogion awdurdodau lleol a dysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal. Ymgysylltodd yr adolygiad â dysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal hefyd trwy grwpiau cyfranogiad a sefydliadau'r trydydd sector y tu allan i leoliadau ysgol. Ar ben hynny, adolygom ddogfennau gan gynnwys cynlluniau addysg personol (CAPau) ac astudiaethau achos, ochr yn ochr â dadansoddi astudiaethau ymchwil, polisi a thystiolaeth arolygu.

Cefndir

Adeiladodd yr adroddiad thematig hwn ar y dogfennau allweddol canlynol, a ddarparodd y sail dystiolaeth ar gyfer yr adroddiad:

- Estyn (2016) *Codi cyrhaeddiad, cyflawniad a dyheadau plant sy'n derbyn gofal: adroddiad arfer orau*. Caerdydd: Estyn.
- Estyn (2026) *Mwy na dewis olaf: Trefniadau ar gyfer gwasanaethau tiwtora AHY yng Nghymru, a'u hansawdd*. Caerdydd: Estyn.
- Foster, R., Beninger, K., Svanaes, S. a Downing, C. (2021) *Dull integredig o wella deilliannau addysgol plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.
- Lowthian, E. et al. (2025a) *Llwybrau a chanlyniadau addysgol plant sydd â phrofiad o fod mewn gofal*. Abertawe: Prifysgol Abertawe/CASCADE/Banc Data SAIL.
- Lowthian, E. et al. (2025b) *Children's early care experiences and their educational attainment: A population data-linkage study in Wales*, Oxford Review of Education, tt. 1–20.
- Adoption UK (2024) *Breaking the barriers to school attendance*. London: Adoption UK.
- Llywodraeth Cymru (2025c) *Datganiad Ysgrifenedig: Cefnogi addysg dysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Mae rhestr lawn o gyfeiriadau i'w gweld ar dudalen 90.

Beth rydym yn ei olygu gan ddysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal?

Nid grŵp unigol neu unfurf yw dysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal. Gallai profiadau o fod mewn gofal gynnwys cael gofal ffurfiol gan awdurdod lleol, mabwysiadu o ofal, gofal gan berthynas, gorchymyn gwarcheidiaeth arbennig neu ddychwelyd adref ar ôl cyfnod mewn gofal. Mae ymchwil genedlaethol, dystiolaeth arolygu ac adborth gan randdeiliaid yn dangos bod llawer o ddysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn wynebu heriau sy'n ymwneud ag ymgysylltu â dysgu, presenoldeb, lles emosiynol a sefydlogrwydd mewn addysg (Estyn, 2016; Lowthian et al., 2025a; Ymchwil y Senedd, 2024). Caiff y profiadau a'r deilliannau hyn eu dylanwadu gan gyfuniad eang o ffactorau, gan gynnwys sefydlogrwydd gofal ac addysgu, perthnasoedd ag oedolion y gellir ymddiried ynddynt, anghenion dysgu ychwanegol (ADY), tlodi ac ansawdd a pharhad cymorth ar draws gwasanaethau. Gall ansefydlogrwydd lleoliadau, symud ysgolion a phontio rhwng ysgolion neu gyfnodau addysg effeithio ar barhad mewn dysgu a chymorth dros gyfnod.

Mae data cenedlaethol yn fwyaf cynhwysfawr ar gyfer plant sy’n derbyn gofal gan awdurdodau lleol ac yn darparu gwybodaeth lai cyson am ddysgwyr sydd wedi’u mabwysiadu a’r rhai sy’n byw mewn gofal gan berthynas neu dan orchymyn gwarcheidiaeth arbennig.

Ar 31 Mawrth 2025, roedd tua 7,000 o blant yn derbyn gofal yng Nghymru, sef gostyngiad bach o gymharu â’r flwyddyn flaenorol. Roedd gan Gymru un o’r cyfraddau uchaf o blant sy’n derbyn gofal yn y DU, gyda chyfradd sy’n gyfartal â’r Alban ac yn uwch na’r rhai yn Lloegr a Gogledd Iwerddon (Llywodraeth Cymru, 2026a).

Tabl 1: Plant sy’n derbyn gofal yng Nghymru, 2021 i 2025¹

Mesur	31 Mawrth 2021	31 Mawrth 2022	31 Mawrth 2023	31 Mawrth 2024	31 Mawrth 2025
Plant sy’n derbyn gofal	7,240	7,050	7,185	7,175	7,070
Cyfradd fesul 10,000 o blant dan 18 oed	117	114	116	115	114
Gwrywaidd	54%	54%	54%	55%	55%
Benywaidd	46%	46%	46%	45%	45%
Yn byw mewn gofal maeth	70%	69%	69%	68%	68%
Wedi’u lleoli yn eu hawdurdod lleol cartref	67%	6%	66%	66%	65%
Wedi’u lleoli y tu allan i’w hawdurdod cartref ac yng Nghymru	27%	27%	27%	27%	28%
Wedi’u lleoli y tu allan i Gymru	6%	6%	7%	7%	7%
Profiad o dri lleoliad neu fwy yn ystod y flwyddyn	525 (7%)	615 (9%)	685 (10%)	630 (9%)	600 (8%)

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru (2026a) a setiau data cysylltiedig StatsCymru, gan gynnwys *Plant sy’n derbyn gofal ar 31 Mawrth yn ôl nifer y lleoliadau yn ystod y flwyddyn* (StatsCymru, 2026).

Mae nifer y plant sy’n derbyn gofal a phatrymau darpariaeth lleol yn amrywio’n sylweddol rhwng awdurdodau lleol. Roedd y rhan fwyaf o blant a oedd yn derbyn gofal yn byw mewn gofal maeth, gan gynnwys lleoliadau gyda pherthnasau a ffrindiau. Roedd rhai eraill wedi’u lleoli gyda’u rhieni, yn byw mewn cartrefi plant neu ddarpariaeth breswyl arall. Mae patrymau lleoliadau wedi newid dros gyfnod, gyda chyfran ychydig yn llai o blant yn byw mewn gofal maeth ac yn eu hawdurdod lleol cartref, a chyfran fwy wedi’u lleoli y tu allan i Gymru. Dros gyfnod hwy, mae’r gyfran sy’n byw mewn cartrefi plant a lleoliadau preswyl

¹ Nid yw’r ffigurau’n cynnwys plant sy’n derbyn gofal trwy gyfres o seibiannau byr yn unig. Efallai na fydd y canrannau’n dod i gyfanswm o 100 oherwydd talgrynnu. Mae ffigurau sefydlogrwydd lleoliadau yn ymwneud â phlant sy’n derbyn gofal ar 31 Mawrth a gafodd brofiad o dri neu fwy o leoliadau yn ystod y flwyddyn flaenorol. Gallai ffigurau hanesyddol fod yn wahanol i’r rhai mewn cyhoeddiadau cynharach gan fod Llywodraeth Cymru wedi diwygio’r gyfres.

eraill hefyd wedi cynyddu (Llywodraeth Cymru, 2026a; StatsCymru, 2025b). Mae Tabl 2 yn dangos y prif fathau o leoliadau ar 31 Mawrth 2025.

Tabl 2: Math o leoliad plant sy’n derbyn gofal yng Nghymru, 2021 i 2025

Math o leoliad	2020–21	2021–22	2022–23	2023–24	2024–25
Lleoliadau maeth	5,045	4,880	4,925	4,870	4,795
Wedi’u lleoli gyda’u rhieni eu hunain neu unigolyn arall sydd â chyfrifoldeb rhiant	1,195	1,100	1,040	970	870
Wedi’u gosod mewn lleoliadau preswyl ²	535	590	735	880	970
Wedi’u gosod i’w mabwysiadu	245	230	205	155	135
Yn byw’n annibynnol	130	170	190	175	175
Yn absennol o leoliad neu arall	90	80	95	125	130
Cyfanswm y categorïau cyhoeddedig wedi’u talgrynnu ³	7,240	7,050	7,185	7,175	7,070

Ffynhonnell: StatsCymru (2026), *Plant sy’n derbyn gofal ar 31 Mawrth yn ôl math o leoliad*.

Mae plant yn rhoi’r gorau i dderbyn gofal trwy ystod o lwybrau, gan gynnwys dychwelyd at rieni neu berthnasau, mabwysiadu a thrwy wneud gorchymyn gwarcheidiaeth arbennig. Dros y pum mlynedd diwethaf, mae tua hanner y rhai a roddodd y gorau i dderbyn gofal wedi dychwelyd at rieni, perthnasau neu unigolyn arall â chyfrifoldeb rhiant. Mae mabwysiadu yn parhau i fod yn llwybr pwysig i sefydlogrwydd ar gyfer plant sy’n gadael gofal, er bod nifer y plant sy’n cael eu mabwysiadu o ofal wedi gostwng yn y tymor hwy (Llywodraeth Cymru, 2026a).

² Mae lleoliadau preswyl yn cynnwys unedau diogel, cartrefi plant y tu mewn a’r tu allan i awdurdod lleol cartref y plentyn, a hosteli neu leoliadau preswyl â chymorth eraill.

³ Mae’r ffigurau wedi’u talgrynnu i’r pump agosaf. O ganlyniad, gallai’r cyfansymiau fod ychydig yn wahanol i’r nifer gyhoeddedig heb ei thalgrynnu o blant sy’n derbyn gofal.

Gadawodd 1,953 o blant ofal rhwng 1 Ebrill 2024 a 31 Mawrth 2025, sef cynnydd bach o gymharu â 1,979 (r) o blant y flwyddyn flaenorol (sef y cyfanswm blynyddol uchaf er 2015 i 2016). Yn gyffredinol, mae'r nifer hon wedi cynyddu o'r nifer isaf o 1,673 o blant yn 2019 i 2020. Yn ystod 2024 i 2025, dychwelodd bron i hanner (neu 948) o blant a roddodd y gorau i dderbyn gofal i fyw gyda rhieni, perthnasau neu unigolyn arall â chyfrifoldeb rhiant. Mabwysiadwyd 212 (11%) o blant o ofal yn ystod y flwyddyn, sef gostyngiad o 45 (18%) o blant o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. (Llywodraeth Cymru (2026a); StatsCymru (2026)).

Mae ymchwil yn tynnu sylw at y ffaith y gallai dysgwyr sydd wedi'u mabwysiadu barhau i brofi effeithiau adfyd, trawma ac aflonyddwch cynharach, gan gynnwys effaith perthnasoedd cynnar anghyson, ansicr neu a darfydd arnynt, ymhell ar ôl cael eu mabwysiadu (Adoption UK, 2024; Lowthian et al., 2025a). Er bod llawer o blant sydd wedi'u mabwysiadu yn ffynnu'n addysgol, mae tystiolaeth yn awgrymu bod rhai ohonynt yn parhau i brofi heriau yn ymwneud â phresenoldeb, lles emosiynol, perthyn ac ymgysylltu â dysgu. Er bod y sail dystiolaeth yn llai eang, gallai materion tebyg effeithio hefyd ar ddysgwyr sy'n byw mewn gofal gan berthynas neu'r rhai sy'n derbyn gofal dan orchymyn gwarcheidiaeth arbennig.

Gallai plant sydd â phrofiad o fod mewn gofal brofi newidiadau i'w trefniadau gofal a'u hamgylchiadau byw. Er nad yw'r rhain yn arwain at symud ysgolion bob tro, gall ansefydlogrwydd amharu ar berthnasoedd, arferion a pharhad dysgu. Mae symud lleoliadau'n annisgwyl yn parhau i effeithio ar lawer o blant bob blwyddyn ac mae ymchwil o Gymru a ledled y DU wedi nodi cysylltiadau cryf rhwng ansefydlogrwydd lleoliadau, symud ysgolion, presenoldeb is a deilliannau addysgol gwaeth i ddysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal (Lowthian et al., 2025a).

Gwelededd, parhad a goruchwyliaeth addysgol

Ochr yn ochr â phlant sy'n derbyn gofal ar hyn o bryd, mae poblogaeth ehangach o ddysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal, gan gynnwys dysgwyr sydd wedi'u mabwysiadu, y rhai sy'n byw dan drefniadau gofal gan berthynas neu orchymyn gwarcheidiaeth arbennig, a'r rhai sydd wedi dychwelyd adref ar ôl cyfnod mewn gofal. I'r dysgwyr hyn, mae bod yn 'weladwy' mewn gwasanaethau addysg yn golygu cael eu nodi, eu deall a'u monitro fel y gellir darparu cymorth yn ôl yr angen ac er mwyn gallu olrhain eu cynnydd addysgol dros gyfnod. Mae tystiolaeth ymchwil a pholisi yn awgrymu bod llawer ohonynt yn parhau i brofi effeithiau adfyd, aflonyddwch ac ansefydlogrwydd cynharach yn eu gofal neu addysg, er nad ydynt yn derbyn gofal ffurfiol, mwyach (Lowthian et al., 2025a; Adoption UK, 2024; Paine, Perra and Shelton, 2025).

Mae data addysg cenedlaethol yn cynnig darlun rhannol yn unig o'r boblogaeth ehangach hon. Mae systemau cenedlaethol yn well o lawer am nodi a monitro plant sy'n derbyn gofal ar hyn o bryd na grwpiau eraill o ddysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal. Nid yw

dysgwyr sydd wedi'u mabwysiadu a llawer o grwpiau eraill sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn cael eu nodi'n gyson nac fel mater o drefn mewn setiau data addysg cenedlaethol, ac mae trefniadau lleol ar gyfer eu nodi a'u monitro yn amrywio'n sylweddol. O ganlyniad, mae gwybodaeth genedlaethol gyfyngedig am eu profiadau, eu cynnydd a'u deilliannau addysgol.

Mae'r dystiolaeth genedlaethol sydd ar gael i werthuso deilliannau addysgol hefyd wedi newid ers cyhoeddi adroddiad thematig Estyn yn 2016. Mae trefniadau asesu cenedlaethol wedi newid ac mae newidiadau i gasglu ac adrodd ar ddeilliannau addysgol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal yn golygu bod llai o ddata cyrhaeddiad ar gael y gellir ei gymharu'n genedlaethol. Yn ogystal, nid oes unrhyw ddata deilliannau cenedlaethol ar gyfer dysgwyr sydd wedi'u mabwysiadu na'r rhan fwyaf o ddysgwyr sy'n byw mewn gofal gan berthynas. Gyda'i gilydd, mae'r ffactorau hyn yn cyfyngu ar allu arweinwyr i nodi patrymau, monitro deilliannau a gwerthuso cymorth, ac mae'n golygu nad yw profiadau a deilliannau addysgol y boblogaeth ehangach sydd â phrofiad o fewn mewn gofal yn cael eu deall yn dda.

Mae deddfwriaeth ac arweiniad Cymru yn darparu trefniadau parhaus ar gyfer gwasanaethau cymorth ar ôl gorchmynion mabwysiadu. Fodd bynnag, nid oes unrhyw drefniadau addysg cenedlaethol ar gyfer nodi, monitro na gwerthuso deilliannau dysgwyr sydd wedi'u mabwysiadu na llawer o ddysgwyr eraill sydd â phrofiad o fod mewn gofal pan nad ydynt yn derbyn gofal ffurfiol, mwyach. O ganlyniad, mae parhad wrth ddeall anghenion dysgwyr a chynnig cymorth priodol yn aml yn dibynnu ar systemau lleol effeithiol, dealltwriaeth gweithwyr proffesiynol o amgylchiadau dysgwyr a ph'un a yw rhieni'n dewis rhannu gwybodaeth am brofiad dysgwyr o fod mewn gofal gyda darparwyr addysg. Felly, roedd gwelededd, parhad a goruchwyliaeth addysgol yn ffocws pwysig i'r gwaith maes a daeth i'r amlwg fel thema gyson ar draws yr adolygiad. Er bod gan ysgolion systemau sefydledig ar gyfer plant sy'n derbyn gofal ar hyn o bryd yn gyffredinol, roedd trefniadau ar gyfer dysgwyr sydd wedi'u mabwysiadu a grwpiau eraill o ddysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn sylweddol fwy amrywiol.

Polisi, arfer a thystiolaeth arolygu

Cryfaodd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 gyfrifoldebau awdurdodau lleol fel '*rhieni corfforaethol*'. Mae hyn yn golygu bod gan awdurdodau lleol gyfrifoldeb ar y cyd i ddiogelu a hybu lles, cyrhaeddiad addysgol a chyfleoedd bywyd plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal. Mae ysgolion ac UC Dau yn cyfrannu at y cyfrifoldeb rhianta corfforaethol ehangach hwn trwy eu gwaith gydag awdurdodau lleol a gwasanaethau partner, er nad oes ganddynt yr un rôl statudol. Disgwylir i ysgolion ac UC Dau nodi 'unigolyn dynodedig' i oruchwyllo addysg a chymorth plant sy'n derbyn gofal a chyfrannu at ddatblygu ac adolygu CAPau, sy'n nodi anghenion addysgol a chymorth

dysgwyr. Mae gan awdurdodau lleol gyfrifoldebau hefyd i fonitro cynnydd addysgol, presenoldeb a lles dysgwyr i gefnogi cydweithio ar draws addysg a gwasanaethau plant.

Caiff PDG-CLA ei ddyrannu i awdurdodau lleol yn ôl nifer y plant sy'n derbyn gofal, ond ei fwriad yw gwella deilliannau addysgol y boblogaeth ehangach sydd â phrofiad o fod mewn gofal. Mae arweiniad Llywodraeth Cymru yn disgwyl i'r cyllid gael ei ddefnyddio i leihau rhwystrau rhag dysgu a chefnogi dysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal i gyflawni eu potensial (Llywodraeth Cymru, 2026b). Mae awdurdodau lleol yn gyfrifol am gynllunio a chydlynw'r defnydd ohono, gan gynnwys trwy drefniadau cilyddol lle caiff dysgwyr eu haddysgu y tu allan i'w hawdurdod lleol cartref.

Ers adroddiad thematig Estyn yn 2016, mae Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a darparwyr addysg wedi cynyddu eu ffocws ar wella deilliannau a phrofiadau i ddysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal trwy arweiniad diwygiedig, datblygiadau polisi cenedlaethol a defnydd cynyddol o ddulliau sy'n ystyriol o drawma a dulliau sy'n ymwybodol o ymlyniad. Mae hyn wedi cynnwys dysgu proffesiynol ac adnoddau a gefnogir trwy Adoption UK Cymru, Rhwydwaith Cymru sy'n Ystyriol o Drawma, Hwb a Hyb ACE (profiadau niweidiol yn ystod plentyndod) Cymru, ochr yn ochr â datblygiadau mwy diweddar fel y Grŵp Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Dysgwyr sydd â Phrofiad o fod mewn Gofal a chynllun peilot y 'Model Ysgol Rhithwir', sydd â'r nod o gryfhau goruchwyliaeth a chymorth i ddysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal. Roedd datganiad ysgrifenedig Llywodraeth Cymru (2025a) *Cefnogi addysg dysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal* yn cydnabod y gallai heriau addysgol sy'n gysylltiedig ag adfyd ac aflonyddwch cynharach barhau hyd yn oed pan na fydd dysgwyr yn derbyn gofal ffurfiol, mwyach.

Mae ymchwil, polisi a thystiolaeth arolygu yn tynnu sylw'n gyson at bwysigrwydd sefydlogrwydd addysgol, perthnasoedd dibynadwy, gwaith amlasiantaeth effeithiol a disgwyliadau uchelgeisiol ar gyfer dysgu a chyflawniad. Maent hefyd yn nodi amrywiad parhaus yn y ffordd y caiff dysgwyr eu nodi, eu cefnogi a'u monitro, yn enwedig pan nad yw dysgwyr bellach yn cael eu cydnabod yn ffurfiol yn rhai sy'n derbyn gofal. Llywiodd y materion hyn ffocws yr adolygiad hwn.

Canfu'r adolygiad lawer o enghreifftiau o arfer ymroddedig ac effeithiol. Roedd y darparwyr cryfaf yn cyfuno perthnasoedd dibynadwy a chymorth wedi'i gydlynw'n ofalus â disgwyliadau uchelgeisiol ar gyfer cynnydd addysgol a chyfleoedd yn y dyfodol, yn enwedig ar gyfer y dysgwyr hynny sy'n dod yn llai gweladwy pan nad ydynt yn derbyn gofal ffurfiol, mwyach.

Argymhellion

Dylai ysgolion ac UC Dau:

A1 Werthuso effaith cymorth ar gynnydd, cyrhaeddiad, cyfranogiad a deilliannau tymor hwy dysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal, yn hytrach na phresenoldeb a lles yn unig.

A2 Sicrhau disgwyliadau uchelgeisiol ar gyfer dysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal a darparu cymorth sy'n hybu eu cynnydd a'u cyfranogiad addysgol, yn ogystal â'u lles.

A3 Gwella ansawdd Cynlluniau Addysg Personol a'r defnydd ohonynt fel eu bod yn cynnwys targedau addysgol clir, cyfranogiad ystyrlon gan ddysgwyr mewn cynllunio ac adolygu, a gwerthusiad rheolaidd o effaith cymorth ar gynnydd a deilliannau.

A4 Sicrhau bod pob dysgwr sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn gallu manteisio'n deg ar gwricwlwm llawn, cyfleoedd cyfoethogi, cymwysterau a chyfleoedd addysg neu gyflogaeth yn y dyfodol.

A5 Sicrhau bod dulliau sy'n ystyriol o drawma a dulliau sy'n ymwybodol o ymlyniad yn cael eu cymhwyso'n gyson a gwerthuso eu heffaith ar brofiadau, ymgysylltiad a deilliannau dysgwyr.

Dylai awdurdodau lleol:

A6 Gryfhau trefniadau cymesur ar gyfer nodi dysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal lle mae eu hamgylchiadau'n hysbys a bod gwybodaeth berthnasol ar gael, ac ar gyfer monitro eu profiadau a'u deilliannau addysgol. Dylai hyn gynnwys cynnydd addysgol ochr yn ochr â phresenoldeb, cyfranogiad, cyrchfannau a chyfraddau gwahardd.

A7 Sicrhau bod trefniadau rianta corfforaethol yn defnyddio'r dystiolaeth hon i graffu ar gynnydd, cyrhaeddiad, cyfranogiad a chyrchfannau addysgol, ochr yn ochr â phresenoldeb, lles a sefydlogrwydd lleoliadau, ac i ddwyn gwasanaethau i gyfrif am wella deilliannau.

A8 Cryfhau sicrhau ansawdd Cynlluniau Addysg Personol fel eu bod yn cael eu defnyddio'n gyson fel arfau effeithiol ar gyfer cynllunio, adolygu a gwerthuso addysgol.

A9 Cryfhau cydweithio rhwng addysg, gwasanaethau plant ac asiantaethau partner i gynnal parhad addysgol wrth symud lleoliadau, newid ysgolion ac yn ystod cyfnodau eraill o ansefydlogrwydd, gan gynnwys manteisio ar addysg cyfrwng Cymraeg, lle bo hynny'n briodol.

A10 Gwerthuso effaith cymorth, ymyriadau a dulliau sy'n ystyriol o drawma ar brofiadau a deilliannau addysgol dysgwyr a defnyddio'r canfyddiadau i lywio cynllunio gwelliant.

Dylai Llywodraeth Cymru:

A11 Egluro disgwyliadau cenedlaethol a darparu arweiniad ar ddulliau cymesur i nodi, monitro a chydlynu cymorth ar gyfer grwpiau ehangach o ddysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal, gan barchu dewisiadau dysgwyr a theuluoedd ynghylch datgelu a chyfrinachedd.

A12 Adolygu a yw arweiniad cenedlaethol, cyllid a threfniadau atebolrwydd presennol yn cefnogi darpariaeth gyson, deg ac sy'n canolbwyntio ar ddeilliannau i bob dysgwr sydd â phrofiad o fod mewn gofal.

Pennod 1: Arweinyddiaeth a goruchwyliaeth strategol

Mae gan drefniadau arweinyddiaeth, llywodraethu a rhianta corfforaethol cryf rôl bwysig o ran sicrhau bod dysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn parhau i fod yn weladwy mewn systemau addysgu ac a gallant fanteisio ar y cymorth, cyfleoedd a'r dyheadau uchel sydd eu hangen i lwyddo.

Mae ymchwil ac adolygiadau blaenorol wedi tynnu sylw at bwysigrwydd arweinyddiaeth gref, gwaith partneriaeth effeithiol a threfniadau atebolrwydd cadarn mewn gwella deilliannau i ddysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal (Estyn, 2016; Foster et al., 2021). Maent hefyd wedi nodi'r angen i ddeilliannau addysgol barhau i fod yn weladwy mewn trefniadau rhiant corfforaethol a gwella, ochr yn ochr â mesurau ehangach lles a sefydlogrwydd.

Mae'r bennod hon yn ystyried pa mor effeithiol y mae ysgolion, UC Dau ac awdurdodau lleol yn darparu arweinyddiaeth strategol i ddysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal. Mae'n archwilio sut mae arweinwyr yn nodi'r dysgwyr hyn, yn monitro eu cynnydd, yn hybu uchelgais, yn cydlynu cymorth, yn defnyddio cyllid ac yn gwerthuso a yw eu gwaith yn gwella deilliannau addysgol dros amser.

1.1 Arweinyddiaeth ac uchelgais strategol

Ar draws bron pob ysgol, UC Dau ac awdurdod lleol yr ymwelwyd â nhw, roedd arweinwyr yn dangos ymrwymiad cryf i gefnogi dysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal. Mewn ysgolion ac UC Dau, roedd arweinwyr yn adnabod dysgwyr unigol yn dda, ar y cyfan, ac yn rhoi pwyslais clir ar sefydlogrwydd, perthnasoedd dibynadwy a chymorth emosiynol.

Mewn arfer gryfach, roedd y ddealltwriaeth hon o berthnasoedd a phrofiadau dysgwyr wedi'i chyfuno â disgwyliadau uchelgeisiol ar gyfer cyflawniad, cyfranogiad a chyfleoedd yn y dyfodol. Roedd arweinwyr yn cydnabod bod angen cymorth ychwanegol yn aml ar ddysgwyr sydd â phrofiad o fewn mewn gofal i oresgyn rhwystrau rhag dysgu, ond roeddent yn gwrthod rhagdybiaethau y dylai amgylchiadau dysgwyr gyfyngu ar eu dyheadau neu eu deilliannau addysgol. Roeddent yn ymdrin â gwaith gyda'r dysgwyr hyn fel cyfrifoldeb addysgol craidd yn hytrach na phryder diogelu neu les yn unig.

Lle'r oedd darpariaeth yn fwyaf effeithiol, roedd cyfrifoldeb am ddysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn cael ei rannu ar draws y sefydliad. Roedd uwch arweinwyr, athrawon dynodedig, timau bugeiliol a staff ehangach yn cydweithio â'i gilydd i gefnogi cynnydd a lles dysgwyr. Roedd hyn yn helpu i sicrhau bod dysgwyr yn parhau i fod yn weladwy mewn systemau ysgolion ac yn lleihau dibyniaeth ar aelodau staff unigol.

Yn y rhan fwyaf o achosion, roedd arweinwyr yn deall eu cyfrifoldeb rhianta corfforaethol yn dda. Fodd bynnag, roedd y graddau yr oedd cyflawniad addysgol yn parhau fod wrth wraidd trefniadau rhianta corfforaethol yn amrywio. Mewn arfer gryfach, roedd cynnydd, cyfranogiad a chyflawniad addysgol yn rhan amlwg o drafodaethau ac adroddiadau. Mewn arfer wannach, roedd sylw'n canolbwyntio'n fanylach ar broses o ddydd i ddydd, presenoldeb neu les, gyda chraffu rheolaidd neu ddim craffu o gwbl ar ddeilliannau addysgol a dilyniant tymor hwy.

Yn awdurdod lleol Caerdydd, cryfhawyd llywodraethu trwy ddatblygu dealltwriaeth llywodraethwyr o ddysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal a rhoi ffyrdd ymarferol iddynt ofyn cwestiynau gwybodus am ba mor dda roedd dysgwyr yn cael eu cefnogi. Roedd hyn yn cynnwys cwestiynau a oedd yn canolbwyntio ar ba mor dda roedd dysgwyr yn cael eu nodi a'u cefnogi, eu presenoldeb, chyfraddau gwahardd a chynnydd addysgol, hyfforddiant staff ac ansawdd CAPau (gweler Atodiad 1).

At ei gilydd, roedd yr arweinwyr cryfaf yn cyfuno cymorth ag uchelgais. Roeddent yn hybu dyheadau uchel, yn cynnal cyfrifoldeb ar y cyd am ddysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal ac yn sicrhau bod cyflawniad addysgol yn parhau i fod wrth wraidd trefniadau gwella ac atebolrwydd.

1.2 Monitro, gwerthuso ac atebolrwydd

Roedd goruchwyliaeth strategol ar ei chryfaf lle'r oedd arweinwyr yn ystyried gwybodaeth am asesu a chynnydd, cyrhaeddiad a chyrchfannau ochr yn ochr â phresenoldeb, cyfranogiad, ymddygiad, lles a chyfraddau gwahardd. Roedd y trefniadau hyn yn canolbwyntio ar fonitro a goruchwyliaeth ar draws y sefydliad yn hytrach nag ansawdd prosesau cynllunio unigol, fel Cynlluniau Addysg Personol. Yn y cyd-destunau hyn, roedd dysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn parhau i fod yn weladwy mewn systemau gwella ac roedd arweinwyr yn defnyddio gwybodaeth i nodi rhwystrau, herio rhagdybiaethau ac ymyrryd pan fyddai pryderon yn codi.

Roedd bron pob un o'r darparwyr a'r awdurdodau lleol yr ymwelwyd â nhw yn cynnal gwybodaeth fanwl am bresenoldeb, ymddygiad, gwaharddiadau a lles. Roedd llawer ohonynt yn cynnal trafodaethau amlasiantaeth rheolaidd i adolygu anghenion, cynnydd a chymorth dysgwyr unigol, gan gynnwys athrawon dynodedig, staff bugeiliol, Cydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol (CAYau) ac uwch arweinwyr. Mewn arfer gryfach, roedd y trafodaethau hyn yn ystyried cynnydd a chyfranogiad dysgwyr a'u dyheadau ar gyfer y dyfodol, ochr yn ochr â ffactorau cyd-destunol ehangach.

Defnyddio monitro strategol i wella deilliannau i ddysgwyr bregus (Ysgol Uwchradd Cei Connah)

Nododd arweinwyr yn Ysgol Uwchradd Cei Connah yr angen am gymorth cynharach a mwy cydlynol i ddysgwyr bregus, gan gynnwys dysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal, i leihau'r risg o ymddieithrio, presenoldeb gwael a llai o allu i fanteisio ar y cwricwlwm.

Er mwyn ymateb i hyn, datblygont y broses Monitro Ymyrraeth Ychwanegol (AIM), sef dull amlddisgyblaethol sy'n dwyn ynghyd staff bugeiliol, diogelu, presenoldeb, y cwricwlwm ac ADY. Trwy gyfarfodydd rheolaidd, mae staff yn dadansoddi presenoldeb, ymddygiad, cynnydd a gwybodaeth gyd-destunol ehangach i nodi rhwystrau rhag dysgu yn gynnar. Maent yn cytuno ar ymyriadau targedig, yn dyrannu cyfrifoldebau clir ac yn monitro effaith cymorth dros gyfnod.

Mae'r broses AIM wedi cryfhau cyfathrebu, atebolrwydd ar y cyd a goruchwyliaeth strategol ar draws yr ysgol. Trwy ddwyn gwybodaeth ynghyd o dimau gwahanol, mae arweinwyr mewn sefyllfa dda i nodi pryderon sy'n dod i'r amlwg cyn iddynt waethygu a sicrhau bod cymorth yn amserol, yn gydgyssylltiedig ac yn ymateb i anghenion unigol. Crybwyllodd arweinwyr ymgysylltiad gwell ymhlith dysgwyr, presenoldeb gwella a gallu cynyddol i fanteisio ar y cwricwlwm. Mae'r dull hefyd wedi cryfhau cynlluniau pontio, gan helpu dysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal a phobl ifanc fregus eraill i symud yn llwyddiannus i addysg bellach, hyfforddiant neu gyflogaeth.

At ei gilydd, roedd arweinwyr yn fwy hyderus wrth drafod dysgwyr unigol na gwerthuso patrymau a thueddiadau ar draws grwpiau o ddysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal. Roedd y gwahaniaeth hwn yn nodwedd bwysig o'r adolygiad. Yn aml, roedd arweinwyr yn dangos gwybodaeth fanwl am ddysgwyr unigol ond nid oeddent yn gallu esbonio cystal beth roedd eu tystiolaeth gyfunol yn ei ddweud wrthynt am gynnydd a deilliannau addysgol dysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal fel grŵp. Er bod awdurdodau lleol yn casglu ystod eang o wybodaeth, nid oedd trefniadau ar gyfer dadansoddi cynnydd, cyrhaeddiad a deilliannau tymor hwy ar lefel strategol ar draws carfan y dysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal wedi'u datblygu cystal.

Roedd y rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn monitro presenoldeb, gwaharddiadau a sefydlogrwydd lleoliadau yn rheolaidd. Roedd cynnydd addysgol, cyrhaeddiad a chyflawniad yn cael eu hadrodd yn llai cyson trwy drefniadau rhianta corfforaethol a llywodraethu, gan gyfyngu ar oruchwyliaeth strategol o'r deilliannau hyn. Roedd hyn yn adlewyrchu pryderon a nodwyd mewn adolygiadau blaenorol ynghylch yr angen i ddefnyddio data a threfniadau atebolrwydd yn gryfach i werthuso deilliannau addysgol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal (Estyn, 2016; Foster et al., 2021; Llywodraeth Cymru, 2024a; Llywodraeth Cymru, 2024b).

Roedd dulliau ar gyfer ymdrin â phresenoldeb yn adlewyrchu cydbwysedd rhwng dealltwriaeth ac uchelgais. Roedd yr arweinwyr mwyaf effeithiol yn cydnabod yr heriau y mae dysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn eu hwynebu, wrth gynnal disgwyliadau uchel ac uchelgeisiol ar gyfer cyfranogi mewn addysg. Mewn ychydig o'r darparwyr yr ymwelwyd â nhw, roedd targedau presenoldeb yn adlewyrchu patrymau presenoldeb presennol dysgwyr yn hytrach na disgwyliadau uchelgeisiol ar gyfer gwella, gan beri risg y caiff presenoldeb isel ei dderbyn dros amser.

Mewn arfer gryfach, roedd arweinwyr yn monitro cyfranogiad yn ogystal â phresenoldeb a chyrhaeddiad. Er enghraifft, roeddent yn ystyried gallu dysgwyr i fanteisio ar weithgareddau cyfoethogi, cyfleoedd arweinyddiaeth a llwybrau dilyniant, gan helpu i nodi rhwystrau rhag cynhwysiant a chynnal disgwyliadau uchelgeisiol ar gyfer dysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal.

Nid oedd goruchwyliaeth o'r boblogaeth ehangach sydd â phrofiad o fod mewn gofal wedi'i datblygu cystal ar draws darparwyr. Er bod trefniadau ar gyfer monitro plant yr oeddent yn derbyn gofal ar hyn o bryd wedi'i hen sefydlu yn gyffredinol, nid oedd llawer o ddarparwyr yn monitro grwpiau ehangach o ddysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn systematig. O ganlyniad, yn aml, roedd gan arweinwyr ddealltwriaeth gyfyngedig o ddeilliannau ar gyfer y grwpiau hyn.

Roedd y trefniadau monitro cryfaf yn cyfuno gwybodaeth fanwl am ddysgwyr unigol â dadansoddi patrymau a thueddiadau ar draws grwpiau. Er enghraifft, roedd arweinwyr yn defnyddio adolygiadau o achosion unigol ochr yn ochr â dadansoddi presenoldeb, cynnydd, gwaharddiadau a chyfranogiad i nodi rhwystrau cyffredin, targedu cymorth a phrofi a oedd grwpiau penodol yn elwa ar ddarpariaeth ai peidio. Roedd arweinwyr yn defnyddio'r wybodaeth hon i herio rhagdybiaethau, addasu cymorth yn ôl yr angen a gwerthuso effaith gyffredinol darpariaeth ar ddeilliannau.

1.3 Cynlluniau Addysg Personol a phrosesau cynllunio

Mae CAPau yn ofyniad statudol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. Nid yw'r gofyniad hwn yn ymestyn i ddysgwyr sydd wedi'u mabwysiadu, dysgwyr sydd byw dan drefniadau gofal gan berthynas neu orchymyn gwarcheidiaeth arbennig, neu ddysgwyr eraill a oedd yn derbyn gofal yn flaenorol, oni bai eu bod yn derbyn gofal gan awdurdod lleol ar hyn o bryd. Mae CAPau yn darparu'r brif ffordd o gynllunio, cydlynu ac adolygu cymorth i blant sy'n derbyn gofal. Mewn arfer gryfach, roeddent yn canolbwyntio'n glir ar gynnydd addysgol, cyfranogiad, dyheadau a lles, gan helpu i sicrhau bod trafodaethau a chymorth yn canolbwyntio ar ddeilliannau. Er bod trefniadau monitro yn darparu goruchwyliaeth strategol, mae CAPau yn gweithredu ar lefel y dysgwr unigol a'u bwriad yw cynorthwyo i gynllunio ac adolygu cymorth dros gyfnod.

Ym mis Gorffennaf 2026, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru canllawiau diwygiedig yn nodi disgwyliadau ar gyfer dibenion addysgol CAPau, cyfranogiad dysgwyr, dyheadau, cynllunio amlasiantaeth a rôl ysgolion o ran hybu cyflawniad addysgol. Gan y cyhoeddwyd y canllawiau ar ôl y gwaith maes ar gyfer yr adolygiad hwn, nid oedd arolygwyr yn gallu gwerthuso eu heffaith ar arfer. (Llywodraeth Cymru, 2026c; Llywodraeth Cymru, 2025b). Fodd bynnag, adeg y gwaith maes, roedd ansawdd ac effeithiolrwydd CAPau yn amrywio'n sylweddol. Er bod bron pob darparwr ac awdurdod lleol yn llenwi CAPau yn unol â'r gofynion statudol, roedd gormod ohonynt yn disgrifio'r cymorth a ddarperir heb werthuso a oedd wedi gwella cynnydd addysgol, presenoldeb, cyfranogiad neu ddyheadau. O ganlyniad, roeddent yn aml yn gweithredu fel dogfennau cydymffurfiaeth yn hytrach nag yn arfau effeithiol ar gyfer cynllunio ac adolygu addysgol. Mae hyn yn adlewyrchu pryderon a nodwyd yn adolygiad blaenorol Estyn (Estyn, 2016).

Mewn enghreifftiau cryfach, roedd CAPau yn cynnwys dadansoddiad clir o gryfderau a rhwystrau dysgwyr, targedau addysgol uchelgeisiol a chyfranogiad ystyrion gan ddysgwyr mewn datblygu ac adolygu'r cynllun. Roedd camau gweithredu yn benodol, yn gysylltiedig ag anghenion a nodwyd ac yn cael eu hadolygu a'u haddasu dros amser. Mewn arfer wannach, roedd cynlluniau'n canolbwyntio'n fanylach ar bresenoldeb, lles neu drefniadau cymorth nag ar gynnydd addysgol, cyrhaeddiad a dyheadau ar gyfer y dyfodol. Yn aml, roedd targedau'n eang ac nid oeddent yn darparu sylfaen ddigon clir ar gyfer adolygu cynnydd. Roedd barn dysgwyr wedi'i chynnwys yn y rhan fwyaf o'r CAPau a adolygwyd, er bod ansawdd eu cyfraniad yn amrywio. Mewn arfer gryfach, roedd dysgwyr yn cyfrannu'n ystyrion at drafodaethau am eu dysgu, eu dyheadau a'u cymorth, ond mewn mannau eraill, nid oedd eu barn yn dylanwadu'n gyson ar gynllunio na phenderfyniadau.

Tynnodd arweinwyr sylw hefyd at heriau wrth gydlyn adolygiadau CAPau â Chynlluniau Datblygu Unigol (CDUau), adolygiadau Plant sy'n Derbynn Gofal⁴ a phrosesau cynllunio gofal ehangach. Lle cynhaliwyd cyfarfodydd ar wahân, gallai hyn greu dyblygu i ddysgwyr, gofaluwr a gweithwyr proffesiynol. Lle'r oedd prosesau wedi'u cyfuno, nid oedd pwrpas addysgol y CAP yn ddigon amlwg bob tro, a gallai trafodaethau am gynnydd, cyrhaeddiad a thargedau addysgol gael eu bwrw i'r cysgod gan faterion gofal a chymorth ehangach. Er bod CAPau a CDUau wedi'u cysylltu'n gyffredinol lle'r oedd y ddau ohonynt ar waith, canfu'r adolygiad dystiolaeth gyfyngedig o oruchwyliaeth systematig o ansawdd targedau addysgol ar draws y cynlluniau hyn. Roedd y dulliau cryfaf yn cydbwyso effeithlonrwydd â ffocws clir ar gyflawniad, dyheadau a dysgu.

Gwendid a oedd yn codi dro ar ôl tro oedd y gwerthusiad cyfyngedig o effaith mewn cynlluniau. Yn aml, roedd CAPau yn nodi cymorth ac ymyriadau, ond nid oeddent yn

⁴ Mae Adolygiad Plentyn sy'n Derbynn Gofal (LAC) yn gyfarfod statudol ffurfiol i adolygu gofal, cymorth a chynnydd plentyn neu unigolyn ifanc sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol.

cynnwys mesurau clir na phrosesau adolygu i asesu a oedd y camau gweithredu hyn yn effeithiol. Roedd sicrhau ansawdd gan awdurdodau lleol yn amrywio, hefyd. Mewn arfer gryfach, roedd uwch swyddogion yn sicrhau ansawdd sampl o gynlluniau'n systematig, yn rhoi adborth ac yn defnyddio canfyddiadau i lywio dysgu proffesiynol. Mewn arfer wannach, roedd sicrhau ansawdd yn canolbwyntio'n bennaf ar gwblhau a chydymffurfio.

Gwella ansawdd ac effaith Cynlluniau Addysg Personol (Caerdydd)

Yng Nghaerdydd, Ysgol Rithwir⁵ yr awdurdod lleol sy'n gyfrifol am gefnogi a monitro addysg plant sy'n derbyn gofal. Roedd yr Ysgol Rithwir yn cydnabod bod ansawdd Cynlluniau Addysg Personol (CAPau) yn anghyson ac nad oedd cynlluniau bob amser yn canolbwyntio'n ddigonol ar gynnydd addysgol, dyheadau uchel nac effaith cymorth.

I fynd i'r afael â hyn, cyflwynodd yr Ysgol Rithwir broses sicrhau ansawdd strwythuredig. Roedd swyddogion yn samplu CAPau yn rheolaidd ac yn gwerthuso ansawdd gwybodaeth am lais y dysgwr, targedau addysgol, presenoldeb a chynnydd, y defnydd o PDG-CLA a gwerthuso cymorth. Roedd ysgolion yn cael adborth rheolaidd ar gynlluniau unigol, yn ogystal ag adborth yn tynnu sylw at gryfderau a meysydd i'w gwella cyffredin ar draws yr awdurdod.

Cryfhaodd y broses hon oruchwyliaeth o ansawdd CAP a helpodd athrawon dynodedig i ddatblygu dealltwriaeth gliriach o bwrpas addysgol CAPau. O ganlyniad, roedd cynlluniau'n canolbwyntio mwyfwy ar dargedau uchelgeisiol, camau gweithredu clir, deilliannau mesuradwy, cynnydd addysgol, cyfranogiad a dyheadau, ochr yn ochr â lles dysgwyr.

1.4 Cydlynu strategol a gweithio mewn partneriaeth

Mae cefnogi anghenion amrywiol dysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn effeithiol yn mynnu cydweithio effeithiol rhwng gwasanaethau addysg, gwasanaethau plant, byrddau iechyd a phartneriaid yn y trydydd sector (MacDonald et al., 2026). Yn y rhan fwyaf o'r awdurdodau lleol a gymerodd ran yn yr arolwg, roedd goruchwyliaeth strategol wedi'i lleoli o fewn rhianta corfforaethol neu drefniadau llywodraethu ar y cyd eraill yn ymwneud ag addysg a gwasanaethau plant. Crybwyllodd y rhan fwyaf ohonynt hefyd fod ganddynt strategaeth neu fframwaith i gefnogi dysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal, er bod y graddau y rhoddwyd y trefniadau hyn ar waith yn amrywio.

Roedd yr ymatebion i'r arolwg yn dangos bod cydweithio rhwng addysg a gwasanaethau plant yn gadarnhaol, ar y cyfan. Mewn trefniadau cryfach, roedd addysg yn rhan weladwy o drafodaethau rhianta corfforaethol ehangach ac roedd arweinwyr yn cynnal ffocws cyffredin ar bresenoldeb, cyfranogiad, cynnydd a lles. Crybwyllodd arweinwyr fod dulliau

⁵ Mae ysgol rithwir yn wasanaeth awdurdod lleol sy'n cydlynu cymorth ar gyfer addysg plant sy'n derbyn gofal ac, mewn rhai awdurdodau, dysgwyr eraill sydd â phrofiad o fod mewn gofal. Mae'n cydweithio ag ysgolion ac asiantaethau partner i hybu cynnydd addysgol a gwella deilliannau. Mae awdurdodau lleol yng Nghymru yn defnyddio ystod o fodlau trefniadaethol i ddarparu'r cymorth hwn ac nid yw pob un ohonynt wedi sefydlu ysgol rithwir.

ysgol rithwir, arweinwyr dynodedig a threfniadau rianta corfforaethol cryfach wedi gwella goruchwyliaeth strategol mewn llawer o feysydd.

Ar draws y darparwyr yr ymwelwyd â nhw, roedd arweinwyr yn addasu systemau a threfniadau cymorth yn aml i gynnal parhad ar gyfer dysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn ystod cyfnodau o newid neu ansicrwydd ehangach. Roedd hyn yn cynnwys ymateb i drosiant y gweithlu, heriau o ran rhannu gwybodaeth ac amrywiadau mewn cymorth allanol. Yn aml, roedd yr ymdrechion hyn yn lleihau aflonyddwch i ddysgwyr ac yn adlewyrchu ymrwymiad cryf i gynnal cymorth. Fodd bynnag, fe wnaethant dynnu sylw hefyd at y graddau yr oedd deilliannau cadarnhaol weithiau'n dibynnu ar berthnasoedd lleol cryf ac ymrwymiad unigol, yn hytrach na systemau cyson effeithiol ar draws asiantaethau.

Roedd rhannu gwybodaeth yn llai cyson o hyd mewn ychydig o feysydd. Er bod darparwyr yn gwerthfawrogi'r cymorth a'r wybodaeth a ddarperir gan swyddogion awdurdodau lleol a gweithwyr cymdeithasol yn gyffredinol, soniont am amrywioldeb o ran amseroldeb a chysondeb, yn enwedig lle'r oedd newidiadau i bersonél neu amgylchiadau dysgwyr.

Roedd goruchwyliaeth o'r boblogaeth ehangach sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn anghyson o hyd. Er i lawer o awdurdodau lleol grybwyll rhyw lefel o oruchwyliaeth dros drefniadau ar gyfer grwpiau ehangach o ddysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal, dim ond ychydig ohonynt oedd â strategaethau clir ar gyfer nodi, monitro a chydlynu cymorth ar gyfer y grwpiau hyn.

At ei gilydd, roedd strwythurau partneriaethau sydd â'r bwriad o gydlynw cymorth a chynnal goruchwyliaeth wedi'u hen sefydlu mewn llawer o awdurdodau lleol. Fodd bynnag, nid oedd trefniadau bob amser yn cael eu hategu gan systemau digon cyson, cyfrifoldeb clir ar draws gwasanaethau na gwerthusiad o effaith addysgol.

1.5 Defnydd strategol o adnoddau

Roedd awdurdodau lleol a darparwyr yn defnyddio ystod o ffrydiau ariannu i gefnogi dysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal. Roedd cyllid PDG-CLA, sef grant Llywodraeth Cymru sy'n cael ei ddarparu i gefnogi deilliannau addysgol plant sy'n derbyn gofal, yn adnodd arbennig o bwysig, gan gefnogi ymyriadau i wella cyfranogiad, ymgysylltiad, lles, cyfnodau pontio a chynnydd addysgol. Caiff PDG-CLA ei ddyrannu i awdurdodau lleol ar sail nifer y plant sy'n derbyn gofal, ond ei fwriad yw cefnogi cynnydd addysgol a lles y boblogaeth ehangach sydd â phrofiad o fod mewn gofal. Mae canllawiau hefyd yn disgwyl i awdurdodau lleol fod â threfniadau cilyddol ar waith fel y gall dysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal elwa ar gymorth yn yr awdurdod lle cânt eu haddysgu, gan gynnwys pan fydd awdurdod arall yn riant corfforaethol iddynt.

Ar draws yr awdurdodau lleol a gymerodd ran yn yr arolwg, defnyddiwyd PDG-CLA yn hyblyg, ar y cyfan, i ymateb i anghenion unigol a chael gwared ar rwystrau rhag dysgu a chyfranogiad. Er bod awdurdodau lleol yn parhau i fod yn gyfrifol am oruchwylio'r cyllid, roedd llawer ohono'n cael ei ddyrannu i ysgolion ac UC'Dau, a oedd yn ei ddefnyddio i ddarparu cymorth fel mentora, anogaeth a darpariaeth lles, cymorth â chludiant a gweithgareddau cyfoethogi, cymorth pontio ac ymyriadau addysgol targedig. Mewn arfer gryfach, roedd arweinwyr yn cysylltu penderfyniadau ariannu'n glir â blaenoriaethau addysgol a nodwyd ac yn ystyried sut gallai adnoddau gefnogi cyfranogiad, cynnydd addysgol, ymdeimlad o berthyn a dyheadau uchel.

Roedd awdurdodau lleol a darparwyr yn fwy effeithiol, at ei gilydd, wrth fonitro sut roedd cyllid yn cael ei wario yn hytrach na gwerthuso'r gwahaniaeth roedd yn ei wneud. Er y gallai arweinwyr ddisgrifio enghreifftiau unigol o ddeilliannau cadarnhau yn aml, nid oedd tystiolaeth o gyfraniad cyffredinol cyllid at bresenoldeb, ymgysylltiad, cynnydd a chyflawniad wedi'i datblygu cystal. Roedd hyn yn adlewyrchu canfyddiad ehangach ar draws yr arolygiad bod cymorth yn aml yn cael ei ddarparu'n fwy cyson nag yr oedd yn cael ei werthuso.

Tynnodd yr adolygiad sylw hefyd at bryderon ynghylch y trefniadau ariannu presennol. Mewn ychydig o awdurdodau lleol, crybwyllodd arweinwyr fod cefnogi dysgwyr sy'n cael eu lleoli yn eu hardal gan awdurdodau eraill yn creu pwysau ariannol ychwanegol. Er bod yr awdurdod lleoli yn parhau i fod yn gyfrifol am rianta corfforaethol, roedd yn aml yn ofynnol i'r awdurdod sy'n derbyn ddarparu cymorth addysgol o'i ddyraniad PDG-CLA ei hun. O ganlyniad, nid oedd cyllid yn cyfateb i anghenion na chyfrifoldebau lleol bob tro ac, mewn ychydig o achosion, roedd yn cyfyngu ar allu awdurdodau i gynllunio cymorth teg a hirdymor ar gyfer eu poblogaeth breswyl eu hunain sydd â phrofiad o fod mewn gofal.

Crybwyllodd ychydig o awdurdodau lleol ansicrwydd ynghylch pa mor hyblyg y gellid defnyddio cyllid PDG-CLA i gefnogi'r boblogaeth ehangach sydd â phrofiad o fod mewn gofal. Yn ymarferol, roedd cyllid yn aml yn targedu dysgwyr sy'n derbyn gofal ar hyn o bryd, yn bennaf. Roedd arweinwyr yn teimlo y byddai cyfathrebu mwy eglur a chymorth i ddehongli'r canllawiau yn eu helpu i ddefnyddio'r cyllid yn fwy hyderus i fodloni anghenion dysgwyr sydd wedi'u mabwysiadu a'r rhai sy'n byw dan drefniadau gofal gan berthynas, a allai profi rwystrau tebyg rhag dysgu. Crybwyllasant hefyd nad oedd trefniadau cilyddol bob amser yn gweithredu'n effeithiol yn ymarferol.

At ei gilydd, roedd PDG-CLA yn cynnig cyfleoedd pwysig i gael gwared ar rwystrau a chryfhau cymorth i ddysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal. Fodd bynnag, byddai angen i unrhyw adolygiad o drefniadau ariannu yn y dyfodol gael ei lywio gan dystiolaeth gryfach a mwy cyson o nifer, anghenion a deilliannau addysgol dysgwyr sydd wedi'u mabwysiadu a'r rhai sy'n byw dan drefniadau gorchymyn gwarcheidiaeth arbennig neu ofal ehangach gan berthynas.

Crynodeb o Bennod 1

Roedd arweinyddiaeth gref a goruchwyliaeth strategol yn ffactorau pwysig wrth wella profiadau addysgol dysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal. Roedd yr arweinwyr cryfaf yn cyfuno disgwyliadau uchelgeisiol â monitro, atebolrwydd a gwaith partneriaeth effeithiol, gan sicrhau bod cyflawniad addysgol yn parhau i fod wrth wraidd rhianta corfforaethol a threfniadau gwella.

Er bod presenoldeb, gwaharddiadau a lles yn cael eu monitro'n gyson yn gyffredinol, yn aml, nid oedd arweinwyr yn gallu dangos effaith cymorth ar gynnydd addysgol a deilliannau dros gyfnod cystal. Roedd hyn yn cael ei adlewyrchu yn y defnydd o CAPau a gwerthuso effaith ymyriadau a chyllid.

Yn gyffredinol, nid oedd goruchwyliaeth o grwpiau ehangach o ddysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal wedi'i datblygu cystal â threfniadau i blant sy'n derbyn gofal, gan gyfyngu ar ddealltwriaeth arweinwyr o ddeilliannau ar gyfer y boblogaeth ehangach sydd â phrofiad o fod mewn gofal.

Pecyn cymorth 1: Gwerthuso arweinyddiaeth a goruchwyliaeth strategol

Bwriad y pecyn cymorth hwn yw cefnogi ysgolion, UC Dau ac awdurdodau lleol i fyfyrio ar ba mor effeithiol y mae arweinyddiaeth, llywodraethu a threfniadau rhianta corfforaethol yn gwella deilliannau i ddysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal.

Nodweddion arfer gryfach

Mewn arfer gryfach:

- mae arweinwyr yn cynnal disgwyliadau uchelgeisiol o ran cyfranogiad, cyflawniad a chyfleoedd yn y dyfodol
- lle mae profiad o fod mewn gofal yn hysbys, caiff dysgwyr eu deall a chaiff eu cynnydd ei fonitro trwy drefniadau llywodraethu a gwella clir
- caiff cynnydd a chyrhaeddiad addysgol eu monitro ochr yn ochr â phresenoldeb, gwaharddiadau a lles
- caiff CAPau eu defnyddio'n offerynnau cynllunio ac adolygu addysgol effeithiol yn hytrach na dogfennau cydymffurfio
- mae arweinwyr yn deall profiadau a deilliannau'r boblogaeth ehangach sydd â phrofiad o fod mewn gofal, gan gynnwys dysgwyr sydd wedi'u mabwysiadu a'r rhai sydd dan drefniadau gofal gan berthynas neu orchymyn gwarcheidiaeth arbennig
- mae trefniadau partneriaeth yn cefnogi camau gweithredu cydlynol
- mae arweinwyr yn gwerthuso effaith cymorth a chyllid ar ddeilliannau addysgol dros gyfnod

Cwestiynau i gefnogi hunanwerthuso

- Sut ydym ni'n gwybod bod ein camau gweithredu yn gwella deilliannau addysgol i ddysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal?
- Sut ydym ni'n gwybod bod ein disgwyliadau ar gyfer dysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal yr un mor uchelgeisiol â'r rhai ar gyfer dysgwyr eraill?
- Pa mor effeithiol y mae ein systemau'n cefnogi dysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal y mae eu hamgylchiadau'n hysbys, gan barchu dewisiadau teuluoedd ynghylch datgelu a chyfrinachedd?
- Beth mae ein monitro'n ei ddweud wrthym am batrymau mewn cynnydd, cyfranogiad a chyrhaeddiad addysgol?
- Sut ydym ni'n gwybod bod CAPau yn gwella deilliannau addysgol yn hytrach nag yn cofnodi cymorth yn unig?
- Ble gallai dysgwyr sydd wedi'u mabwysiadu, dysgwyr dan drefniadau gofal gan berthynas neu'r rhai sy'n destun gorchymyn gwarcheidiaeth arbennig gael eu hesgeuluso?
- Pa mor dda y mae llywodraethu, rhianta corfforaethol a threfniadau partneriaeth yn ein herio ynghylch deilliannau addysgol?

- Pa dystiolaeth sy'n dangos bod ein cymorth, ein hymyriadau a'n defnydd o gyllid yn gwella deilliannau addysgol?

Ffynonellau tystiolaeth posibl

- gwybodaeth am gynnydd, cyflawniad a phresenoldeb dysgwyr, ochr yn ochr â chyfranogiad mewn dysgu, cyfleoedd cyfoethogi a bywyd ehangach yr ysgol
- CAPau a dogfennau cynllunio eraill i ddysgwyr
- adborth gan ddysgwyr, gofalwyr a staff
- adroddiadau rhianta corfforaethol, llywodraethu a gwella
- cofnodion gweithio mewn partneriaeth a gwaith amlasiantaeth
- gwerthusiadau ariannu ac adolygiadau o effaith
- dogfennau hunanwerthuso a chynllunio gwelliant

Pennod 2 – Cefnogi dysgu, lles a dilyniant

Mae cefnogi dysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn gofyn am roi sylw i'w lles uniongyrchol a'u cynnydd a dyheadau addysgol tymor hwy. Mae llawer o ddysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal wedi cael profiad o aflonyddwch, ansefydlogrwydd neu adfyd sy'n gallu effeithio ar eu hymgysylltiad â dysgu, eu perthnasoedd a'u cyfranogiad yn yr ysgol. Mae tystiolaeth ymchwil wedi tynnu sylw at y rhyngweithiadau cymhleth rhwng y profiad o fod mewn gofal, lles emosiynol, presenoldeb, cyrhaeddiad addysgol a deilliannau yn y dyfodol (Estyn, 2016; Lowthian et al., 2025a; Lowthian et al., 2025b; Ymchwil y Senedd, 2024).

Ledled Cymru, mae dulliau sy'n ystyriol o drawma a dulliau sy'n ymwybodol o ymlyniad, wedi'u cefnogi gan bolisi cenedlaethol a rhaglenni a ariennir gan Lywodraeth Cymru, wedi cyfrannu at ddealltwriaeth well o anghenion dysgwyr ymhlith gweithwyr proffesiynol addysg (Hyb ACE Cymru a Straen Trawmatig Cymru, 2022; Llywodraeth Cymru, 2025c; Llywodraeth Cymru, 2025a).

Mae'r bennod hon yn archwilio sut y gwnaeth ysgolion, UC Dau ac awdurdodau lleol gefnogi lles a chynnydd addysgol dysgwyr a'u paratoi ar gyfer addysg a hyfforddiant yn y dyfodol. Mae'n ystyried sut y gwnaeth darparwyr gydbwysu cymorth ag uchelgais, ymateb i anghenion unigol a gwerthuso effaith eu gwaith ar brofiadau a deilliannau dysgwyr.

2.1 Cefnogi lles a pharodrwydd i ddysgu

Ar draws y darparwyr yr ymwelwyd â nhw, roedd arweinwyr a staff yn cydnabod bod angen cymorth ychwanegol yn aml ar ddysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal i ymgysylltu'n llawn â'u dysgu. Roedd llawer o ddysgwyr wedi profi aflonyddwch, ansefydlogrwydd neu adfyd a oedd yn effeithio ar eu hyder, eu perthnasoedd a'u cyfranogiad mewn addysg. Roedd y darparwyr cryfaf yn ystyried lles yn sylfaen ar gyfer dysgu yn hytrach nag yn flaenoriaeth ar wahân, gan gydnabod bod dysgwyr yn fwy tebygol o fynychu, cymryd rhan a gwneud cynnydd pan roeddent yn teimlo'n ddiogel, eu bod yn cael eu cefnogi a'u bod yn cael eu cynnwys. Roedd hyn yn cynnwys helpu dysgwyr i reoli eu hemosiynau, sefydlu arferion rhagweladwy, ailfeithrin ymddiriedaeth mewn oedolion a magu'r hyder i gymryd rhan mewn gweithgareddau yn yr ystafell ddosbarth.

Roedd ystyried lles yn sylfaen ar gyfer dysgu yn adlewyrchu egwyddorion allweddol canllawiau statudol Llywodraeth Cymru, *Fframwaith ar sefydlu dull ysgol gyfan ar gyfer llesiant emosiynol a meddyliol*, gan gynnwys eu pwyslais ar berthyn, llais y dysgwr, perthnasoedd cefnogol a diwylliant ysgol cadarnhaol (Llywodraeth Cymru, 2026d).

Roedd trafodaethau â dysgwyr yn ystod yr adolygiad yn atgyfnerthu pwysigrwydd deall yr amgylchiadau ehangach sy'n effeithio ar ymgysylltu ag addysg. Disgrifiodd pobl ifanc effaith cyfrifoldebau gofalu, tlodi, tai gorlawn, anawsterau teuluol, galar ac unigrwydd ar eu gallu i ganolbwyntio a chymryd rhan mewn dysgu. Mae hyn yn cyd-fynd â thystiolaeth ymchwil sydd wedi tynnu sylw at y rhyngweithiad rhwng y profiad o fod mewn gofal, lles emosiynol, ansefydlogrwydd a ffactorau economaidd-gymdeithasol ehangach wrth lywio ymgysylltiad dysgwyr â'u dysgu a'u deilliannau addysgol (Lowthian et al., 2025a; Ymchwil y Senedd, 2024). Esboniodd un dysgwr:

'Weithiau, dwi'n canolbwyntio ar oroesi yn hytrach nag ar addysg. Dwi angen eich cefnogaeth chi [staff] i feddwl am fy nyfodol yn y tymor hir'.

Pwysleisiodd dysgwyr hefyd bwysigrwydd amgylcheddau diogel, rhagweladwy a pherthnasoedd cyson. Roeddent yn disgrifio sut gallai newidiadau i'r drefn arferol, staffio a disgwyliadau gynyddu pryder a'i gwneud yn anoddach iddynt gyfranogi. Ar draws bron pob un o'r darparwyr yr ymwelwyd â nhw, roedd dysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn gallu manteisio ar oedolion dibynadwy a oedd yn cynnig arweiniad, eiriolaeth a chymorth ymarferol.

Sicrhau bod gan bob dysgwr oedolyn dibynadwy (Canolfan Addysgu a Dysgu Uwchradd Sir Gâr)

Roedd arweinwyr yng Nghanolfan Addysgu a Dysgu Uwchradd Sir Gâr yn cydnabod bod llawer o ddysgwyr wedi cael profiad o berthnasoedd aflonydd, ansefydlogrwydd a phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod. I ddarparu cymorth cyson, datblygont fodel 'tîm o bump', lle'r oedd pob dysgwr yn cael ei gefnogi gan grŵp bach o oedolion dibynadwy a oedd yn deall eu cryfderau, eu hanghenion a'u hamgylchiadau.

Ystyriodd arweinwyr ymlyniad, perthnasoedd a llais y dysgwr yn ofalus wrth ddyrannu staff, gan sicrhau y gallai dysgwyr fanteisio ar gymorth gan sawl oedolyn dibynadwy yn hytrach na dibynnu ar un gweithiwr allweddol.

Gwellodd y dull barhad pan roedd staff yn absennol neu pan ddaeth perthnasoedd yn anodd, lleihaodd y risg o ddibyniaeth ar oedolion unigol a chryfhaodd ymdeimlad dysgwyr o ddiogelwch, perthyn a chefnogaeth.

Roedd llawer o ddarparwyr yn defnyddio darpariaeth anogaeth, gan gynnwys cymorth targedig ar gyfer anghenion cymdeithasol ac emosiynol dysgwyr, mentora a chymorth ymarferol i helpu dysgwyr i ymgysylltu â'u dysgu a bywyd yr ysgol. Yn yr arfer gryfaf, roedd y trefniadau hyn yn hyblyg ac yn ymateb i anghenion unigol, wrth gynnal cysylltiad dysgwyr ag addysg.

Roedd darparwyr yn defnyddio ystod o ddulliau i fonitro lles dysgwyr, gan gynnwys dal i fyny'n rheolaidd, tracwyr 'hwyliau', mesurau lles safonol, proffiliau un-dudalen, gweithgareddau llais y dysgwr ac adolygiadau o achosion unigol. Mewn arfer gryfach, roedd arweinwyr yn ystyried y wybodaeth hon ochr yn ochr â phresenoldeb, ymddygiad, cyfranogiad a chynnydd addysgol ac yn ei defnyddio i addasu cymorth. Fodd bynnag, roedd dulliau'n amrywio ac nid oedd gwybodaeth am les yn cael ei defnyddio'n systematig bob tro i werthuso effaith tymor hwy darpariaeth.

Daeth perthyn i'r amlwg fel ffactor arbennig o bwysig yn ymgysylltiad dysgwyr ag addysg. Roedd y darparwyr cryfaf yn cyfuno cymorth emosiynol a disgwyliadau cadarnhaol â ffocws clir ar bresenoldeb a dysgu.

Roedd yr arfer gryfaf yn helpu dysgwyr i ddatblygu annibyniaeth a gwydnwch dros amser. Yn hytrach na chreu dibyniaeth, roedd staff yn addasu cymorth yn ofalus wrth i ddysgwyr ddod yn fwy hyderus a pharatoi ar gyfer pontio yn y dyfodol. Roedd hyn yn fwyaf effeithiol lle'r oedd cymorth yn cael ei gynllunio'n llwybr tuag at fwy o hyder ac annibyniaeth, yn hytrach nag yn ymateb i angen uniongyrchol yn unig.

Paratoi dysgwyr i bontio'n llwyddiannus y tu hwnt i'r ysgol (Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin)

Roedd arweinwyr yn Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin yn cydnabod, er bod perthnasoedd cryf a chymorth emosiynol yn bwysig i ddysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal, bod angen iddynt hefyd baratoi dysgwyr ar gyfer addysg bellach, hyfforddiant, cyflogaeth a bywyd fel oedolyn heb yr un lefel o gymorth o ddydd i ddydd sydd ar gael yn yr ysgol.

Datblygodd yr ysgol ddull cymorth wedi'i gynllunio'n ofalus a oedd yn cyfuno anogaeth â chynyddu annibyniaeth. Roedd staff yn darparu cymorth dwys, yn ôl yr angen, ond yn annog dysgwyr yn raddol i ddatblygu hunaneiriolaeth, medrau datrys problemau a hyder wrth reoli heriau'n annibynnol.

Roedd y dull hwn yn helpu dysgwyr i ddod yn fwy hyderus wrth geisio cymorth yn briodol, gwneud penderfyniadau am lwybrau yn y dyfodol a rheoli pontio y tu hwnt i'r ysgol. Crybwyllodd arweinwyr fod dysgwyr wedi'u paratoi'n well ar gyfer addysg bellach, hyfforddiant a chyflogaeth, wrth barhau i elwa ar berthnasoedd cadarnhaol a chefnogol.

Mewn llawer o ddarparwyr, roedd y ddealltwriaeth hon o les yn cysylltu'n agos â datblygu arfer sy'n ystyriol o drawma ac arfer sy'n ymwybodol o ymlyniad, a oedd yn llywio sut roedd staff yn ymateb i anghenion emosiynol ac ymddygiad dysgwyr.

2.2 Arfer sy'n ystyriol o drawma ac arfer sy'n ymwybodol o ymlyniad

Roedd arfer sy'n ystyriol o drawma ac arfer sy'n ymwybodol o ymlyniad wedi dod yn fwyfwy amlwg ar draws ysgolion, UC Dau ac awdurdodau lleol. Roedd dysgu proffesiynol, wedi'i gefnogi gan bolisi cenedlaethol a hyfforddiant a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru, wedi cynyddu ymwybyddiaeth staff o drawma, ymlyniad a phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod ac wedi cyfrannu at newid ehangach yn y ddealltwriaeth o anghenion dysgwyr (Hyb ACE Cymru a Straen Trawmatig Cymru, 2022; Llywodraeth Cymru, 2025a).

Roedd y darparwyr cryfaf yn ystyried ymarfer sy'n ystyriol o drawma yn ddull ysgol gyfan, yn hytrach nag yn rhaglen hyfforddiant neu'n ymyrraeth arbenigol. Yma, roedd staff yn deall sut y gallai trawma ac anawsterau mewn perthnasoedd ac ymlyniadau cynnar ddylanwadu ar ymddygiad, rheoli emosiynau ac ymgysylltiad ac yn cymhwyso hyn yn gyson yn eu perthnasoedd, mewn arfer yn yr ystafell dosbarth ac wrth ymateb i ymddygiad.

Roedd cysondeb yn nodwedd allweddol o arfer effeithiol. Roedd arweinwyr mewn darparwyr cryfach yn sicrhau disgwyliadau, iaith ac ymatebion cyffredin ar draws staff. Roeddent yn cefnogi hyn trwy ddysgu proffesiynol, trafod anghenion dysgwyr yn rheolaidd a chyfleoedd i fyfrio. Yn y lleoliadau hyn, roedd cymorth wedi'i seilio ar berthnasoedd cryf yn cael ei gynllunio'n fwriadus, gan helpu i greu amgylcheddau rhagweladwy lle'r oedd dysgwyr yn teimlo'n ddiogel, yn cael eu deall ac yn cael eu cefnogi.

Roedd arfer sy'n ystyriol o drawma yn aml yn fwyaf amlwg ac wedi'i hymwreiddio mewn UC Dau ac ysgolion arbennig. Roedd staff yn y lleoliadau hyn yn gweithio'n rheolaidd gyda dysgwyr a oedd yn profi anghenion emosiynol, cyfathrebu ac anghenion dysgu ychwanegol cymhleth.

Roedd gweithredu'n parhau i amrywio ar draws darparwyr. Er bod arweinwyr, CADYau a staff bugeiliol yn aml yn dangos dealltwriaeth ddatblygedig sy'n ystyriol o drawma, nid oedd hyn yn cael ei adlewyrchu ar draws y grŵp staff ehangach bob tro. Roedd tystiolaeth gan ddysgwyr a rhanddeiliaid yn tynnu sylw at wahaniaeth pwysig rhwng ymwybyddiaeth ac arfer ystyrion. Roedd dysgwyr yn gwerthfawrogi ymatebion pwylllog, cyson a deallus gan staff a oedd yn dangos mewnwelediad trwy eu gweithredoedd o ddydd i ddydd. Mewn lleiafrif o ddarparwyr, roedd dulliau'n dibynnu ar aelodau staff unigol o hyd, yn hytrach na chael eu hymwreiddio ar draws y sefydliad, gan arwain at brofiadau llai cyson i ddysgwyr.

Manteisiodd darparwyr ar ystod o gyfleoedd dysgu proffesiynol a chynlluniau achredu i ddatblygu arfer sy'n ystyriol o drawma. Tynnodd arweinwyr sylw at rwystrau ymarferol rhag ei rhoi ar waith, gan gynnwys anawsterau o ran rhyddhau staff ar gyfer hyfforddiant, sicrhau bod rhywun ar gael i gyflenwi yn yr ystafell ddosbarth a chynnal dulliau yn ystod cyfnodau o drosiant staff. Mewn ychydig o achosion, roedd dilyn rhaglenni achrededig yn

creu pwysau ychwanegol o ran cyllid a staff a oedd yn cyfyngu ar raddfa'r dysgu proffesiynol. Roedd y ffactorau hyn yn cyfyngu ar y graddau yr oedd arfer sy'n ystyriol o drawma yn cael ei hymwreiddio'n gyson ar draws pob rôl.

Yn gyson ag ymchwil bresennol, roedd arfer gryfach hefyd yn adlewyrchu dealltwriaeth glir o'r cysylltiadau rhwng perthnasoedd, rheoleiddio emosiynol a dysgu (Lowthian et al., 2025a; Adoption UK, 2024). Roedd staff yn cydnabod bod ymddygiad yn aml yn cyfleu angen heb ei fodloni neu ofid ac yn ymateb mewn ffyrdd a oedd yn cynnal urddas ac yn cryfhau perthnasoedd. Fel yr esboniodd un dysgwr:

"Dwi ddim yn drist ac yn flin, ond yn ddryslyd ac o dan straen."

Lle'r oedd staff yn addasu ymatebion i anghenion unigol ac yn rhoi blaenoriaeth i ymddiriedaeth, diogelwch emosiynol a disgwyliadau clir, roedd dysgwyr yn fwy tebygol o barhau i ymgysylltu â dysgu a bywyd ysgol.

Ymwreiddio arfer sy'n ystyriol o drawma ar draws yr ysgol gyfan (Ysgol y Deri)

Roedd arweinwyr yn Ysgol y Deri yn cydnabod bod llawer o ddysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal wedi cael profiad o drawma ochr yn ochr ag anghenion emosiynol, cyfathrebu, synhwyrdd ac anghenion dysgu ychwanegol cymhleth. Roeddent yn deall y gallai'r profiadau hyn effeithio'n sylweddol ar allu dysgwyr i ymgysylltu ag addysg. Roeddent hefyd yn cydnabod pwysigrwydd helpu dysgwyr i feithrin perthnasoedd ymddiriedus a rheoleiddio eu hemosiynau. O ganlyniad, datblygont arfer sy'n ystyriol o drawma ac arfer sy'n ymwybodol o ymlyniad fel dull ysgol gyfan, yn hytrach nag yn ymyrraeth dargedig i ddysgwyr unigol.

Ymwreiddiodd arweinwyr y dull hwn trwy ddysgu proffesiynol helaeth, hyfforddiant arbenigol a chyfleoedd rheolaidd i staff drafod a myfyrio ar eu harfer. Helpodd hyn staff i ddatblygu dealltwriaeth gyffredin o sut y gall trawma ac anawsterau mewn perthnasoedd ac ymlyniadau cynnar ddylanwadu ar ymddygiad, rheoleiddio emosiynol ac ymgysylltiad dysgwyr. Erbyn hyn, mae egwyddorion sy'n ystyriol o drawma yn sail i addysgu, cymorth bugeiliol, dulliau ymddygiad a darpariaeth therapiwtig ar draws yr ysgol, gan sicrhau mwy o gysondeb yn y modd y caiff dysgwyr eu cefnogi.

Mae'r dull ysgol gyfan hwn wedi helpu i sicrhau bod dysgwyr yn profi cefnogaeth gyson ac sydd ar gael yn emosiynol trwy gydol y diwrnod ysgol, yn hytrach na dibynnu ar ymyriadau unigol neu aelodau staff penodol. Crybwyllodd arweinwyr welliannau o ran rheoleiddio emosiynol dysgu, eu perthnasoedd a'u hymgysylltiad â'u dysgu. Mae dysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn narpariaeth iechyd cymdeithasol, emosiynol a meddyliol (SEMH) yr ysgol hefyd yn dangos presenoldeb cryfach na'u

cyfoedion nad oes ganddynt brofiad o fod mewn gofal, gan adlewyrchu effaith gadarnhaol amgylchedd meithringar sy'n ystyriol o drawma.

Er gwaethaf buddsoddiad sylweddol mewn dysgu proffesiynol a gweithredu, nid oedd gwerthuso effaith wedi'i ddatblygu'n ddigonol o hyd. Yn gyffredinol, roedd darparwyr yn fwy cyson wrth ddangos tystiolaeth o weithredu nag yr oeddent wrth werthuso effaith y dulliau hyn ar gyfranogiad, cynnydd a deilliannau dysgwyr dros gyfnod.

Roedd y darparwyr cryfaf yn defnyddio llais y dysgwr; data ar bresenoldeb, ymddygiad a gwaharddiadau; ac adolygiadau manwl o achosion unigol i werthuso effaith a mireinio arfer dros gyfnod.

2.3 Cefnogi dysgu a chyflawniad

Ar draws y darparwyr yr ymwelwyd â nhw, roedd arweinwyr ac ymarferwyr yn dangos ymrwymiad cryf i gefnogi dysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal. Roedd y darparwyr mwyaf effeithiol yn cynnal ffocws clir ar ddysgu ac yn sicrhau bod trefniadau cymorth, y gallu i fanteisio ar y cwricwlwm ac ymyriadau wedi'u llunio i helpu dysgwyr i gyflawni deilliannau addysgol uchelgeisiol. Fodd bynnag, roedd cymorth ar gyfer lles ac ymgysylltiad yn parhau i fod yn fwy amlwg na thystiolaeth o gynnydd a chyflawniad.

Roedd llawer o ysgolion ac UCau yn monitro cynnydd dysgwyr yn ofalus ac yn darparu cymorth ychwanegol lle'r oedd pryderon yn dod i'r amlwg. Yn aml, roedd staff yn adnabod y dysgwyr yn dda ac yn nodi newidiadau o ran ymgysylltiad neu gyrhaeddiad yn gynnar. Mewn arfer gryfach, defnyddiwyd y wybodaeth hon i addasu addysgu a chymorth mewn ffyrdd a oedd yn hybu dysgu, yn hytrach na chanolbwyntio ar bresenoldeb, ymddygiad neu les yn unig.

Yn yr arfer fwyaf effeithiol, roedd hyn yn cynnwys nodi manau cychwyn yn glir, dulliau addysgu strwythuredig, adborth amserol a chymorth targedig a oedd yn galluogi dysgwyr i fanteisio'n llawn ar y cwricwlwm, yn hytrach na chael eu tynnu ohono. Roedd y darparwyr hyn yn sicrhau bod cymorth ychwanegol yn ategu dysgu yn yr ystafell ddosbarth ac yn helpu dysgwyr i feithrin y wybodaeth, medrau a hyder sydd eu hangen i lwyddo.

Serch hynny, nid oedd digon o ddarparwyr yn gwerthuso'n systematig pa ddulliau oedd yn cael yr effaith fwyaf ar gynnydd a chyrhaeddiad dysgwyr. Er bod arweinwyr yn disgrifio deilliannau cadarnhaol i ddysgwyr unigol yn aml, roeddent yn llai cyson wrth gasglu tystiolaeth ar draws achosion neu, lle'r oedd y niferoedd yn caniatáu, wrth ddadansoddi patrymau cynnydd ar draws grwpiau i nodi pa strategaethau oedd yn fwyaf effeithiol dros gyfnod.

Roedd arweinwyr yn cydnabod nad oedd dysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn ffurfio grŵp unffurf â'r un profiadau neu anghenion, a bod rhwystrau rhag dysgu yn amrywio'n sylweddol. Roedd y darparwyr cryfaf yn addasu cymorth yn ôl cryfderau, anghenion ac amgylchiadau unigol, gan gynnal disgwyliadau uchel o ran cyflawniad. Roeddent yn ofalus i beidio â chaniatáu i brofiad o fod mewn gofal ddod yn rheswm dros ostwng dyheadau neu gyfyngu ar gyfleoedd.

Yn aml, roedd gwaith amlasiantaeth yn chwarae rôl bwysig o ran cefnogi dysgu, yn enwedig i ddysgwyr sy'n profi ansefydlogrwydd, newid lleoliad neu amgylchiadau personol cymhleth. Roedd darparwyr yn cydweithio â gofalwyr, gweithwyr cymdeithasol, seicolegwyr addysg, gweithwyr ieuencid a gweithwyr proffesiynol eraill i leihau aflonyddwch a helpu dysgwyr i barhau i ymgysylltu ag addysg a dysgu.

Yn aml, roedd arweinwyr yn disgrifio deilliannau cadarnhaol i ddysgwyr unigol, gan gynnwys cyflawni cymwysterau a symud ymlaen yn llwyddiannus i addysg bellach, hyfforddiant neu gyflogaeth. Fodd bynnag, roedd ysgolion ac awdurdodau lleol yn llai abl i ddangos yn systematig bod y cymorth a ddarperir ganddynt yn gwella cynnydd, cyrhaeddiad a deilliannau tymor hwy yn gyffredinol. Roedd hyn yn adlewyrchu her ehangach a nodwyd mewn adolygiadau blaenorol yng Nghymru, lle'r oedd presenoldeb a lles yn aml yn cael eu monitro'n fwy cyson na chynnydd a chyflawniad addysgol (Estyn, 2016; Foster et al., 2021).

Roedd y darparwyr mwyaf effeithiol yn ystyried cymorth yn fodd i alluogi dysgwyr y gyfranogi'n llawn mewn addysgu a chyflawni eu potensial, yn hytrach nag yn ganlyniad ynddo'i hun. Roeddent yn cadw ffocws clir ar helpu dysgwyr i oresgyn rhwystrau rhag dysgu, manteisio ar y cwricwlwm a phrofi llwyddiant, gan sicrhau bod disgwyliadau ar gyfer cyflawniad yn parhau'n gyson uchel.

2.4 Cymorth personoledig i ddysgwyr ag anghenion sy'n gorgyffwrdd

Ar draws y darparwyr yr ymwelwyd â nhw, roedd dysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn aml yn elwa ar gymorth personoledig a oedd yn adlewyrchu eu hanghenion, eu cryfderau a'u hamgylchiadau unigol. Roedd arweinwyr, gofalwyr a gweithwyr proffesiynol yn cydnabod bod angen gwahanol fathau o gymorth yn aml ar ddysgwyr sydd â phrofiadau tebyg o fod mewn gofal. Yn y darparwyr cryfaf, roedd arweinwyr yn osgoi rhagdybiaethau ar sail statws gofal, mabwysiadu neu ddiagnosis. Roedd cymorth wedi'i deilwra i ddysgwyr unigol, yn cael ei adolygu'n rheolaidd ac yn cael ei addasu wrth i anghenion newid.

Yn aml, roedd profiad o fod mewn gofal yn un o sawl ffactor yn unig a oedd yn effeithio ar addysg dysgwyr. Roedd llawer o ddysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal hefyd yn profi heriau ychwanegol yn ymwneud ag ADY, lles emosiynol, ansefydlogrwydd lleoliadau, tlodi,

iaith, ethnigrwydd neu amgylchiadau teuluol ehangach. Roedd angen i arweinwyr a staff ddeall sut roedd y ffactorau hyn yn rhyngweithio â'i gilydd ac yn dylanwadu ar gynnydd dysgwyr.

Anghenion dysgu ychwanegol (ADY) oedd un o'r ffactorau mwyaf cyffredin a oedd yn effeithio ar ddysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal, ochr yn ochr â'u profiad o fod mewn gofal. Yn aml, roedd CADYau yn ymwneud yn agos â chefnogi dysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal, gan gynnwys dysgwyr nad oedd ganddynt ADY a nodwyd. Roedd arweinwyr yn aml yn disgrifio'r her o ddeall y berthynas rhwng trawma, anawsterau mewn perthnasoedd ac ymlyniadau cynnar, lles emosiynol ac ADY. Mae tystiolaeth ymchwil yn dangos bod dysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn anghymesur o debygol o fod ag anghenion dysgu ychwanegol ac y gall ansefydlogrwydd ac aflonyddwch o ran rhannu gwybodaeth waethygu anawsterau wrth nodi a bodloni anghenion dros gyfnod (Estyn, 2016; Lowthian et al., 2025a; Ymchwil y Senedd, 2024).

Roedd y darparwyr cryfaf yn osgoi ystyried y materion hyn ar eu pen eu hunain. Roeddent yn sicrhau bod systemau ADY, bugeiliol a diogelu yn cydweithio â'i gilydd yn effeithiol ac yn cydnabod na ellid priodoli anawsterau mewn dysgu, ymddygiad neu ymgysylltiad i un achos bob tro. Roedd gwaith amlasiantaeth yn helpu i gydlynu cymorth i ddysgwyr sy'n cael profiad o ansefydlogrwydd, newid lleoliad neu amgylchiadau personol cymhleth.

Roedd tystiolaeth o ymweliadau â darparwyr hefyd yn tynnu sylw at bwysigrwydd cydnabod anghenion grwpiau ehangach o ddysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal. Er bod y dysgwyr hyn yn aml yn cael eu cefnogi'n effeithiol pan roedd eu hamgylchiadau'n hysbys, roeddent yn llai amlwg mewn trefniadau monitro a chymorth, ar y cyfan, na phlant sy'n derbyn gofal ar hyn o bryd. Ar adegau, roedd hyn yn cyfyngu ar allu darparwyr i nodi anghenion ac ymateb yn gynnar.

Roedd ychydig o awdurdodau lleol yn addasu cymorth i ddysgwyr yr oedd eu profiad o fod mewn gofal yn croestorri ag anghenion sylweddol eraill. Er enghraifft, datblygodd Caerdydd gymorth ychwanegol ar gyfer Saesneg a phontio ar gyfer dysgwyr digwmni sy'n geiswyr lloches sy'n hwyrdyfodiaid i addysg uwchradd, gan gydnabod effaith gyfunol y profiad o fod mewn gofal, tarfu ar addysg a rhwystrau iaith ar gyfranogiad a dilynant.

Roedd y darparwyr cryfaf yn ystyried ehangder anghenion ac amgylchiadau dysgwyr. Yn hytrach na chanolbwyntio ar labeli neu gategorïau unigol, roeddent yn ystyried y ffactorau sy'n dylanwadu ar fywydau dysgwyr ac yn addasu cymorth i helpu dysgwyr i barhau i gael eu cynnwys, i fod yn ymgysylltiedig a gallu manteisio ar gyfleoedd dysgu priodol. Roeddent yn ystyried cymorth personoleidig yn fodd o helpu dysgwyr i gyfranogi'n llawn mewn addysg, datblygu annibyniaeth a manteisio ar yr un cyfleoedd i lwyddo â'u cyfoedion. Roedd y darparwyr hyn yn dangos bod uchelgais yn cael ei adlewyrchu nid yn

unig mewn datganiadau o ddyheadau, ond mewn disgwyliadau ar gyfer cyflawniad a pharatoi'n ofalus ar gyfer y camau nesaf ym mywydau dysgwyr.

2.5 Dyheadau a chyfleoedd yn y dyfodol

Ar draws y darparwyr yr ymwelwyd â nhw, roedd arweinwyr a staff yn dangos ymrwymiad cryf i gefnogi dysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal i lwyddo mewn addysg. Roedd yr arfer gryfaf yn cyfuno'r ymrwymiad hwn â disgwyliadau uchelgeisiol ar gyfer cyflawniad, cyfranogiad a chyfleoedd yn y dyfodol. Roeddent yn cydnabod na ddylai profiad o fod mewn gofal benderfynu ar ddeilliannau addysgol ac yn herio'n weithredol ragdybiaethau ynghylch yr hyn y gallai dysgwyr ei gyflawni.

Daeth dyhead i'r amlwg fel elfen bwysig o arfer gryfach. Roedd arweinwyr a staff yn annog dysgwyr i ystyried ystod eang o gyfleoedd yn y dyfodol ac yn sicrhau bod trafodaethau ynghylch addysg bellach, addysg uwch, prentisiaethau, cyflogaeth a byw'n annibynnol yn rhan arferol o drefniadau cymorth. Roedd dysgwyr yn elwa ar oedolion a oedd yn cydnabod eu cryfderau, yn dathlu eu cyflawniadau ac yn eu hannog i feddwl yn gadarnhaol am eu dyfodol.

Roedd darparwyr yn aml yn addasu trefniadau'r cwricwlwm a chymorth i fodloni anghenion unigol. Roedd hyn yn cynnwys llwybrau galwedigaethol, darpariaeth amgen, amserlenni hyblyg a rhaglenni personoledig. Yn aml, roedd y dulliau hyn yn help dysgwyr i barhau i ymgysylltu ag addysg yn ystod cyfnodau anodd ac, mewn arfer gryfach, roeddent yn cael eu cynllunio'n ofalus, eu hadolygu'n rheolaidd a'u cysylltu â deilliannau tymor hwy uchelgeisiol.

Integreiddio'r cwricwlwm a chymorth i wella ymgysylltiad a chyflawniad (Ysgol Uwchradd Cei Connah)

Nododd arweinwyr yn Ysgol Uwchradd Cei Connah fod cymorth i ddysgwyr bregus wedi'i ddatgysylltu gormod oddi wrth gynllunio'r cwricwlwm ac, mewn lleiafrif o achosion, yn dibynnu gormod ar ddulliau bugeiliol a darpariaeth amgen. Roedd hyn yn lleihau gallu dysgwyr i fanteisio ar gwricwlwm eang ac uchelgeisiol ac yn cyfyngu ar gyfleoedd i rai dysgwyr gyflawni eu potensial.

Er mwyn ymateb i hyn, sicrhodd arweinwyr fod cyfrifoldeb am gefnogi dysgwyr, darpariaeth amgen ac anghenion dysgu ychwanegol yn cyd-fynd yn agosach ag arwain y cwricwlwm. Fe wnaethant gryfhau cydweithio rhwng timau'r cwricwlwm, cynhwysiant a diogelu er mwyn sicrhau bod penderfyniadau am gymorth a darpariaeth yn cael eu llywio gan anghenion addysgol a dyheadau dysgwyr. Fe wnaethant hefyd ehangu llwybrau galwedigaethol mewnol i ddarparu cyfleoedd dysgu mwy hyblyg a difyr, gan gynnal disgwyliadau uchel ar gyfer cyflawniad dysgwyr.

Cryfhaodd y dull hwn oruchwyliaeth o'r gallu i fanteisio ar y cwricwlwm, ymgysylltiad dysgwyr a dilyniant. Crybwyllodd arweinwyr gyfathrebu gwell ac atebolrwydd cyffredin ar draws timau, llai o ddibyniaeth ar ddarpariaeth allanol a nodi rhwystrau rhag dysgu yn gynharach. O ganlyniad, roedd dysgwyr bregus yn cael eu cefnogi'n well i barhau i ymgysylltu â'u haddysg a manteisio ar lwybrau priodol.

Nododd yr adolygiad densiwn pwysig rhwng bodloni anghenion uniongyrchol dysgwyr a chynnal disgwyliadau addysgol uchelgeisiol. Gallai dulliau hyblyg chwarae rôl bwysig mewn cefnogi ymgysylltiad, yn enwedig yn ystod cyfnodau o ansefydlogrwydd neu anhawster emosiynol. Fodd bynnag, lle daeth amserlenni llai, addasiadau i'r cwricwlwm neu drefniadau amgen yn hirdymor yn hytrach nag yn atebion dros dro, gallai cyfleoedd i fanteisio ar y cwricwlwm a dilyniant ddod yn fwyfwy cyfyngedig. Roedd y darparwyr mwyaf effeithiol yn rheoli'r tensiwn hwn yn ofalus, gan adolygu trefniadau'n rheolaidd a chynnal ffocws clir ar ymestyn gallu dysgwyr i fanteisio ar ddysgu a chyfleoedd ar gyfer y dyfodol dros gyfnod.

At ei gilydd, roedd y darparwyr cryfaf yn cydnabod bod cysylltiad agos rhwng lles, cyflawniad a dyheadau. Yn hytrach na gostwng disgwyliadau er mwyn ymateb i amgylchiadau dysgwyr, roeddent yn addasu cymorth i helpu dysgwyr i oresgyn rhwystrau wrth gynnal y gallu i fanteisio ar lwybrau uchelgeisiol a chyfleoedd yn y dyfodol.

Crynodeb o Bennod 2

Roedd cynorthwyo dysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal i ymgysylltu'n llwyddiannus ag addysg yn mynnu mwy na darparu cymorth ychwanegol. Ar draws y darparwyr yr ymwelwyd â nhw, roedd yr arfer gryfaf yn cyfuno cymorth effeithiol ar gyfer lles â disgwyliadau uchelgeisiol ar gyfer dysgu, cyflawniad a chyfleoedd yn y dyfodol.

Roedd cymorth ar gyfer lles a pharodrwydd i ddysgu yn gryfder ar draws llawer o ysgolion ac UC Dau. Roedd dysgwyr yn tynnu sylw'n gyson at bwysigrwydd oedolion dibynadwy, perthnasoedd cadarnhaol a theimlo'n ddiogel, eu bod yn cael eu cynnwys a'u bod yn cael eu deall. Roeddent hefyd yn pwysleisio pwysigrwydd amgylcheddau rhagweladwy a chymorth cyson i'w helpu i ymgysylltu'n llwyddiannus ag addysg.

Roedd arfer sy'n ystyriol o drawma ac arfer sy'n ymwybodol o ymlyniad wedi dod yn fwyfwy amlwg ar draws ysgolion, UC Dau ac awdurdodau lleol. Roedd darparwyr cryfach yn ymwreiddio'r dulliau hyn yn gyson ar draws y sefydliad cyfan ac yn cydnabod bod arfer sy'n ystyriol o drawma yn cael ei dangos trwy ryngweithiadau a pherthnasoedd bob dydd, yn hytrach na thrwy hyfforddiant yn unig.

Canfu'r adolygiad fod cymorth ar gyfer lles ac ymgysylltiad yn aml yn fwy amlwg na thystiolaeth o gynnydd a chyflawniad. Roedd arweinwyr yn aml yn disgrifio deilliannau

cadarnhaol ar gyfer dysgwyr unigol ond yn llai cyson o ran dangos effaith cymorth ar gyrhaeddiad a deilliannau tymor hwy.

Roedd y darparwyr cryfaf yn addasu cymorth a threfniadau'r cwricwlwm i anghenion unigol dysgwyr, gan gynnal disgwyliadau uchelgeisiol. Roedd cymorth personoledig, mentora, darpariaeth anogaeth a gwaith amlasiantaeth yn helpu llawer o ddysgwyr i barhau i ymgysylltu yn ystod cyfnodau o anhawster neu ansefydlogrwydd. Roedd y darparwyr hyn yn ymateb yn gyfannol i ddysgwyr yr oedd eu profiad o fod mewn gofal yn croestorri â heriau ychwanegol yn ymwneud ag ADY, lles emosiynol, iaith, tlodi neu amgylchiadau teuluol ehangach.

Nododd yr adolygiad densiwn pwysig rhwng ymateb i anghenion uniongyrchol dysgwyr a chynnal disgwyliadau addysgol uchelgeisiol. Yn aml, roedd amserlenni hyblyg, darpariaeth amgen a llwybrau personoledig yn cefnogi ymgysylltiad, ond roedd angen eu hadolygu'n ofalus er mwyn sicrhau nad oedd y gallu i fanteisio ar y cwricwlwm, cyfranogiad a chyfleoedd yn y dyfodol yn culhau dros gyfnod.

At ei gilydd, roedd darparwyr yn fwyaf llwyddiannus lle'r oedd cymorth, y cwricwlwm a dyheadau yn cydweithio â'i gilydd i gynyddu ymgysylltiad, cyflawniad a chyfleoedd yn y dyfodol i ddysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal.

Pecyn cymorth 2: Gwerthuso dysgu, lles a dilyniant

Bwriad y pecyn cymorth hwn yw cefnogi ysgolion, UC Dau ac awdurdodau lleol i fyfrio ar ba mor effeithiol y maent yn cefnogi dysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal i ymgysylltu â dysgu, gwneud cynnydd a chyflawni eu potensial.

Nodweddion arfer gref

Mewn arfer gryfach:

- mae dysgwyr yn cael profiad o amgylcheddau diogel, rhagweladwy a chefnogol sy'n eu helpu i ymgysylltu â'u dysgu
- mae staff yn cynnal disgwyliadau uchelgeisiol ac yn defnyddio dulliau sy'n ystyriol o drawma ac sy'n ymwybodol o ymlyniad yn gyson mewn arfer bob dydd
- mae cymorth wedi'i deilwra i gryfderau, anghenion ac amgylchiadau unigol dysgwyr, gan ystyried ffactorau a allai effeithio ar ddysgu a chyfranogiad
- mae cymorth, cynllunio'r cwricwlwm a llwybrau ar gyfer y dyfodol yn cyd-fynd â llwyddiant addysgol
- caiff amserlenni llai a llwybrau personoledig eu hadolygu'n rheolaidd ac maent yn gysylltiedig â deilliannau hirdymor uchelgeisiol

- caiff cynnydd, cyflawniad, presenoldeb, cyfranogiad mewn dysgu a bywyd ehangach yr ysgol eu monitro a'u trafod gyda'i gilydd
- mae arweinwyr yn gwerthuso effaith cymorth ac ymyriadau ar ddeilliannau addysgol yn ogystal â chyfranogiad a lles
- caiff dysgwyr eu cefnogi i gyfranogi'n llawn ym mywyd yr ysgol a pharatoi ar gyfer addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth yn y dyfodol

Cwestiynau i gefnogi hunanwerthuso

- Sut ydym ni'n gwybod bod dysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn teimlo'n ddiogel, eu bod yn cael eu cynnwys a'u bod yn barod i ddysgu?
- Pa mor gyson y mae dulliau sy'n ystyriol o drawma a dulliau sy'n ymwybodol o ymlyniad yn dylanwadu ar brofiadau dysgwyr o ddydd i ddydd?
- Sut ydym ni'n gwybod bod ein disgwyliadau ar gyfer dysgu a chyflawniad yr un mor uchelgeisiol â'r rhai ar gyfer dysgwyr eraill?
- Beth mae ein tystiolaeth yn ei ddweud wrthym am gynnydd a chyrhaeddiad dysgwyr a'u gallu i fanteisio ar y cwricwlwm, ochr yn ochr â phresenoldeb a lles?
- Sut ydym ni'n gwybod pryd mae dysgwyr yn barod i gymorth gael ei leihau heb beryglu eu cynnydd a'u lles?
- Pa mor dda ydym ni'n deall y rhyngweithiad rhwng y profiad o fod mewn gofal a ffactorau eraill sy'n effeithio ar ddysgu a chyfranogiad?
- Sut ydym ni'n gwybod bod amserlenni llai, darpariaeth amgen a llwybrau personoledig yn gwella ymgysylltiad a deilliannau addysgol heb greu risgiau tymor hwy i fanteisio ar y cwricwlwm, cymwysterau neu gyfleoedd yn y dyfodol?
- Pa dystiolaeth sy'n dangos bod cynlluniau cymorth ac ymyriadau yn gwella cynnydd addysgol yn hytrach na dim ond cynnal cyfranogiad dysgwyr mewn addysg?
- Pa mor dda ydym ni'n paratoi dysgwyr ar gyfer addysg, cyflogaeth a hyfforddiant yn y dyfodol?

Ffynonellau tystiolaeth posibl

- gwybodaeth am gynnydd, cyrhaeddiad a chyflawniad dysgwyr
- gwybodaeth am bresenoldeb, gwaharddiadau ac ymddygiad, ochr yn ochr â chyfranogiad mewn dysgu a bywyd ehangach yr ysgol
- gwybodaeth am fanteisio ar y cwricwlwm, llwybrau cymwysterau a chyrchfannau
- CAPau a chynlluniau cymorth eraill i ddysgwyr
- gwaith dysgwyr, asesiadau ac adolygiadau cynnydd
- cofnodion a gwerthusiadau o ymyriadau
- adborth gan ddysgwyr, rhieni/gofalwyr a staff
- arsylwadau yn yr ystafell ddosbarth, olrhain achosion unigol a thrafodaethau

proffesiynol

- dysgu proffesiynol a dogfennau polisi
- dogfennau hunanwerthuso a chynllunio gwelliant

Pennod 3 – Perthnasoedd, perthyn a llais y dysgwr

Mae perthnasoedd dibynadwy ac ymdeimlad cryf o berthyn wrth wraidd profiadau addysgol cadarnhaol i ddysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal. Mae canllawiau Llywodraeth Cymru a thystiolaeth ehangach yn pwysleisio pwysigrwydd sicrhau y caiff plant a phobl ifanc eu clywed, eu cynnwys mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt a'u bod yn gallu dylanwadu ar y gwasanaethau y maent yn eu cael (Comisiynydd Plant Cymru, 2025; Llywodraeth Cymru, 2025d). Mae'r egwyddorion hyn yn arbennig o berthnasol i ddysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal, y gallai eu profiadau addysgol gael eu llywio gan newidiadau mewn perthnasoedd, trefniadau gofal a gwasanaethau cymorth.

Mae tystiolaeth ymchwil a pholisi hefyd yn tynnu sylw at bwysigrwydd perthnasoedd, perthyn a chyfranogiad wrth gefnogi ymgysylltu ag addysg, lles a deilliannau cadarnhaol i ddysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal (Comisiynydd Plant Cymru, 2025; Llywodraeth Cymru, 2025d). Disgrifiodd dysgwyr yn yr adolygiad hwn fod perthnasoedd dibynadwy yn sylfaen bwysig ar gyfer presenoldeb, ymgysylltiad a chyfranogiad mewn dysgu.

Mae'r bennod hon yn archwilio sut roedd ysgolion, UC Dau ac awdurdodau lleol yn cefnogi perthnasoedd, perthyn a chyfranogiad dysgwyr ar gyfer dysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal. Mae'n ystyried rôl oedolion dibynadwy, llais y dysgwr, cyfranogiad mewn penderfyniadau a dulliau o leihau stigma a hybu cynhwysiant.

3.1 Perthnasoedd dibynadwy a pherthyn

Roedd perthnasoedd dibynadwy ac ymdeimlad o berthyn wrth wraidd profiadau cadarnhaol dysgwyr ar draws yr adolygiad. Pwysleisiodd dysgwyr yn gyson bwysigrwydd oedolion a oedd yn eu hadnabod yn dda, yn deall eu hamgylchiadau ac yn cynnig cymorth, yn ôl yr angen. Ar draws gweithgarwch ymgysylltu â dysgwyr, ymweliadau â darparwyr a thystiolaeth gan randdeiliaid, disgrifiwyd perthnasoedd yn aml yn ffactor allweddol yn lles, ymgysylltiad a phrofiadau addysgol dysgwyr.

Roedd dysgwyr yn gwerthfawrogi oedolion a oedd yn hawdd mynd atynt, yn ddibynadwy ac yn barod i wrando. Adlewyrchwyd themâu tebyg mewn tystiolaeth cyfranogiad ehangach gan blant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal, lle y nodwyd yn fynych fod perthnasoedd, gwrando a pherthyn wrth wraidd profiadau cadarnhaol (Llywodraeth Cymru, 2025d; Comisiynydd Plant Cymru, 2025). Yn aml, roedd dysgwyr yn disgrifio athrawon, staff bugeiliol, cynorthwyywyr addysgu ac ymarferwyr eraill a oedd wedi rhoi o'u hamser i'w deall fel unigolion ac a oedd yn cynnig cymorth yn ystod cyfnodau anodd. Myfyriodd un dysgwr a gyfrannodd at weithgarwch cyfranogiad ehangach yr adolygiad:

‘Bydd dy [athrawon] eiriau caredig, nad ydw i’n eu cael gan lawer o oedolion yn fy mywyd, yn chwarae yn fy mhen yn ddiweddarach pan fydda’ i’n gweithio tuag at fy nodau. Byddant yn fy ngwthio ac yn caniatáu i mi gredu ynof fi fy hun; byddaf bob amser yn eu cofio.’

Roedd ymdeimlad o berthyn yn cysylltu’n agos â’r perthnasoedd hyn. Roedd dysgwyr yn fwy tebygol o ymgysylltu’n gadarnhaol ag addysg pan roeddent yn teimlo eu bod yn cael eu derbyn, eu deall a’u gwerthfawrogi fel aelodau o gymuned yr ysgol. Trwy ymgysylltu â dysgwyr, canfuom fod dysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn aml yn gwerthfawrogi ysgolion ac UC Dau a oedd yn cynnig sefydlogrwydd, cynefindra ac ymdeimlad o gymuned yn ystod cyfnodau o ansicrwydd mewn rhannau eraill o’u bywydau.

Tynnodd dysgwyr a rhanddeiliaid sylw hefyd at bwysigrwydd staff yn deall y profiad o fod mewn gofal a’i effaith bosibl ar addysg. Er bod bron pob darparwr wedi buddsoddi mewn dysgu proffesiynol perthnasol, nid oedd ymwybyddiaeth yn unig yn ddigonol bob tro. Roedd dysgwyr yn gwahaniaethu rhwng oedolion a oedd yn gwybod am ddulliau sy’n ystyriol o drawma a’r rhai a oedd yn dangos dealltwriaeth trwy ryngweithiadau bob dydd.

Pan ofynnwyd iddynt beth fyddent yn ei hoffi gan eu hysgol, dywedodd un dysgwr:

‘I adael i athrawon ddeall mwy.’

Er ei fod yn gryno, roedd hyn yn adlewyrchu thema ehangach ar draws gweithgarwch ymgysylltu â dysgwyr. Roedd dysgwyr am i staff nid yn unig wybod am y profiad o fod mewn gofal, ond hefyd ddeall sut y gallai ddylanwadu ar berthnasoedd, ymddygiad, hyder ac ymgysylltiad.

Roedd dysgwyr hefyd eisiau i oedolion edrych y tu hwnt i ymddygiad a deall y profiadau a’r amgylchiadau sy’n dylanwadu arno. Roedd y darparwyr cryfaf yn meithrin diwylliannau lle’r oedd deall profiad o fod mewn gofal yn llywio arfer bob dydd, yn hytrach na hyfforddiant neu gymorth arbenigol yn unig. Esboniodd un dysgwr:

‘Dwi eisiau i athrawon wrando ar broblemau pobl. Rhoi’r gorau i gosbi pobl am sefyll yn erbyn bwlis. Dylai athrawon ddeall pan mae pobl yn ymddwyn yn ddrwg neu dan straen yn unig.’

Roedd dysgwyr yn gwerthfawrogi cael eu deall fel unigolion heb gael eu diffinio gan eu profiad o ofal yn unig. Roeddent yn fwy cadarnhaol pan roedd staff yn cydnabod eu cryfderau, eu diddordebau a’u dyheadau yn hytrach na gwneud rhagdybiaethau ar sail eu hamgylchiadau. Mewn arfer gryfach, roedd staff yn cydbwysu ymwybyddiaeth o’r profiad o fod mewn gofal â disgwyliadau uchel a ffocws clir ar ddysgwyr fel unigolion.

Daeth cyfrinachedd i’r amlwg hefyd yn ffactor pwysig o ran meithrin ymddiriedaeth. Yn gyffredinol, roedd dysgwyr yn gyfforddus gyda staff allweddol yn gwybod am eu

hamgylchiadau lle'r oedd hyn yn cefnogi darpariaeth briodol, ond roeddent am i wybodaeth gael ei thrin yn sensitif a'i rhannu dim ond pan roedd yn angenrheidiol. Roedd dulliau parchus a chynnil yn helpu dysgwyr i deimlo'n ddiogel i geisio cymorth a thrafod pryderon.

Pwysleisiodd dysgwyr hefyd bwysigrwydd oedolion yn cyflawni ymrwymadau ac yn gweithredu pan fyddai pryderon yn cael eu codi. Roedd ymddiriedaeth yn cryfhau pan roedd dysgwyr yn teimlo eu bod yn cael eu clywed a phan roedd cymorth yn ymatebol ac yn ddibynadwy. Er bod llawer o ddysgwyr yn disgrifio perthnasoedd cadarnhaol iawn gyda staff, crybwyllodd lleiafrif ohonynt achlysuron pan na aethpwyd ar drywydd pryderon neu pan nad oedd oedolion wedi gweithredu ar eu haddewidion. Gallai'r profiadau hyn leihau hyder dysgwyr y byddai lleisio eu barn yn gwneud gwahaniaeth.

Yn benodol, roedd dysgwyr yn gwerthfawrogi oedolion a oedd yn sylwi pan roeddent yn cael trafferth, yn ymateb yn sensitif ac yn aros wrth eu hochr yn ystod cyfnodau anodd. Myfyriodd un dysgwr:

'Yr athrawon dwi'n gwylltio â nhw amlaf yw'r rhai dwi'n teimlo'n fwyaf diogel gyda nhw.'

Mae'r sylw hwn yn disgrifio thema ehangach ar draws yr adolygiad bod ymddiriedaeth yn aml yn cael ei meithrin trwy ddealltwriaeth, dyfalbarhad a derbyn yn hytrach na thrwy ddiffyg her.

Roedd dysgwyr yn elwa fwyaf lle'r oedd perthnasoedd dibynadwy yn ymestyn y tu hwnt i aelodau staff unigol ac wedi'u hymwreiddio ar draws cymuned ehangach yr ysgol. Yn y darparwyr hyn, roedd dysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn fwy tebygol o deimlo eu bod yn cael eu hadnabod, eu gwerthfawrogi a'u cefnogi trwy gydol eu profiad addysgol ac yn fwy parod i ymgysylltu â'u dysgu, ceisio cymorth a chymryd rhan ym mywyd yr ysgol.

Cefnogi perthyn trwy gymorth gan gyfoedion ac arweinyddiaeth (Ysgol Nantgwyn)

Sefydlodd arweinwyr yn Ysgol Nantgwyn grŵp gwirfoddol ar gyfer dysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal a oedd yn cynnig cyfleoedd i feithrin perthnasoedd, rhannu eu safbwyntiau a chefnogi ei gilydd mewn amgylchedd diogel a chefnogol. Cynlluniwyd cyfranogiad yn ofalus, gan roi sylw manwl i gyfrinachedd, lles emosiynol a dewisiadau dysgwyr, gan gynnwys p'un a oeddent eisiau cymryd rhan a sut roeddent yn dewis cyfrannu.

Creodd yr ysgol gyfleoedd hefyd i ddysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal ymgymryd â rolau mentora ac arweinyddiaeth. Roedd dysgwyr yn cefnogi cyfoedion a oedd yn newydd i'r ysgol neu'n symud rhwng cyfnodau, gan eu helpu i ddod yn

gyfarwydd ag arferion, magu hyder a theimlo'n dawelach eu meddwl yn ystod cyfnodau pontio.

Crybwyllodd arweinwyr fod y cyfleoedd hyn wedi helpu dysgwyr i ddatblygu hyder, cryfhau perthnasoedd a theimlo'n fwy cysylltiedig â chymuned yr ysgol. Roeddent hefyd yn helpu dysgwyr i ddatblygu medrau arweinyddiaeth, cynyddu eu cyfranogiad ym mywyd yr ysgol a chydabod y cyfraniad cadarnhaol y gallent ei wneud i gefnogi pobl eraill.

3.2 Llais y dysgwr

Ar draws yr adolygiad, pwysleisiodd dysgwyr yn gyson bwysigrwydd cael eu clywed a chael cyfleoedd i fynegi eu barn am eu haddysg a'u cymorth. Roedd dysgwyr yn gallu mynegi eu barn fwyaf pan roedd oedolion yn creu cyfleoedd i ddysgwyr rannu eu profiadau ac yn defnyddio'r ddealltwriaeth hon i lywio cymorth, cynllunio ac arfer bob dydd.

Roedd ysgolion ac UC Dau yn creu cyfleoedd i ddysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal siarad ag oedolion dibynadwy, cyfrannu at adolygiadau a thrafod agweddau ar fywyd yr ysgol a oedd yn effeithio arnynt. Yn aml, roedd y sgysiau hyn yn helpu staff i nodi pryderon yn gynnar, deall anghenion dysgwyr yn llawnach ac addasu cymorth yn unol â hynny.

Roedd dysgwyr yn gwerthfawrogi cyfleoedd i rannu eu barn mewn ffyrdd a oedd yn teimlo'n gyfforddus ac yn ystyrlon iddynt. Roedd y darparwyr cryfaf yn cydnabod nad oedd dysgwyr eisiau cymryd rhan drwy gyfarfodydd ffurfiol neu drafodaethau strwythuredig bob tro. Felly, roedd staff yn defnyddio ystod o ddulliau, gan gynnwys sgysiau anffurfiol, perthnasoedd mentora, gweithgareddau creadigol a chyfraniadau ysgrifenedig, gan alluogi dysgwyr i gyfathrebu mewn ffyrdd a oedd yn addas iddynt.

Pan ofynnwyd beth oedd yn gweithio'n dda yn yr ysgol, esboniodd un dysgwr:

'Maen nhw'n [staff] fy neall i ac yn gadael i mi siarad, a dydyn nhw ddim yn tybio unrhyw beth, sy'n golygu eu bod wedi dod i'm hadnabod i, hefyd. Maen nhw'n dangos bod wir ots ganddyn nhw, yn enwedig trwy wneud yn siŵr fod camau'n cael eu cymryd, os oes angen.'

Roedd hyn yn adlewyrchu thema ehangach ar draws gweithgarwch ymgysylltu â dysgwyr. Roedd dysgwyr yn fwyaf cadarnhaol pan roedd oedolion yn cymryd eu hamser i ddeall eu safbwyntiau ac yn ymateb yn feddylgar i bryderon. Lle'r oedd hyn yn digwydd, roedd dysgwyr yn fwy tebygol o geisio cymorth, cyfrannu eu safbwyntiau ac ymgysylltu'n gadarnhaol â bywyd yr ysgol.

Tynnodd dysgwyr sylw'n gyson at bwysigrwydd gweld camau'n cael eu cymryd er mwyn ymateb i'w safbwyntiau. Roeddent yn gwerthfawrogi sefyllfaoedd lle'r oedd oedolion yn gwrandao'n ofalus, yn esbonio penderfyniadau ac yn dangos sut roedd pryderon wedi dylanwadu ar gymorth neu arfer. Roedd hyn yn helpu i gryfhau ymddiriedaeth ac yn annog dysgwyr i barhau i rannu eu barn.

Nid oedd profiadau'n gyson bob tro. Er bod llawer o ddysgwyr yn disgrifio perthnasoedd cadarnhaol ag oedolion a oedd yn gwrandao ac yn ymateb i'w barn, crybwyllodd lleiafrif ohonynt achlysuron pan na aethpwyd ar drywydd pryderon neu pan roeddent yn teimlo nad oedd eu barn wedi dylanwadu ar benderfynu a oedd yn effeithio arnynt. Roedd hyn yn arbennig o amlwg pan roedd dysgwyr yn cael profiad o fwlio yn gysylltiedig â'u statws

gofal. Disgrifiodd sawl dysgwr ymateb i'r ymddygiad hwn a mynd i helynt wedi hynny, gan deimlo nad oedd staff wedi gwrandao'n ddigon gofalus ar yr amgylchiadau a oedd yn ymwneud â'u gweithredoedd.

Roedd y darparwyr cryfaf yn ystyried llais y dysgwr yn broses barhaus yn hytrach nag yn ddigwyddiad untro. Roedd staff yn ceisio barn dysgwyr yn rheolaidd, yn ailedrych ar faterion dros gyfnod ac yn addasu cymorth wrth i amgylchiadau newid. Roedd hyn yn helpu i sicrhau bod cymorth yn parhau i fod yn berthnasol, tra'r oedd dysgwyr yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys yn weithredol yn eu profiad addysgol.

3.3 Cyfranogi mewn cynllunio a gwneud penderfyniadau

Y tu hwnt i gyfleoedd i fynegi eu barn, tynnodd dysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal sylw hefyd at bwysigrwydd cael eu cynnwys mewn penderfyniadau yn effeithio ar eu haddysg a'u cymorth. Roedd cyfranogiad ystyrion yn cynnwys mwy nag ymgynghori yn unig. Roedd dysgwyr yn fwyaf cadarnhaol pan roeddent yn deall pam roedd penderfyniadau'n cael eu gwneud, yn cyfrannu at drafodaethau ac yn gallu gweld bod eu barn yn dylanwadu ar ddeilliannau.

Ar draws y darparwyr yr ymwelwyd â nhw, roedd dysgwyr yn cael eu cynnwys mewn ystod o brosesau cynllunio ac adolygu, gan gynnwys CAPau, trefniadau cymorth unigol a thrafodaethau ehangach am brofiadau ysgol. Roedd ansawdd y cyfranogiad yn amrywio. Mewn arfer gryfach, roedd dysgwyr yn gyfranogwyr gweithredol mewn trafodaethau am eu dysgu, eu dyheadau a'u cymorth. Mewn mannau eraill, roedd cyfranogiad yn fwy cyfyngedig ac yn canolbwyntio ar ddarparu gwybodaeth yn hytrach na dylanwadu ar benderfyniadau.

Roedd dysgwyr yn gwerthfawrogi cyfleoedd i drafod eu nodau, eu dewisiadau a'u dyheadau ag oedolion a oedd yn gwrandao ac yn ymateb yn adeiladol. Lle'r oedd cyfranogiad yn ystyrion, roedd trefniadau cymorth yn aml yn cyd-fynd yn well ag anghenion, amgylchiadau a dyheadau dysgwyr. Roedd dysgwyr hefyd yn fwy tebygol o ddeall y rhesymau y tu ôl i benderfyniadau ac ymgysylltu'n gadarnhaol â chynlluniau cytûn.

Roedd cyfranogiad yn fwyaf effeithiol pan roedd dysgwyr yn gallu cyfrannu mewn ffyrdd a oedd yn teimlo'n ddiogel ac yn briodol iddynt. Roedd rhai dysgwyr yn gyfforddus yn cyfrannu mewn cyfarfodydd, tra bod yn well gan rai eraill sgysiau unigol, cyfraniadau ysgrifenedig neu gymorth gan oedolion dibynadwy i helpu i fynegi eu barn.

Ar y cyfan, roedd dysgwyr yn siarad yn gadarnhaol am gyfleoedd i gyfrannu at benderfyniadau a oedd yn effeithio arnynt. Fodd bynnag, teimlai lleiafrif ohonynt fod penderfyniadau wedi'u gwneud eisoes neu nid oeddent yn glir ynghylch sut roedd eu

safbwyntiau wedi'u hystyried, gan leihau eu hyder y byddai cyfranogiad yn arwain at newid ystyrlon.

Myfyriodd un dysgwr:

'Ni ddylai oedolion wneud penderfyniadau amdanom ni hebom ni.'

Roedd cyfranogiad ystyrlon yn arbennig o bwysig yn ystod cyfnod pontio neu gyfnodau o ansicrwydd. Roedd dysgwyr yn gwerthfawrogi bod yn rhan o drafodaethau am symud ysgol, trefniadau cymorth a llwybrau yn y dyfodol. Pan roedd oedolion yn rhoi o'u hamser i esbonio dewisiadau, trafod goblygiadau a chynnwys dysgwyr yn briodol, crybwyllodd pobl ifanc eu bod yn teimlo'n fwy hyderus ac yn fwy parod ar gyfer newid.

Cefnogi cyfranogiad a dylanwad ystyrlon (Ysgol Gynradd y Groes)

Creodd arweinwyr yn Ysgol Gynradd y Groes gyfleoedd pwrpasol i ddysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal ddylanwadu ar benderfyniadau ar lefel yr ysgol, yr awdurdod lleol ac yn genedlaethol. Roedd dysgwyr yn cymryd rhan mewn cynadleddau, yn cyfrannu at drafodaethau ag aelodau etholedig (cynghorwyr lleol) a chynrychiolwyr Llywodraeth Cymru ac yn helpu i lywio datblygiadau sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal.

Cydweithiodd yr ysgol yn effeithiol â phartneriaid i gael gwared ar rwystrau rhag cyfranogiad a sicrhau bod safbwyntiau dysgwyr yn cael eu clywed, eu gwerthfawrogi ac y gweithredir arnynt. Roedd dysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal hefyd yn cyfrannu at brosesau recriwtio ar gyfer gweithwyr cymdeithasol ac uwch arweinwyr yr ysgol, gan ddangos ymrwymiad yr ysgol i'w cynnwys mewn penderfyniadau sydd o bwys.

Crybwyllodd arweinwyr fod y cyfleoedd hyn wedi helpu dysgwyr i ddatblygu hyder, medrau arwain ac ymdeimlad cryfach o alluedd. Dangosodd y dull sut y gallai cyfranogiad fynd i tu hwnt i ymgynghori a chreu cyfleoedd ystyrlon i ddysgwyr ddylanwadu ar wasanaethau, arfer a phenderfyniadau a oedd yn effeithio ar eu bywydau.

At ei gilydd, roedd cyfranogiad yn fwyaf effeithiol pan roedd dysgwyr yn gallu gweld cysylltiad clir rhwng eu safbwyntiau a chymau gweithredu dilynol. Yn y cyd-destunau hyn, roedd cyfranogiad yn cryfhau hyder dysgwyr, eu hymdeimlad o alluedd a'u hymgylltiad ag addysg, gan helpu darparwyr i wneud penderfyniadau mwy gwybodus am gymorth a darpariaeth.

3.4 Lleihau stigma a hybu cynhwysiant

Tynnodd dysgwyr, gofalwyr a rhanddeiliaid sylw at bwysigrwydd lleihau stigma sy'n gysylltiedig â'r profiad o fod mewn gofal a chreu amgylcheddau lle'r oedd dysgwyr yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys, eu parchu a'u gwerthfawrogi. I rai dysgwyr, roedd pryderon ynghylch cael eu gweld yn wahanol gan gyfoedion neu oedolion yn dylanwadu ar ba mor gyfforddus roeddent yn teimlo o ran cymryd rhan ym mywyd yr ysgol a manteisio ar gymorth.

Ar draws gweithgarwch ymgysylltu â dysgwyr, roedd dysgwyr yn gyffredinol eisiau cael eu cydnabod fel unigolion, yn hytrach na chael eu diffinio gan eu profiad o fod mewn gofal. Roedd darparwyr yn fwyaf llwyddiannus lle'r oeddent yn cydbwyso dealltwriaeth sensitif o brofiadau dysgwyr â disgwyliadau gyson uchel, gan sicrhau nad oedd cymorth yn atgyfnerthu dyheadau is neu ddibyniaeth yn anfwriadol. Siaradodd llawer o ddysgwyr yn gadarnhaol am ysgolion lle'r oedd staff yn dangos dealltwriaeth heb dynnu sylw diangen at eu hamgylchiadau. Roedd y dysgwyr hyn yn fwy tebygol o deimlo'n gyfforddus yn manteisio ar gymorth ac yn cyfranogi'n llawn ym mywyd yr ysgol.

Tynnodd dysgwyr a rhanddeiliaid sylw at y ffaith nad oedd stigma bob amser yn fwriadol. Gallai godi trwy ragdybiaethau bob dydd, iaith, gweithgareddau'r cwricwlwm neu ddulliau a oedd yn edrych ar ddysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal o safbwynt bregusrwydd, yn bennaf, yn hytrach na chydabod eu cryfderau, eu diddordebau a'u dyheadau. Fel yr esboniodd un dysgwr:

'Nid yw popeth sy'n digwydd oherwydd fy mhrofiad o fod mewn gofal ac mae yna bob amser ffactorau eraill.'

Tynnodd tystiolaeth rhanddeiliaid sylw hefyd at bwysigrwydd deall sut y gallai agweddau ar fywyd yr ysgol o ddydd i ddydd effeithio ar ddysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal. Yn yr un modd, mae tystiolaeth gan Brown a Shelton (2024) ac Adoption UK (2024) sy'n ymwneud â dysgwyr sydd wedi'u mabwysiadu yn tynnu sylw at sut y gall hunaniaeth, datgelu, naratifau teuluol a rhagdybiaethau mewn gweithgareddau ysgol ddylanwadu ar berthyn ac ymgysylltiad. Nododd dysgwyr a sefydliadau'r trydydd sector enghreifftiau o weithgareddau'r cwricwlwm, trafodaethau dosbarth a digwyddiadau ysgol a allai achosi gofid yn anfwriadol neu atgyfnerthu teimladau o wahaniaeth. Roedd enghreifftiau'n cynnwys gweithgareddau sy'n canolbwyntiau o goed teulu, geneteg a hanesion teuluol lle nad oedd dulliau amgen wedi'u hystyried.

Roedd y darparwyr cryfaf yn rhagweld y materion hyn ac yn myfyrio'n ofalus ar weithgareddau yn ymwneud â pherthnasoedd teuluol, hanes personol a hunaniaeth. Roeddent yn addasu dulliau, lle bo hynny'n briodol, ac yn darparu ffyrdd amgen i

ddysgwyr gymryd rhan heb deimlo eu bod yn cael eu heithrio, gan sicrhau y gallai pob dysgwr ymgysylltu'n ystyrlon â'u dysgu.

Roedd llawer o ddarparwyr yn hybu dulliau cynhwysol a oedd yn ceisio lleihau gwahaniaethu diangen rhwng dysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal a'u cyfoedion. Mewn arfer gryfach, roedd arweinwyr yn cydbwysu hyn â chymorth targedig, gan gydnabod y gallai trin dysgwyr yn yr union un ffordd anwybyddu rhwystrau neu anghenion ychwanegol, ambell waith.

Disgrifiodd dysgwyr a gofalmwr achlysuron hefyd lle gwnaed rhagdybiaethau am blant a phobl ifanc oedd â phrofiad o fod mewn gofal. Crybwyllodd y lleiafrif ohonynt eu bod yn teimlo eu bod wedi cael eu labelu oherwydd eu hamgylchiadau neu eu trin yn wahanol i'w cyfoedion. Dywedodd un dysgwr:

'Mae pobl yn cymryd pethau'n ganiataol amdanat ti pan maen nhw'n darganfod dy fod mewn gofal.'

Tynnodd rhanddeiliaid sylw at y ffaith y gallai disgwyliadau isel, iaith sy'n seiliedig ar ddiffygion a chamddealltwriaeth o'r profiad o fod mewn gofal danseilio hyder a chyfranogiad dysgwyr a'u hymdeimlad o berthyn.

Yn aml, roedd penderfyniadau ynghylch a ddylid rhannu gwybodaeth am brofiad dysgwr o fod mewn gofal gydag aelodau staff yn gymhleth. Er bod llawer o ddysgwyr yn cydnabod manteision staff allweddol yn deall eu hamgylchiadau, roeddent eisiau mwy o reolaeth dros sut roedd gwybodaeth bersonol yn cael ei rhannu a phwy oedd yn gwybod am eu profiad o fod mewn gofal. Roedd dysgwyr yn gwerthfawrogi dulliau a oedd yn parchu preifatrwydd, yn trin gwybodaeth yn sensitif ac yn osgoi tynnu sylw diangen at drefniadau cymorth.

Cododd dysgwyr bryderon am achlysuron pan ofynnwyd iddynt, o flaen cyfoedion, fynychu cyfarfodydd neu adael gwersi i gael cymorth fel therapi, a allai ddatgelu gwybodaeth bersonol yn anfwriadol. Roedd hyn yn amlygu pwysigrwydd disgresiwn a sensitifrwydd mewn arfer bob dydd a'r angen i osgoi stigma diangen. Crybwyllodd un dysgwr:

'Cadwch bynciau anodd yn gyfrinachol yn hytrach na'u gweiddi ar draws y dosbarth.'

Disgrifiodd sawl dysgwr brofiadau hefyd o fwlio neu sylwadau negyddol yn gysylltiedig â'u statws gofal. Esboniodd un dysgwr:

'Byddai'n dda gen i pe byddai'r ysgol yn atal bechgyn rhag pigo arna' i am fod mewn gofal maeth.'

Gallai'r profiadau hyn effeithio ar hyder, presenoldeb ac ymgysylltiad dysgwyr ag addysg. Roedd dysgwyr yn gwerthfawrogi staff a oedd yn ymateb yn gyflym ac yn effeithiol pan fyddai pryderon yn codi ac a oedd yn herio stereoteipiau neu ymddygiad gwahaniaethol.

Tynnodd dysgwyr sylw hefyd at y ffaith nad oedd stigma wedi'i gyfyngu i blant sy'n derbyn gofal ar hyn o bryd. Disgrifiodd nifer o ddysgwyr sydd wedi'u mabwysiadu brofiadau o fwlio a sylwadau bychanus yn ymwneud â'u statws o fod wedi'u mabwysiadu, yn yr ysgol ac ar gyfryngau cymdeithasol. Yn aml, roedd y profiadau hyn yn canolbwyntio ar ragdybiaethau am berthnasoedd teuluol a hunaniaeth a gallent atgyfnerthu teimladau o wahaniaeth, allgau a bregusrwydd. Mewn nifer fach o achosion, roedd y profiadau hyn yn cyfrannu at ddysgwyr yn tynnu'n ôl, yn ymddieithrio o addysg neu'n ymateb mewn ffyrdd a oedd yn arwain at anawsterau ymddygiadol a materion disgyblu yn yr ysgol.

Mae'r canfyddiadau hyn yn cyd-fynd â chanllawiau Llywodraeth Cymru (2026e) a ddiweddarwyd yn ddiweddar ar herio bwllo ac aflonyddu, sy'n cydnabod y profiad o fod mewn gofal fel agwedd ar hunaniaeth a all arwain at fwlio ar sail rhagfarn. Mae'r canllawiau hefyd yn tynnu sylw at ba mor agored y mae dysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal i stigma, yn enwedig yn ystod cyfnodau o newid a phontio.

Mewn arfer gryfach, roedd staff yn cydnabod bod lleihau stigma yn golygu mwy na dim ond ymateb i ddigwyddiadau unigol. Roeddent yn meithrin diwylliannau cynhwysol lle'r oedd dysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn teimlo eu bod yn cael eu parchu, eu deall a'u bod yn gallu cyfranogi'n llawn mewn dysgu a bywyd ehangach yr ysgol. Yn y lleoliadau hyn, roedd dysgwyr yn fwy tebygol o deimlo eu bod yn perthyn ac ymgysylltu'n hyderus ag addysg.

Crynodeb o Bennod 3

Daeth perthnasoedd, perthyn a llais y dysgwr i'r amlwg yn nodweddion canolog o brofiadau addysgol cadarnhaol i ddysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal. Tynnodd dysgwyr sylw'n gyson at bwysigrwydd oedolion y gellir ymddiried ynddynt a oedd yn gwrando, yn deall eu hamgylchiadau ac yn cynnig cymorth dibynadwy. Roedd y perthnasoedd hyn yn helpu dysgwyr i deimlo'n hysbys, eu bod yn cael eu gwerthfawrogi ac yn cael eu cynnwys yng nghymuned eu hysgol.

Perthnasoedd dibynadwy oedd y sylfaen ar gyfer llais a chyfranogiad ystyrlon i ddysgwyr. Roedd dysgwyr yn fwy tebygol o rannu pryderon, ceisio cymorth a chyfrannu at benderfyniadau pan roeddent yn teimlo eu bod yn cael eu deall ac yn hyderus y byddai oedolion yn gwrando ac yn ymateb. Roedd cyfranogiad ystyrlon ar ei gryfaf lle gallai dysgwyr weld bod eu safbwyntiau'n dylanwadu ar gymorth, cynllunio a phenderfyniadau.

Roedd ymdeimlad cryf o berthyn yn cysylltu'n agos ag ymgysylltiad dysgwyr ag addysg. Roedd dysgwyr yn fwyaf cadarnhaol lle'r oedd staff yn dangos dealltwriaeth, yn cynnal

disgwyliadau uchel ac yn eu helpu i deimlo eu bod yn cael eu derbyn fel unigolion, yn hytrach na'u diffinio gan eu profiad o fod mewn gofal.

Tynnodd yr adolygiad sylw hefyd at effaith barhaus stigma, rhagfarn a rhagdybiaethau ynghylch y profiad o fod mewn gofal. Disgrifiodd dysgwyr bwysigrwydd dulliau parchus yn ymwneud â chyfrinachedd, trin gwybodaeth bersonol mewn modd sensitif ac ymateb yn gyflym i fwlio neu ymddygiad gwahaniaethol. Crybwyllodd dysgwyr sydd wedi'u mabwysiadu a grwpiau eraill sydd â phrofiad o fod mewn gofal stigma hefyd yn gysylltiedig ag amgylchiadau teuluol a hunaniaeth.

At ei gilydd, roedd darparwyr yn fwyaf effeithiol lle'r oedd perthnasoedd, perthyn a llais y dysgwr yn cael eu deall fel rhan annatod o ymgysylltiad dysgwyr a'u llwyddiant mewn addysg.

Pecyn cymorth 3: Gwerthuso perthnasoedd, perthyn a llais y dysgwr

Bwriad y pecyn cymorth hwn yw cefnogi ysgolion, UC Dau ac awdurdodau lleol i fyfrio ar ba mor effeithiol y maent yn meithrin perthnasoedd dibynadwy â dysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal a sicrhau bod barn, profiadau a dyheadau dysgwyr yn dylanwadu ar gymorth a phenderfyniadau.

Nodweddion arfer gryfach

Mewn arfer gryfach:

- gall dysgwyr fynd at oedolion dibynadwy sy'n deall eu profiadau, eu cryfderau a'u dyheadau
- mae dysgwyr yn teimlo'n ddiogel, yn cael eu parchu a'u gwerthfawrogi ac yn profi ymdeimlad cryf o berthyn
- mae staff yn dangos dealltwriaeth o'r profiad o fod mewn gofal trwy ryngweithiadau ac ymatebion bob dydd
- gall dysgwyr rannu eu barn trwy sgysiau rheolaidd a pherthnasoedd ystyrlon, yn hytrach na thrwy brosesau ffurfiol yn unig
- mae safbwyntiau dysgwyr yn dylanwadu ar benderfyniadau am eu cymorth, eu dysgu a'u cynlluniau ar gyfer y dyfodol
- mae dysgwyr yn deall sut mae eu barn wedi dylanwadu ar benderfyniadau a chatau gweithredu
- mae ysgolion, UC Dau ac awdurdodau lleol yn ymateb yn sensitif i faterion sy'n ymwneud â hunaniaeth, stigma, cyfrinachedd a'r profiad o fod mewn gofal
- mae arweinwyr yn gwerthuso pa mor effeithiol y mae perthnasoedd, perthyn a llais y dysgwr yn cefnogi ymgysylltiad a phrofiadau addysgol dysgwyr

Cwestiynau i gefnogi hunanwerthuso

- Sut ydym ni'n gwybod bod gan ddysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal oedolion dibynadwy y gallant droi atynt?
- Pa dystiolaeth sy'n dweud wrthym fod dysgwyr yn teimlo'n ddiogel, yn cael eu parchu a'u bod yn perthyn?
- Sut ydym ni'n gwybod bod staff yn deall profiadau dysgwyr ac yn ymateb yn briodol yn eu harfer bob dydd?
- Sut ydym ni'n gwybod bod dysgwyr yn cael cyfleoedd rheolaidd ac ystyrlon i rannu eu barn, yn hytrach nag ymgynghori â nhw trwy gyfarfodydd ffurfiol yn unig?
- Pa dystiolaeth sy'n dangos bod dysgwyr yn dylanwadu ar benderfyniadau am eu dysgu, eu cymorth a'u cynlluniau ar gyfer y dyfodol?
- Pa mor effeithiol ydym ni'n nodi ac yn ymateb i faterion yn ymwneud â hunaniaeth, stigma, cyfrinachedd a'r profiad o fod mewn gofal?

- Pa dystiolaeth sy'n dangos bod perthnasoedd, perthyn a llais y dysgwr yn gwella ymgysylltiad dysgwyr â'u profiadau addysgol?

Ffynonellau tystiolaeth posibl

- adborth gan ddysgwyr, rhieni a gofalwyr, a staff
- cyfranogiad dysgwyr mewn adolygu CAPau a chynllunio cymorth
- enghreifftiau o lais y dysgwr yn llywio cymorth, cynllunio a phenderfyniadau
- gwybodaeth am bresenoldeb, cyfranogiad ac ymgysylltiad
- olrhain achosion ac adolygiadau dysgwyr
- cofnodion o grwpiau neu fforymau cyfranogiad dysgwyr
- tystiolaeth o newidiadau a wnaed er mwyn ymateb i adborth gan ddysgwyr
- dogfennau hunanwerthuso a chynllunio gwelliant

Pennod 4 – Cyfnodau pontio a pharhad

Mae sefydlogrwydd a pharhad addysgol yn helpu dysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal i barhau i ymgysylltu â'u dysgu, cynnal perthnasoedd cadarnhaol a gwneud cynnydd dros amser. Mae sefydlogrwydd lleoliadau a sefydlogrwydd addysgol yn cysylltu'n agos â'i gilydd, ond nid ydynt yr un peth. Nid yw newid mewn trefniadau byw yn arwain at symud ysgol bob tro, a gallai dysgwyr brofi tarfu ar eu dysgu, eu perthnasoedd neu eu cymorth o hyd, hyd yn oed pan fyddant yn aros yn yr un ysgol.

Mae tystiolaeth ymchwil sy'n defnyddio data gweinyddol cysylltiedig yng Nghymru wedi tynnu sylw at berthnasoedd rhwng y profiad o fod mewn gofal, ansefydlogrwydd ysgol, presenoldeb, gwaharddiadau a deilliannau addysgol, gan atgyfnerthu pwysigrwydd cynnal sefydlogrwydd a pharhad, lle bynnag y bo hynny'n bosibl (Lowthian et al., 2025a; Lowthian et al., 2025b).

Mae'r bennod hon yn archwilio sut y cynhaliodd ysgolion, UC Dau ac awdurdodau lleol barhad addysgol ar gyfer dysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn ystod cyfnodau o newid. Mae'n ystyried newidiadau i leoliadau, pontio rhwng cyfnodau addysg, rhannu gwybodaeth, gwaith amlasiantaeth a pharhad addysg cyfrwng Cymraeg.

4.1 Parhad addysgol trwy gyfnodau o ansefydlogrwydd

Daeth parhad addysgol i'r amlwg yn un o'r ffactorau pwysicaf wrth helpu dysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal i barhau i ymgysylltu a gwneud cynnydd. Roedd tystiolaeth o ymweliadau â darparwyr, awdurdodau lleol, ymatebion i arolygon a rhanddeiliaid yn cysylltu mwy o barhad â lles gwell, perthnasoedd cryfach a chyfleoedd gwell i ddysgu.

Mae data Llywodraeth Cymru yn darparu cyd-destun cenedlaethol pwysig. Ar 31 Mawrth 2025, roedd 601 o blant sy'n derbyn gofal, neu 8%, wedi cael profiad o dri neu fwy o leoliadau yn ystod y flwyddyn. Er bod y gyfran hon wedi parhau'n weddol sefydlog dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, mae cyfran y plant sy'n cael eu lleoli y tu allan i'w hawdurdod lleol cartref a thu allan i Gymru wedi cynyddu (Llywodraeth Cymru, 2026a). Mae hyn yn tynnu sylw at bwysigrwydd cynnal parhad addysgol pan fydd dysgwyr yn profi newidiadau i'w gosodiad, lleoliad neu gymorth.

Canfu arolygwyr fod y darparwyr a'r awdurdodau lleol mwyaf effeithiol yn cydnabod bod sefydlogrwydd addysgol a sefydlogrwydd lleoliadau wedi'u cysylltu'n agos, ond nad ydynt yr un peth. Nid oedd newidiadau i drefniadau byw yn arwain at darfu ar addysg bob tro ac, i'r gwrthwyneb, gallai dysgwyr brofi tarfu ar ddysgu, perthnasoedd neu gymorth hyd yn oed pan roeddent yn aros yn yr un ysgol. Roedd arweinwyr yn cydnabod y gallai aflonyddiadau ar ddysgu, newidiadau mynych i berthnasoedd ac ansefydlogrwydd mewn

trefniadau cymorth gael effaith gronnus ar ymdeimlad dysgwyr o berthyn, eu lles a'u llwyddiant mewn dysgu.

Roedd angen ystyried parhad addysgol hefyd wrth i ddysgwyr symud tuag at drefniadau gofal parhaol, gan gynnwys mabwysiadu, gwarcheidiaeth arbennig neu ailuno â'u teulu genedigol. Gallai'r newidiadau hyn effeithio ar berthnasoedd, lles emosiynol, trefniadau cymorth ac ymgysylltiad â dysgu, hyd yn oed pan roedd dysgwyr yn aros yn yr un ysgol.

Serch hynny, roedd newidiadau i leoliadau yn parhau i fod yn risg sylweddol i barhad addysgol. Roedd arweinwyr, ymarferwyr a rhanddeiliaid yn tynnu sylw'n gyson at eu heffaith bosibl ar berthnasoedd, ymgysylltiad a chynnydd dysgwyr, yn enwedig pan roedd newidiadau'n tarfu ar addysg neu'n arwain at golli oedolion dibynadwy.

Ar draws yr adolygiad, roedd ysgolion ac UC Dau yn gweithredu'n gyson fel ffynhonnell bwysig o barhad pan roedd agweddau eraill ar fywydau dysgwyr yn newid. Yn aml, roedd staff yn adnabod dysgwyr yn dda ac yn cynnig sefydlogrwydd a sicrwydd yn ystod cyfnodau o ansicrwydd. Mewn un ysgol uwchradd yr ymwelwyd â hi, disgrifiodd dysgwyr yr ysgol fel 'eu cysonyn', gan dynnu sylw at y rôl y gallai lleoliadau addysgol ei chwarae o ran darparu parhad yn ystod ansefydlogrwydd ehangach.

Roedd tystiolaeth gan ddysgwyr yn atgyfnerthu'r neges hon. Mewn darn o farddoniaeth a rannwyd ar gyfer yr adolygiad hwn (Atodiad 2), myfyriodd un o gyn-ddysgwyr Ysgol Nantgwyn:

'My school gave me stability, something my life has always lacked.'

Roedd yr awdurdodau lleol a'r darparwyr cryfaf yn gweithio'n rhagweithiol i leihau aflonyddwch diangen pan fyddai dysgwyr yn cael profiad o newid lleoliadau neu newidiadau i'w hamgylchiadau teuluol. Roedd addysg yn ystyriaeth bwysig o hyd mewn cynllunio ehangach ac roedd gweithwyr proffesiynol yn cydnabod gwerth diogelu lleoliadau ysgol, perthnasoedd dibynadwy a threfniadau cymorth sefydliadau, lle bynnag y bo hynny'n bosibl.

Nid oedd cynnal parhad yn syml bob tro. Tynnodd awdurdodau lleol sylw at heriau yn ymwneud ag argaeledd lleoliadau, cludiant, pellter daearyddol a'r gallu i fanteisio ar ddarpariaeth addas. Mewn rhai amgylchiadau, roedd symud ysgolion yn anochel neu'n angenrheidiol am resymau diogelu, cymorth arbenigol neu resymau teuluol. Lle na ellid osgoi tarfu, roedd arfer gryfach yn canolbwyntio ar gynnal parhad dysgu, perthnasoedd a chymorth trwy gynllunio'n ofalus a chyfathrebu'n effeithiol.

Tynnodd yr adolygiad sylw at y ffaith bod parhad yn golygu mwy nag aros yn yr un ysgol. Roedd darparwyr ac awdurdodau lleol yn fwyaf effeithiol pan roeddent yn gweithredu'n

fwriadus i ddiogelu gallu dysgwyr i fanteisio ar ddysgu, cymorth a chyfleoedd yn ystod cyfnodau o newid.

4.2 Cefnogi parhad yn ystod cyfnodau pontio

Roedd pontio rhwng cyfnodau addysg yn adeg fregus bwysig i lawer o ddysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal. Gallai symud rhwng ysgolion neu leoliadau amharu ar berthnasoedd, arferion a threfniadau cymorth sefydledig, gan greu ansicrwydd ar adeg pan roedd sefydlogrwydd yn arbennig o bwysig.

Ar draws y darparwyr yr ymwelwyd â nhw, roedd trefniadau pontio ar gyfer dysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal wedi'u datblygu'n dda, yn gyffredinol. Roedd yr arfer gryfaf yn canolbwyntio ar helpu dysgwyr i gynnal parhad o ran perthnasoedd, cymorth a dealltwriaeth cyn, yn ystod ac ar ôl pontio. Roedd cynllunio cynnar, cydweithio rhwng darparwyr a chyfleoedd i ddysgwyr ddylanwadu ar drefniadau yn helpu i leihau ansicrwydd ac yn galluogi staff i ymateb i amgylchiadau ac anghenion unigol dysgwyr.

Defnyddio deunyddiau pontio personoledig i leihau pryder (Ysgol Sant Julian)

Roedd arweinwyr yn Ysgol Sant Julian yn cydnabod y gallai pontio i'r ysgol uwchradd fod yn arbennig o heriol i ddysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal, yn enwedig y rhai a oedd wedi cael profiad o ansefydlogrwydd, tarfu ar eu haddysg neu bryder ynghylch newid.

Ar gyfer lleiafrif o ddysgwyr, roedd staff yn datblygu llyfrynnau pontio personoledig yn cynnwys ffotograffau o ardaloedd allweddol o'r ysgol a gwybodaeth am arferion, disgwyliadau a ffynonellau cymorth. Defnyddiwyd y rhain ochr yn ochr ag ymweliadau ychwanegol a chyfleoedd i gyfarfod ag oedolion dibynadwy cyn pontio, gan helpu dysgwyr i ymgysylltu â'u hamgylchedd newydd ar eu cyflymder eu hunain.

Crybwyllodd arweinwyr fod y trefniadau hyn yn helpu i leihau pryder ac yn galluogi dysgwyr i ymgartrefu'n fwy hyderus ym mywyd yr ysgol uwchradd. Nododd staff fod y dysgwyr hyn yn ymgysylltu'n fwy parod ag oedolion, arferion a chymorth ar ôl pontio, gan eu helpu i ddechrau'n fwy cadarnhaol a llwyddiannus mewn addysg uwchradd.

Roedd y trefniadau pontio cryfaf yn ymestyn y tu hwnt i rannu gwybodaeth yn unig. Roedd staff a oedd yn derbyn yn datblygu dealltwriaeth o gryfderau, anghenion ac amgylchiadau dysgwyr cyn iddynt ymuno â lleoliad newydd, gan leihau'r angen i ddysgwyr esbonio eu profiadau dro ar ôl tro. Roedd dysgwyr yn elwa pan roedd darparwyr yn nodi oedolion dibynadwy a oedd yn gallu cynnig parhad ac yn sicrhau bod cymorth ar gael o'r cychwyn cyntaf.

Tynnodd dysgwyr sylw at bwysigrwydd cael eu clywed yn ystod cyfnodau pontio. Roeddent yn gwerthfawrogi cyfleoedd i drafod pryderon, dylanwadu ar drefniadau a meithrin perthnasoedd cyn symud. Lle'r oedd dysgwyr yn cael eu cynnwys mewn cynllunio, roeddent yn fwy cadarnhaol, ar y cyfan, am y pontio.

Disgrifiodd dysgwyr sut gallai cyfnodau pontio deimlo'n ansicr ac yn heriol yn emosiynol heb gymorth priodol:

'Pan dwi'n dechrau rhywle newydd, mae angen i bobl ddeall y gallwn i deimlo ar goll neu'n ddryslyd – nid dim ond yn 'newydd'.'

'Byddwch yn amyneddgar gyda fi – efallai nad ydw i'n teimlo'n ddiogel eto.'

Tynnodd trafodaethau gyda dysgwyr sylw hefyd at bwysigrwydd perthnasoedd cynnar a pharhad o ran cymorth:

'Mae gwybod bod rhywun y galla' i siarad â nhw bob dydd yn gwneud gwahaniaeth.'

'Efallai bod fy ymddygiad yn wahanol oherwydd bod fy mywyd yn wahanol – mae angen dealltwriaeth arna' i, nid cael fy nghosbi.'

Roedd ymatebion i'r arolwg i awdurdodau lleol yn dangos bod gan lawer o awdurdodau lleol drefniadau ar waith i gefnogi pontio i ddysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal, er nad oedd y rhain bob amser wedi'u ffurfioli neu'n cael eu cymhwyso'n gyson. Roedd arfer ar ei chryfaf lle'r oedd cymorth yn hyblyg ac yn ymatebol i amgylchiadau unigol, yn hytrach nag yn dibynnu ar drefniadau neu amserlenni pontio safonol yn unig.

Er gwaethaf y cryfderau hyn, roedd arfer yn amrywio o hyd. Mewn lleiafrif o achosion, roedd trefniadau pontio yn dibynnu'n fawr ar aelodau staff unigol neu berthnasoedd anffurfiol rhwng darparwyr. Lle'r oedd cynllunio'n llai effeithiol, nid oedd gwybodaeth yn cael ei rhannu'n brydlon bob tro ac roedd dysgwyr weithiau'n profi oedi wrth fanteisio ar gymorth yn eu lleoliad newydd. Roedd y gwendidau hyn yn lleihau parhad ar adeg pan roedd dysgwyr yn aml yn fwyaf agored i ymddieithrio neu bryder.

Roedd y darparwyr mwyaf llwyddiannus yn ystyried pontio yn broses barhaus yn hytrach nag yn ddigwyddiad unigol. Roedd cymorth yn parhau ar ôl i ddysgwyr symud lleoliadau ac roedd staff yn monitro ymgysylltiad, presenoldeb a lles yn ystod y cyfnodau cynnar. Roedd hyn yn helpu i nodi pryderon yn gyflym ac yn cynnal cymorth wrth i ddysgwyr ymgartrefu yn eu hamgylchedd newydd.

4.3 Rhannu gwybodaeth a chymorth cydlynol

Roedd rhannu gwybodaeth yn effeithiol a gwaith amlasiantaeth yn chwarae rôl bwysig wrth gynnal parhad i ddysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal. Ar draws y darparwyr a'r

awdurdodau lleol yr ymwelwyd â nhw, roedd cyfathrebu amserol, cyfrifoldebau clir a dealltwriaeth gyffredin o amgylchiadau ac anghenion dysgwyr yn nodweddion o arfer gryfach. Helpodd y trefniadau hyn i sicrhau bod ystyriaethau addysgol yn parhau'n ganolog yn ystod cyfnodau o newid.

Yn aml, roedd perthnasoedd gwaith o ddydd i ddydd rhwng addysg a gwasanaethau plant yn gryfder. Lle'r oedd cyfathrebu'n effeithiol, roedd darparwyr yn gallu deall amgylchiadau dysgwyr yn well, ymateb yn gyflym i bryderon a oedd yn dod i'r amlwg a chynnal parhad cymorth pan roedd dysgwyr yn cael profiad o newid lleoliadau, symud ysgolion neu darfu arall. Roedd rhannu gwybodaeth yn amserol hefyd yn lleihau'r angen i ddysgwyr esbonio profiadau personol i weithwyr proffesiynol gwahanol dro ar ôl tro.

Roedd yr awdurdodau lleol cryfaf yn cydnabod bod rhannu gwybodaeth yn effeithiol yn golygu mwy na throsglwyddo gwybodaeth rhwng gwasanaethau. Roedd cydgynllunio, goruchwyliaeth ar y cyd a deialog broffesiynol reolaidd yn helpu i sicrhau bod dysgwyr yn parhau i fod yn weladwy mewn gwasanaethau addysg ac yn sicrhau bod cymorth yn parhau i gael ei gydlyn pan roedd amgylchiadau'n newid.

Cryfhau parhad a chyfathrebu trwy weithio'n integredig (Sir Ddinbych)

Mae arweinwyr yn awdurdod lleol Sir Ddinbych wedi meithrin trefniadau cydweithio cryf rhwng addysg a gwasanaethau plant trwy gydgyllunio, strwythurau rheoli ar y cyd, systemau gwybodaeth integredig a chyfarfodydd gweithredol rheolaidd. Mae'r trefniadau hyn yn helpu i sicrhau bod ystyriaethau addysgol yn parhau i fod yn weladwy mewn cynllunio gofal a phenderfyniadau ehangach.

Nodwedd allweddol o'r dull hwn yw'r cydweithio agos rhwng y Swyddog Cyswllt Addysg ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, rheolwyr cynhwysiant, ysgolion a thimau gofal cymdeithasol. Mae trafodaethau proffesiynol rheolaidd yn galluogi gwasanaethau i nodi pryderon yn gynnar, rhannu gwybodaeth yn effeithiol a chydlynu cymorth i ddysgwyr sy'n cael profiad o leoliadau ansefydlog, ymddieithrio neu wendidau eraill.

Crybwyllodd arweinwyr fod y trefniadau hyn wedi gwella cyfathrebu, egluro rolau a chyfrifoldebau a chryfhau parhad cymorth yn ystod cyfnodau o bontio o newid. Roedd y dull hwn hefyd wedi helpu i gynnal ffocws cliriach ar ddeilliannau addysgol o fewn cyfrifoldebau rianta corfforaethol a chefnogi ymyrraeth gynharach a fwy cydlynol pan fyddai pryderon yn codi.

Roedd arfer yn llai cyson lle'r oedd cyfathrebu'n dibynnu'n fawr ar berthnasoedd proffesiynol unigol yn hytrach na systemau a phrosesau ar y cyd. Crybwyllodd lleiafrif o awdurdodau lleol heriau yn ymwneud â rhannu data, newidiadau i'r gweithlu a

chyfathrebu ar draws ffiniau sefydliadol. Weithiau, roedd y problemau hyn yn oedi cymorth neu'n lleihau parhad wrth i ddysgwyr symud rhwng lleoliadau neu ardaloedd awdurdodau lleol.

Gallai newidiadau i weithwyr proffesiynol allweddol effeithio ar barhad, hefyd. Tynnodd dysgwyr a darparwyr sylw at effaith newidiadau mynych i weithwyr cymdeithasol a gweithwyr proffesiynol eraill, yn enwedig pan roedd angen meithrin perthnasoedd newydd yn gyflym. Er bod newidiadau i'r gweithlu yn aml yn anochel, roeddent weithiau'n lleihau parhad ac yn creu ansicrwydd ychwanegol i ddysgwyr a oedd eisoes wedi profi aflonyddwch sylweddol mewn agweddau eraill ar eu bywydau.

At ei gilydd, lle'r oedd cyfathrebu'n amserol, cyfrifoldebau'n glir a chymorth wedi'i gydlyn, roedd dysgwyr yn fwy tebygol o barhau i fod yn weladwy a pharhau i ymgysylltu â'u dysgu yn ystod cyfnodau o newid.

4.4 Parhad cyfrwng Cymraeg

Ar gyfer dysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal sy'n cael eu haddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg, roedd parhad iaith a darpariaeth addysgol yn rhan bwysig o sefydlogrwydd addysgol, hunaniaeth a pherthyn. Roedd gan awdurdodau lleol gyfrifoldeb i ystyried anghenion iaith dysgwyr a gweithio'n rhagweithiol i gynnal parhad addysg cyfrwng Cymraeg wrth i leoliadau gofal, ysgolion neu drefniadau cymorth newid.

Nid oedd arfer yn deg ledled Cymru. Lle'r oedd awdurdodau lleol yn deall parhad cyfrwng Cymraeg fel hawl ac yn ei ymgorffori mewn cynllunio addysg a gofal o'r cychwyn cyntaf, roeddent yn gweithio'n rhagweithiol i gynnal iaith addysg bresennol dysgwyr. Roedd hyn yn cynnwys trefnu cludiant, herio newidiadau arfaethedig o ran ysgol neu gyfrwng iaith, cydlyn darpariaeth ar draws ffiniau awdurdodau lleol a sicrhau cymorth cyfrwng Cymraeg ychwanegol, yn ôl yr angen.

Mewn ardaloedd eraill, roedd gallu dysgwyr i barhau i fanteisio ar addysg cyfrwng Cymraeg wedi'i gyfyngu gan argaeledd a lleoliad lleoliadau gofal, pellter daearyddol, trefniadau cludiant a gallu cyfyngedig i fanteisio ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg addas. Roedd yr anawsterau hyn yn arbennig o amlwg pan roedd dysgwyr yn symud ar draws ffiniau awdurdodau lleol neu pan roeddent yn cael eu lleoli y tu allan i Gymru.

Pan na ellid cynnal parhad, roedd hyn yn adlewyrchu cyfyngiadau i'r system ehangach yn hytrach na phenderfyniadau gan ysgolion unigol, yn gyffredinol. Serch hynny, roedd gan awdurdodau lleol gyfrifoldeb i gynllunio'n rhagweithiol, trwy gynllunio lleoliadau a threfniadau digonolrwydd, i leihau'r annhegwch hwn, lle bynnag y bo hynny'n bosibl.

Roedd parhad yn ymestyn y tu hwnt i iaith yr addysgu yn yr ystafell ddosbarth. Roedd argaeledd gweithwyr proffesiynol Cymraeg eu hiaith yn effeithio ar b'un a ellid darparu

prosesau CAP ac ADY, cyfarfodydd adolygu, cymorth therapiwtig a gwasanaethau ehangach trwy gyfrwng iaith ddewisol y dysgwr. Lle nad oedd hyn ar gael, gallai dysgwyr brofi diffyg parhad o ran cyfathrebu, cynllunio a chymorth, hyd yn oed pan roeddent yn aros mewn ysgol cyfrwng Cymraeg.

At ei gilydd, roedd yr awdurdodau lleol mwyaf effeithiol yn trin parhad cyfrwng Cymraeg yn rhan annatod o gynllunio addysg a gofal, yn hytrach nag yn ystyriaeth ychwanegol. Fodd bynnag, nid oedd dysgwyr yn gallu manteisio'n deg ar y parhad hwn ledled Cymru.

Crynodeb o Bennod 4

Daeth parhad addysgol i'r amlwg yn un o'r ffactorau pwysicaf o ran helpu dysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal i barhau i ymgysylltu â'u haddysg yn ystod cyfnodau o newid. Tynnodd dysgwyr, ymarferwyr ac arweinwyr sylw at werth parhad mewn dysgu, perthnasoedd, cymorth a pherthyn.

Yn aml, roedd ysgolion ac UC Dau yn ffynhonnell bwysig o sefydlogrwydd pan roedd agweddau eraill ar fywydau dysgwyr yn newid. Yn y darparwyr mwyaf effeithiol, roedd hyn yn cynnwys mwy na chynnal lleoliad ysgol. Roedd staff yn gweithio'n rhagweithiol i gadw perthnasoedd dibynadwy, cynnal ymgysylltiad â dysgu a sicrhau bod cymorth yn parhau i fod ar gael.

Roedd newidiadau i leoliadau, pontio rhwng cyfnodau addysg a newidiadau i gymorth proffesiynol i gyd yn peri risg i barhad. Roedd arfer ar ei chryfaf lle'r oedd cynllunio'n rhagweithiol, dysgwyr yn cael eu cynnwys mewn penderfyniadau a chymorth yn parhau i fod yn hyblyg ac yn ymatebol i amgylchiadau unigol. Lle'r oedd trefniadau'n dibynnu gormod ar aelodau staff unigol neu berthnasoedd anffurfiol, roedd parhad yn fwy agored i aflonyddwch.

Roedd rhannu gwybodaeth yn effeithiol a gwaith amlasiantaeth effeithiol yn helpu i sicrhau bod dysgwyr yn parhau i fod yn hysbys, yn cael eu deall ac yn cael eu cefnogi. Roedd awdurdodau lleol a darparwyr cryfach yn defnyddio systemau ar y cyd, cyfrifoldebau clir a chyfathrebu rheolaidd i sicrhau bod ystyriaethau addysgol yn ganolog o hyd yn ystod cyfnodau o newid.

Roedd parhad addysg cyfrwng Cymraeg yn rhan bwysig o sefydlogrwydd addysgol, hunaniaeth a pherthyn i ddysgwyr sy'n dilyn y llwybr hwn. Er bod awdurdodau lleol effeithiol yn gweithio'n rhagweithiol i ddiogelu'r parhad hwn, nid oedd y gallu i fanteisio arno yn gyfartal ledled Cymru.

At ei gilydd, roedd darparwyr ac awdurdodau lleol yn fwyaf effeithiol lle'r oeddent yn trin parhad addysgol yn flaenoriaeth ac yn gweithio ar y cyd i ddiogelu gallu dysgwyr i fanteisio ar ddysgu, perthnasoedd a chymorth yn ystod cyfnodau o newid.

Pecyn cymorth 4: Gwerthuso cyfnodau pontio a pharhad

Bwriad y pecyn cymorth hwn yw cefnogi ysgolion, UC Dau ac awdurdodau lleol i fyfrio ar ba mor effeithiol y maent yn hybu parhad addysgol ac yn cefnogi dysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn ystod cyfnodau pontio a chyfnodau o newid.

Nodweddion arfer gryfach

Mewn arfer gryfach:

- mae ysgolion, UC Dau ac awdurdodau lleol yn cydnabod bod parhad addysgol yn hanfodol o ran helpu dysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal i barhau i ymgysylltu â'u dysgu yn ystod cyfnodau o newid
- mae cynllunio ar gyfer pontio a newidiadau yn dechrau'n gynnar ac yn adlewyrchu amgylchiadau ac anghenion unigol dysgwyr
- caiff gwybodaeth ei rhannu'n brydlon ac yn briodol i gefnogi parhad a lleihau'r angen i ddysgwyr ailadrodd gwybodaeth bersonol
- mae trefniadau'n lleihau aflonyddwch i ddysgu, ymgysylltiad a chymorth pan fydd amgylchiadau'n newid
- mae dysgwyr yn parhau i fod yn hysbys, yn cael eu deall ac yn cael eu cefnogi wrth iddynt symud rhwng darparwyr neu fanteisio ar ddarpariaeth amgen
- mae awdurdodau lleol a darparwyr yn cynllunio'n rhagweithiol i ddiogelu parhad addysg cyfrwng Cymraeg a'r gallu i fanteisio ar gymorth trwy gyfrwng y Gymraeg pan mai dyma lwybr iaith presennol neu ddewisol y dysgwr
- mae darparwyr yn gweithio ar y cyd i gynnal parhad dysgu, perthnasoedd a chymorth wrth symud lleoliadau, newid ysgolion, pontio i drefniadau gofal parhaol a chyfnodau eraill o ansefydlogrwydd
- mae arweinwyr yn gwerthuso effaith trefniadau pontio a pharhad ar brofiadau, ymgysylltiad a chynnydd dysgwyr

Cwestiynau i gefnogi hunanwerthuso

- Sut ydym ni'n gwybod bod parhad addysgol yn cael ei gynnal wrth symud lleoliadau, newid ysgolion ac yn ystod cyfnodau eraill o ansefydlogrwydd?
- Pa dystiolaeth sy'n dangos bod cynllunio pontio yn dechrau'n ddigon cynnar ac yn adlewyrchu anghenion unigol dysgwyr?
- Pa mor effeithiol y mae ein trefniadau rhannu gwybodaeth yn lleihau aflonyddwch i ddysgu a chymorth?
- Pa mor dda y mae ysgolion, UC Dau, awdurdodau lleol ac asiantaethau eraill yn cydweithio â'i gilydd i gynnal parhad?
- Sut ydym ni'n gwybod bod dysgwyr yn parhau i fod yn weladwy ac yn parhau i gael cymorth priodol wrth iddynt symud rhwng darparwyr neu fanteisio ar ddarpariaeth amgen?

- Pa mor effeithiol ydym ni'n diogelu parhad addysg cyfrwng Cymraeg dysgwyr a'u gallu i fanteisio ar gymorth trwy gyfrwng y Gymraeg pan fydd eu trefniadau ysgol, lleoliad gofal neu drefniadau cymorth yn newid?
- Sut ydym ni'n gwybod bod ein trefniadau pontio yn gwella ymgysylltiad, cynnydd a phrofiadau addysgol dysgwyr?

Ffynonellau tystiolaeth posibl

- cynlluniau pontio, adolygiadau a chynlluniau cefnogi dysgwyr
- adborth gan ddysgwyr, rhieni/gofalwyr a staff
- gwybodaeth am bresenoldeb a chynnydd cyn ac ar ôl pontio
- cofnodion o symud lleoliadau a newid ysgolion
- cofnodion o rannu gwybodaeth a gwaith amlasiantaeth
- olrhain achosion ac adolygiadau dysgwyr
- gwybodaeth am gyrchfannau a dilyniant
- trefniadau parhad cyfrwng Cymraeg
- dogfennau hunanwerthuso a chynllunio gwelliant

Pennod 5 – Tegwch a chyfle

Dylai dysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal allu manteisio'n deg ar ddysgu, cyfleoedd cyfoethogi a chyfleoedd yn y dyfodol, beth bynnag fo'u hamgylchiadau unigol neu brofiad o fod mewn gofal. Mae darparwyr effeithiol yn cydnabod nad yw tegwch yn cael ei gyflawni trwy drin pob dysgwr yn union yr un ffordd, ond trwy ddeall a dileu rhwystrau a allai atal dysgwyr rhag manteisio ar yr un cyfleoedd a deilliannau â'u cyfoedion. Mae hyn yn cynnwys gallu teg i fanteisio ar addysg cyfrwng Cymraeg a chymorth cyfrwng Cymraeg i ddysgwyr a oedd yn dymuno parhau ar hyd y llwybr iaith hwn.

Mae tystiolaeth ymchwil a pholisi yn awgrymu y gallai rhai grwpiau o ddysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal ddod yn llai gweladwy mewn systemau addysg pan nad ydynt bellach yn cael gofal ffurfiol. Fodd bynnag, mae llawer ohonynt yn parhau i brofi effeithiau adfyd cynharach, perthnasoedd cynnar amharedig a newidiadau mewn gofal neu addysg (Adoption UK, 2024; Lowthian et al., 2025a; Paine, Perra a Shelton, 2025).

Mae'r bennod hon yn ystyried sut roedd ysgolion, UC Dau ac awdurdodau lleol yn hybu cynhwysiant ac yn dileu rhwystrau rhag cyfranogiad. Mae'n archwilio sut y gwnaethant gynnal disgwyliadau uchelgeisiol, sicrhau gallu teg i fanteisio ar ddysgu, cyfleoedd cyfoethogi, cymwysterau a datblygiad personol a chefnogi dilyniant i addysg bellach, hyfforddiant a chyflogaeth.

5.1 Gwelededd a nodi

Daeth sicrhau bod dysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn parhau i fod yn weladwy yn y system addysg i'r amlwg yn un o'r themâu pwysicaf yn yr adolygiad. Yn gyffredinol, roedd ysgolion, UC Dau ac awdurdodau lleol mewn sefyllfa dda i gefnogi dysgwyr yr oedd eu hamgylchiadau'n hysbys iddynt. Lle'r oedd y profiad o fod mewn gofal yn cael ei ddeall, roedd arweinwyr yn gallu nodi rhwystrau, monitro cyfranogiad a deilliannau a chynnig cymorth priodol yn well.

Nid yw'r adolygiad hwn yn dadlau o blaid nodi pob dysgwr sydd â phrofiad o fod mewn gofal fel mater o drefn na'i wneud yn orfodol. Yn hytrach, mae'n tynnu sylw at bwysigrwydd creu amgylcheddau lle mae dysgwyr a theuluoedd yn teimlo eu bod yn gallu rhannu gwybodaeth yn wirfoddol pan fydd hyn yn helpu ysgolion i ddeall eu hamgylchiadau a darparu cymorth priodol. Pan gaiff gwybodaeth ei rhannu, dylai cael ei thrin mewn modd sensitif, cyfrinachol ac at ddibenion gwella profiadau a deilliannau addysgol dysgwyr yn unig.

Roedd gwelededd ar ei gryfaf i blant sy'n derbyn gofal. Roedd prosesau statudol, trefniadau monitro a gofynion adrodd sefydledig yn helpu ysgolion, UC Dau ac

awdurdodau lleol i gynnal trosolwg ar bresenoldeb, lles, cyfranogiad a chynnydd addysgol dysgwyr. O ganlyniad, roedd darparwyr yn aml yn gallu nodi patrymau, ymateb i bryderon a gwerthuso deilliannau ar gyfer y grŵp hwn.

Roedd profiadau'n llai cyson ar gyfer grwpiau eraill o ddysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal, gan gynnwys y rhai a oedd wedi'u mabwysiadu, yn byw dan drefniadau gofal gan berthynas, yn destun gorchmynion gwarcheidiaeth arbennig neu wedi derbyn gofal yn flaenorol. Er bod llawer o ddarparwyr yn cydnabod y gallai'r dysgwyr hyn brofi heriau sy'n gysylltiedig ag adfyd cynnar, perthnasoedd amharedig, colled, newid teuluol ac anawsterau wrth feithrin perthnasoedd dibynadwy, nid oeddent yn cael eu nodi na'u cynnwys mewn trefniadau monitro presennol, fel mater o drefn. O ganlyniad, yn aml roedd gan arweinwyr lai o wybodaeth am eu profiadau, eu hymgysylltiad a'u deilliannau addysgol.

Roedd her allweddol yn ymwneud â phreifatrwydd a datgelu. Wrth reswm, roedd llawer o ddarparwyr yn ochelgar ynghylch gofyn i deuluoedd ddatgelu statws mabwysiadu neu amgylchiadau personol eraill. Mae gan deuluoedd a dysgwyr hawl i breifatrwydd ac efallai nad ydynt yn dymuno rhannu gwybodaeth am eu profiadau. Ar yr un pryd, roedd tystiolaeth gan ddysgwyr a rhanddeiliaid yn awgrymu y gallai ddiffyg gweledd gyfyngu ar gyfleoedd i ysgolion ddeall profiadau dysgwyr ac ymateb yn effeithiol pan fydd anawsterau'n codi.

Yn aml, roedd dysgwyr a rhanddeiliaid yn tynnu sylw at bwysigrwydd bod â rheolaeth dros bwy oedd yn gwybod am eu hamgylchiadau a sut roedd gwybodaeth yn cael ei rhannu. Nid oedd llawer ohonynt am i'w profiad o ofal eu diffinio, ond roeddent yn gwerthfawrogi cael oedolion allweddol a oedd yn deall eu cefndir ac yn gallu ymateb yn sensitif, yn ôl yr angen. Er enghraifft, dywedodd dysgwyr sydd wedi'u mabwysiadu a gyfrannodd ar yr adolygiad:

'Dylai athrawon wybod fy mod wedi cael fy mabwysiadu.'

'Dwi eisiau i'r ysgol wybod fy mod wedi cael fy mabwysiadu.'

Roedd y safbwyntiau hyn yn adlewyrchu canfyddiad ehangach bod dysgwyr yn aml eisiau dealltwriaeth yn hytrach na chyfrinachedd, ochr yn ochr â hyder y byddai gwybodaeth bersonol yn cael ei thrin yn sensitif ac yn gyfrinachol.

Lle'r oedd arfer ar ei chryfaf, roedd staff ac arweinwyr yn creu cyfleoedd diogel a gwirfoddol i ddysgwyr a theuluoedd rannu gwybodaeth a allai gefnogi addysg. Roeddent yn creu diwylliant cadarnhaol lle'r oedd dysgwyr a theuluoedd yn teimlo'n ddiogel i ddatgelu'r profiad o ofal, gan hyderu y byddai gwybodaeth yn cael ei thrin yn sensitif a'i defnyddio i gynnig cymorth priodol heb greu stigma. Roedd arweinwyr yn cydnabod nad oedd nodi yn ymwneud â labelu dysgwyr na gostwng disgwyliadau. Yn hytrach, roedd yn

galluogi darparwyr i ddeall amgylchiadau unigol, nodi rhwystrau posibl a sicrhau y gellid manteisio ar gymorth yn ôl yr angen. Ystyriwyd gwybodaeth am brofiad o ofal ochr yn ochr â ffactorau eraill fel ADY, presenoldeb, lles emosiynol, iaith ac amgylchiadau teuluol i feithrin dealltwriaeth lawnach o brofiadau dysgwyr.

Tynnodd yr adolygiad sylw at y ffaith nad yw gwelededd yn fater gweinyddol yn unig. Mae'n cysylltu'n agos â thegwch a chyfle addysgol. Mae dysgwyr yn fwy tebygol o fanteisio ar gymorth priodol, cyfranogi'n llawn mewn addysg ac elwa ar ymyrraeth amserol pan fydd eu hamgylchiadau'n cael eu deall. Yn y darparwyr mwyaf effeithiol, roedd gwelededd yn fodd o sicrhau bod dysgwyr yn cael cymorth priodol ac yn parhau i gael eu cynnwys mewn addysg.

5.2 Tegwch, perthyn a chynhwysiant

Nododd yr adolygiad wahaniaeth pwysig rhwng cydraddoldeb a thegwch. Yn briodol, roedd llawer o arweinwyr ac ymarferwyr am i ddysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal gael eu trin yn yr un ffordd â'u cyfoedion. Roedd hyn yn adlewyrchu bwriadau cadarnhaol ac awydd i osgoi stigma neu ynysu dysgwyr. Fodd bynnag, nid oedd trin dysgwyr yn yr un ffordd bob amser yn arwain at brofiadau neu ddeilliannau teg.

Roedd y darparwyr cryfaf yn cydnabod nad oedd tegwch yn golygu trin dysgwyr yn yr un ffordd bob tro. Yn hytrach, roeddent yn ceisio deall a dileu rhwystrau a allai gyfyngu ar gyfranogiad, dysgu neu les. Roedd y rhwystrau hyn yn amrywio'n sylweddol a gallent ymwneud ag ansefydlogrwydd, lles emosiynol, tlodi, amgylchiadau teuluol, presenoldeb, hyder neu brofiadau addysgol blaenorol. Roedd darparwyr yn fwyaf effeithiol pan roedd cymorth wedi'i deilwra i anghenion wrth gynnal disgwyliadau uchel ar gyfer cyfranogiad, cyflawniad a llwyddiant yn y dyfodol.

Canfu'r adolygiad fod ymdeimlad cryf o berthyn yn nodwedd bwysig o arfer deg. Roedd dysgwyr yn fwyaf tebygol o ymgysylltu'n llawn â'u dysgu a bywyd ehangach yr ysgol pan roeddent yn teimlo eu bod yn cael eu derbyn, eu deall a'u cynnwys yng nghymuned yr ysgol neu'r UCD. Roedd perthyn yn cysylltu'n agos â hyder, ymgysylltiad a dyheadau.

Defnyddio cyllid PDG-CLA i gryfhau perthyn a chyfranogiad (Ceredigion)

Roedd gwybodaeth gan yr awdurdod lleol yn tynnu sylw at sut y defnyddiodd arweinwyr yn Ysgol Penglais gyllid PDG-CLA i gefnogi prosiect creadigol a oedd yn archwilio thema perthyn gyda dysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal ac artist lleol.

Myfyrion dysgwyr ar yr hyn yr oedd perthyn yn ei olygu iddynt yn gysylltiedig â theulu, ysgol a'r gymuned ehangach. Llywiodd eu syniadau gyfres o gelfyddydwaith ar raddfa fawr a arddangoswyd ar draws yr ysgol, gan gynnig cyfleoedd ystyrlon i ddysgwyr

archwilio eu hunaniaeth, mynegi eu profiadau a gwneud cyfraniad gwerthfawr at amgylchedd yr ysgol.

Crybwyllodd staff fod y prosiect wedi cryfhau ymdeimlad dysgwyr o berthyn, hyder a chysylltiad â chymuned yr ysgol. Disgrifiodd dysgwyr gymuned Penglais fel “teulu arall”, gan ddangos yr effaith gadarnhaol a gafodd y prosiect o ran eu helpu i deimlo eu bod yn cael eu cynnwys a’u gwerthfawrogi ym mywyd yr ysgol.



Tynnodd dysgwyr a rhanddeiliaid sylw at bwysigrwydd lleihau stigma. Roedd arfer gynhwysol ar ei chryfaf lle gallai dysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal fanteisio ar gymorth heb deimlo eu bod wedi’u diffinio gan eu hamgylchiadau a lle gallent barhau i fod yn aelodau llawn o gymuned ehangach yr ysgol.

Roedd hyn yn arbennig o bwysig i ddysgwyr sydd wedi’u mabwysiadu, dysgwyr sy’n byw dan drefniadau gofal gan berthynas a dysgwyr eraill nad oedd eu profiadau bob amser yn amlwg mewn systemau ffurfiol. Crybwyllodd rhanddeiliaid y gallai anghenion gael eu hanwybyddu ambell waith pan roedd darparwyr yn tybio bod diffyg statws gofal ffurfiol yn golygu diffyg bregusrwydd. Roedd darparwyr cryfach yn canolbwyntio ar ddeall amgylchiadau dysgwyr yn hytrach na dibynnu ar ddiffiniadau cyfreithiol neu feini prawf cymhwysedd yn unig.

Roedd tegwch hefyd yn cael ei adlewyrchu yn y graddau yr oedd darparwyr yn cael gwared ar rwystrau ymarferol rhag cyfranogi. Roedd arweinwyr yn cydnabod na allai dysgwyr elwa'n llawn ar addysg pe byddai rhwystrau ariannol, cymdeithasol neu emosiynol yn eu hatal rhag manteisio ar yr un cyfleoedd â'u cyfoedion. Yn hytrach na thybio bod mynediad cyfartal yn arwain at gyfranogiad teg yn awtomatig, roedd darparwyr cryfach yn ystyried pa gymorth ychwanegol allai fod ei angen i alluogi dysgwyr i gyfranogi'n hyderus ac yn llwyddiannus.

Lleihau rhwystrau rhag cynhwysiant trwy ymgysylltu â'r gymuned a theuluoedd (Ysgol Uwchradd Cwmbrân)

Roedd arweinwyr yn Ysgol Uwchradd Cwmbrân yn cydnabod bod rhwystrau ariannol a chymdeithasol yn cyfyngu ar gyfranogiad rhai dysgwyr ym mywyd ehangach yr ysgol. Er mwyn ymateb i hyn, gwnaethant fabwysiadu dull rhagweithiol o sicrhau y gallai dysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal a grwpiau bregus eraill fanteisio ar yr un cyfleoedd â'u cyfoedion a chyfranogi'n llawn ym mywyd yr ysgol.

Dan arweiniad y swyddog Ymgysylltu â Theuluoedd â'r Gymuned (FACE), nododd yr ysgol rwystrau ymarferol rhag cyfranogiad ac aeth i'r afael â nhw. Roedd hyn yn cynnwys datblygu gweithgareddau ysgol gyfan cynhwysol, fel '*Branfest*', i ddarparu profiadau cyfoethog y gallai pob dysgwr fanteisio arnynt, beth bynnag fo'u hamgylchiadau ariannol. Ochr yn ochr â hyn, darparodd yr ysgol gymorth targedig lle'r oedd dysgwyr unigol yn wynebu rhwystrau ychwanegol rhag cyfranogiad, gan helpu i sicrhau nad oedd unrhyw ddysgwr yn cael eu heithrio o gyfleoedd oherwydd eu hamgylchiadau personol.

Ategodd yr ysgol y gwaith hwn trwy weithgareddau cymorth i deuluoedd, cyfleoedd hyblyg i gynnwys rhieni a chydweithio'n agos ag asiantaethau allanol. Crybwyllodd arweinwyr fod y dulliau hyn wedi cryfhau perthnasoedd â theuluoedd a chynyddu cyfranogiad, gan helpu mwy o ddysgwyr i fanteisio ar gyfleoedd cyfoethogi a datblygu ymdeimlad cryfach o berthyn.

Ar draws yr adolygiad, roedd y darparwyr cryfaf yn deall nad oedd gwelededd ar ei ben ei hun yn ddigonol. Roeddent yn canolbwyntio ar ddeall amgylchiadau unigol a dileu rhwystrau a allai atal dysgwyr rhag cyfranogi, cyflawni a ffynnu ochr yn ochr â'u cyfoedion.

5.3 Cyfranogiad, cyfle a dyhead

Roedd tegwch addysgol yn ymestyn y tu hwnt i bresenoldeb a'u gallu i fanteisio ar gymorth. Roedd dysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn fwyaf tebygol o ffynnu lle gallent gyfranogi'n llawn mewn dysgu, gweithgareddau cyfoethogi a bywyd ehangach yr

ysgol. Roedd y darparwyr oedd fwyaf llwyddiannus yn cydnabod bod profiadau teg yn mynnu mwy na chael gwared ar rwystrau uniongyrchol. Roeddent yn sicrhau y gallai dysgwyr fanteisio ar yr un cyfleoedd i ddatblygu hyder, perthnasoedd, medrau a dyheadau â'u cyfoedion.

Daeth cyfranogiad i'r amlwg yn ddangosydd pwysig o gynhwysiant. Yn aml, roedd dysgwyr yn siarad yn gadarnhaol am gyfleoedd i gymryd rhan mewn ymweliadau addysgol, clybiau, chwaraeon, gweithgareddau creadigol a rolau arwain. Roedd y profiadau hyn yn aml yn helpu dysgwyr i ddatblygu hyder, profi llwyddiant a chryfhau eu hymdeimlad o berthyn. Roedd arweinwyr hefyd yn cydnabod y gallai cyfranogiad ym mywyd ehangach yr ysgol gyfrannu at les, ymgysylltu â dysgu a chyfleoedd yn y dyfodol.

Yn aml, roedd darparwyr yn gweithio i gael gwared ar rwystrau a oedd yn cyfyngu ar gyfranogiad. Roedd hyn yn cynnwys cymorth â chludiant, costau, offer, presenoldeb a hyder, yn ogystal â chymorth ymarferol i fanteisio ar ymweliadau addysgol, gweithgareddau allgyrsiol a chyfleoedd arweinyddiaeth. Canfu arolygwyr fod y darparwyr mwyaf effeithiol yn monitro cyfranogiad yn ofalus ac yn gweithredu lle nad oedd dysgwyr yn cael eu cynrychioli'n ddigonol ym mhrofiadau ehangach yr ysgol.

Roedd dysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn ffurfio cyfran sylweddol o'r boblogaeth yn yr UC Dau yr ymwelwyd â nhw ac roeddent hefyd yn manteisio ar ddarpariaeth fewnol, arbenigol neu ddarpariaeth arall y tu allan i'w dosbarthiadau prif ffrwd arferol mewn lleiafrif o'r ysgolion prif ffrwd yr ymwelwyd â nhw. Er nad archwiliodd yr adolygiad hwn lwybrau atgyfeirio yn ddigon manwl i ganfod y rhesymau dros y patrwm hwn, mae'n tynnu sylw at bwysigrwydd awdurdodau lleol ac ysgolion yn adolygu llwybrau dysgwyr i ddarpariaeth y tu allan i'w dosbarthiadau prif ffrwd arferol, y cymorth sy'n cael ei ddarparu cyn lleoli ac i ba raddau y mae lleoliadau'n gwella ymgysylltiad, dysgu a deilliannau tymor hwy.

Roedd y gallu i fanteisio ar y cwricwlwm yr un mor bwysig. Roedd darparwyr cryfach yn cydnabod y gallai amserlenni llai, darpariaeth amgen a llwybrau personoledig chwarae rôl bwysig wrth gynnal ymgysylltiadau yn ystod cyfnodau anodd. Fodd bynnag, roedd angen adolygu'r dulliau hyn yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod dysgwyr yn parhau i fanteisio ar gwricwlwm eang a chymwysterau priodol, gan gadw cyfleoedd yn y dyfodol ar agor. Mewn lleiafrif o ddarparwyr, roedd y lefel hon o werthuso yn brin. O ganlyniad, roedd trefniadau a fwriadwyd i gefnogi dysgwyr yn y tymor byr weithiau'n peri risg o gyfyngu ar gyfleoedd dros gyfnod.

Roedd tegwch addysgol hefyd yn golygu sicrhau y gallai dysgwyr gyfranogi'n llawn yng ngweithgareddau'r cwricwlwm heb deimlo eu bod yn cael eu heithrio na'u diffinio gan eu hamgylchiadau. Amlygodd tystiolaeth gan ddysgwyr a rhanddeiliaid y gallai gweithgareddau sy'n seiliedig ar ragdybiaethau am strwythurau teuluol traddodiadol, fel

coed teulu, lluniau babanod, nodweddion etifeddol neu hanes teuluol, fod yn anodd i rai dysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal. Roedd y dull hwn yn fwyaf effeithiol lle'r oedd staff yn rhagweld y problemau hyn ac yn addasu gweithgareddau mewn modd sensitif er mwyn i bob dysgwr allu cyfranogi'n ystyrlon. Roedd hyn yn cefnogi cynhwysiant a gallu teg i fanteisio ar ddysgu.

Tynnodd yr adolygiad sylw hefyd at bwysigrwydd cynnal disgwyliadau uchelgeisiol ar gyfer dysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal. Roedd y darparwyr cryfaf yn gwrthod rhagdybiaethau y dylai'r profiad o fod mewn gofal gyfyngu ar gyflawniad addysgol neu gyfleoedd yn y dyfodol. Roeddent yn cyfuno dealltwriaeth a chymorth â disgwyliadau uchel ar gyfer cyfranogiad, dysgu a dilyniant, gan hybu ystod eang o lwybrau yn y dyfodol yn weithredol, gan gynnwys addysg bellach, addysg uwch, prentisiaethau a chyflogaeth.

Roedd dysgwyr yn aml yn tynnu sylw at bwysigrwydd oedolion oedd yn credu ynddynt, yn cydnabod eu cryfderau ac yn eu hannog i ystyried cyfleoedd efallai na fyddent wedi ystyried eu bod yn gyraeddadwy o'r blaen. Myfyriodd un dysgwr:

'Os bydda' i'n gadael heb gymwysterau, bydd hyn yn atgyfnerthu hunan-gred negyddol amdana' i a llwybr fy mywyd.'

Hybu cyfranogiad a chyfle (Ysgol Trecelyn)

Roedd arweinwyr yn Ysgol Trecelyn yn cynnal disgwyliadau uchel ar gyfer cyfranogiad dysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal ym mywyd ehangach yr ysgol. Roeddent yn monitro cyfranogiad mewn teithiau, clybiau, gweithgareddau arwain a digwyddiadau dathlu, gan nodi a mynd i'r afael â rhwystrau ariannol, cymdeithasol neu bersonol a allai atal dysgwyr rhag cymryd rhan. Roedd dysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn cymryd rhan mewn ystod eang o gyfleoedd cyfoethogi, gan gynnwys timau chwaraeon, cynyrchiadau drama, profiadau preswyl ac ymweliadau tramor. Roedd yr ysgol hefyd yn cynnig cymorth ymarferol, yn ôl yr angen, gan gynnwys cymorth â chostau ymweliadau addysgol a digwyddiadau fel 'prom' yr ysgol.

Roedd arweinwyr yn cydnabod bod y profiadau hyn yn cryfhau hyder, perthnasoedd, ymdeimlad o berthyn a dyheadau dysgwyr. Roeddent hefyd yn helpu i sicrhau bod dysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn elwa ar yr un cyfleoedd â'u cyfoedion, gan atgyfnerthu ymrwymiad yr ysgol i gynhwysiant, disgwyliadau uchel a thegwch.

Ar draws yr adolygiad, roedd disgwyliadau uchel ar eu mwyaf grymus pan roeddent yn cael eu hadlewyrchu mewn penderfyniadau a gweithredoedd bob dydd. Roedd y darparwyr cryfaf yn trosi uchelgais yn arfer trwy gynnal disgwyliadau uchel, cael gwared ar rwystrau rhag dysgu a sicrhau bod dysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn gallu manteisio'n

deg ar y cwricwlwm, cymwysterau a chyfleoedd yn y dyfodol. Yn y lleoliadau hyn, roedd staff yn deall bod cefnogi dysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn golygu eu bod mewn sefyllfa well i gyfranogi'n llawn mewn addysg, gwneud cynnydd cryf, cyflawni eu potensial a gwireddu eu dyheadau.

Crynodeb o Bennod 5

Roedd cysylltiad agos rhwng gwelededd, tegwch a chyfle. Roedd darparwyr yn y sefyllfa orau i gefnogi dysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal pan roeddent yn deall amgylchiadau dysgwyr, yn nodi rhwystrau posibl ac yn teilwra cymorth yn briodol.

Roedd gwelededd ar ei gryfaf i blant sy'n derbyn gofal ac yn llai cyson ar gyfer grwpiau ehangach o ddysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal a'r rhai a oedd wedi derbyn gofal yn flaenorol. Roedd hyn yn cyfyngu ar allu darparwyr i ddeall profiadau, nodi rhwystrau a monitro deilliannau. Roedd y darparwyr cryfaf yn creu cyfleoedd diogel a gwirfoddol i ddysgwyr a theuluoedd rannu gwybodaeth a allai gefnogi addysg, gan drin gwybodaeth mewn modd sensitif a pharchus.

Nododd yr adolygiad wahaniaeth pwysig rhwng cydraddoldeb a thegwch. Roedd darparwyr llwyddiannus yn cydnabod nad oedd tegwch bob amser yn golygu trin dysgwyr yn yr un ffordd. Yn hytrach, roeddent yn ceisio deall a dileu rhwystrau a allai gyfyngu ar ymgysylltiad, dysgu a lles.

Roedd tegwch addysgol yn ymestyn y tu hwnt i'r gallu i fanteisio ar gymorth. Roedd y darparwyr cryfaf yn sicrhau y gallai dysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal gyfranogi'n llawn mewn dysgu, gweithgareddau cyfoethogi, cyfleoedd arwain a bywyd ehangach yr ysgol. Roeddent yn monitro cyfranogiad, yn cael gwared ar rwystrau ymarferol ac yn cynnal disgwyliadau uchelgeisiol ar gyfer cyflawniad a chyfleoedd yn y dyfodol.

Roedd disgwyliadau uchel yn fwyaf effeithiol lle cawsant eu trosi'n gamau gweithredu trwy allu teg i fanteisio ar y cwricwlwm, cymwysterau, cyfleoedd cyfoethogi a llwybrau dilyniant.

At ei gilydd, roedd dysgwyr profiadol yn fwyaf tebygol o ffynnu lle'r oeddent yn cael eu hadnabod a'u deall fel unigolion a lle'r oedd darparwyr yn cyfuno perthnasoedd cryf, disgwyliadau uchelgeisiol, gwaith partneriaeth effeithiol a gwerthuso deilliannau addysgol mewn modd systematig.

Pecyn cymorth 5: Gwerthuso tegwch a chyfle

Bwriad y pecyn cymorth hwn yw cefnogi ysgolion, UC Dau ac awdurdodau lleol i fyfrio ar ba mor effeithiol y maent yn nodi, deall ac yn ymateb i anghenion dysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal, gan hybu ymdeimlad o berthyn, cyfranogiad a deilliannau teg.

Nodweddion arfer gryfach

Mewn arfer gryfach:

- mae dysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn hysbys ac yn cael eu deall yn eu hysgol neu'r awdurdod lleol, heb gael eu stigmatiddio na'u diffinio gan eu hamgylchiadau
- mae ysgolion, UC Dau ac awdurdodau lleol yn creu cyfleoedd diogel i ddysgwyr a theuluoedd rannu gwybodaeth yn wirfoddol ac yn defnyddio'r wybodaeth hon mewn modd sensitif i lywio cymorth a chynllunio
- mae staff yn deall y gwahaniaeth rhwng cydraddoldeb a thegwch ac yn cydnabod y gallai fod angen cymorth gwahanol ar ddysgwyr i fanteisio ar yr un cyfleoedd a deilliannau â'u cyfoedion
- mae dysgwyr yn profi ymdeimlad cryf o berthyn ac yn cael eu cynnwys yn llawn mewn dysgu ac ym mywyd ehangach yr ysgol
- caiff cymorth ei deilwra i gryfderau, anghenion ac amgylchiadau unigol dysgwyr ac mae'n ystyried ffactorau sy'n effeithio ar ddysgu ac ymgysylltiad
- mae arweinwyr yn nodi ac yn dileu rhwystrau ymarferol, ariannol a chymdeithasol rhag cyfranogiad
- gall dysgwyr fanteisio'n deg ar ddysgu, gweithgareddau cyfoethogi, gwasanaethau cymorth a'r camau nesaf mewn dysgu, hyfforddiant neu gyflogaeth
- mae arweinwyr a staff yn cynnal disgwyliadau uchelgeisiol ac yn monitro a yw darpariaeth yn lleihau rhwystrau ac yn gwella deilliannau

Cwestiynau i gefnogi hunanwerthuso

- Sut ydym ni'n gwybod bod pob grŵp o ddysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn cael eu nodi a'u deall o fewn ein systemau?
- Ble gallai dysgwyr sydd wedi'u mabwysiadu neu ddysgwyr sydd dan drefniadau gofal gan berthynas neu orchymyn gwarcheidiaeth arbennig fod yn llai gweladwy
- Pa mor effeithiol ydym ni'n creu diwylliant lle mae dysgwyr a theuluoedd yn teimlo'n ddiogel i rannu gwybodaeth am y profiad o fod mewn gofal, gan hyderu y bydd eu dymuniadau ynghylch cyfrinachedd yn cael eu parchu ac y caiff y wybodaeth ei thrin mewn modd sensitif i ddarparu cymorth priodol?
- Sut ydym ni'n gwybod bod y cwricwlwm yn gynhwysol i ddysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal ac nad yw gweithgareddau, cynnwys a dulliau addysgu yn eu heithrio, yn eu stigmatiddio neu'n eu rhoi dan anfantais yn anfwriadol?

- Pa dystiolaeth sy'n dangos bod dysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn teimlo eu bod yn perthyn ac y gallant gyfranogi'n llawn ym mywyd yr ysgol?
- Sut ydym ni'n gwybod bod rhwystrau rhag dysgu, cyfranogiad a chyflawniad yn cael eu nodi a'u dileu?
- Pa dystiolaeth sy'n dweud wrthym y gall dysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal fanteisio'n deg ar ddysgu, gweithgareddau cyfoethogi a chyfleoedd dilyniant?
- Sut ydym ni'n gwybod bod ein disgygliadau yr un mor uchelgeisiol ar gyfer dysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal ag y maent ar gyfer dysgwyr eraill?
- Pa dystiolaeth sy'n dangos bod ein darpariaeth yn gwella deilliannau ac yn lleihau anghydraddoldebau dros amser?

Ffynonellau dystiolaeth posibl

- adborth gan ddysgwyr, gofawyr a staff
- gwybodaeth am bresenoldeb, ymgysylltiad, cynnydd a deilliannau
- y gallu i fanteisio ar y cwricwlwm, llwybrau cymwysterau a chyfranogiad mewn gweithgareddau cyfoethogi ac ym mywyd ehangach yr ysgol
- data cyrchfannau a chynnydd
- cofnodion yn ymwneud â nodi a monitro dysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal
- cyfranogiad mewn ymweliadau addysgol, gweithgareddau cyfoethogi, cyfleoedd arwain i ddysgwyr a phrofiadau ehangach yr ysgol
- gwybodaeth am ADY, presenoldeb a lles
- gwybodaeth am barhad a phontio cyfrwng Cymraeg
- dogfennau hunanwerthuso a chynllunio gwelliant
- adroddiadau rhianta corfforaethol ac adroddiadau monitro'r awdurdod lleol
- adolygiadau cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant
- olrhain achosion ac adolygiadau cefnogi dysgwyr

Atodiad 1: Cwestiynau myfyriol i lywodraethwyr

Addaswyd o ddeunyddiau hyfforddiant i lywodraethwyr a ddatblygwyd gan Ysgol Rithwir Caerdydd

Bwriad y cwestiynau hyn yw helpu llywodraethwyr i werthuso pa mor effeithiol y mae eu hysgol yn hybu addysg, lles a dyheadau dysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal ac yn cyflawni ei chyfrifoldebau rhianta corfforaethol.

Gwelededd a goruchwyliaeth strategol

- Faint o ddysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal sy'n mynychu'r ysgol, gan gynnwys y rhai nad ydynt efallai'n derbyn gofal ffurfiol, mwyach?
- Sut mae'r corff llywodraethol yn sicrhau ei hun bod yr ysgol yn creu amgylchedd diogel a pharchus lle mae dysgwyr, teuluoedd a gofalwyr yn teimlo eu bod yn gallu rhannu gwybodaeth am y profiad o fod mewn gofal yn wirfoddol?
- Sut mae'r corff llywodraethol yn sicrhau ei hun bod dysgwyr y mae eu hamgylchiadau'n hysbys yn cael eu deall a'u hystyried yn briodol mewn gweithgarwch gwella ysgol a hunanwerthuso?
- A oes athro dynodedig a llywodraethwr cyswllt ar gyfer dysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal?
- Sut mae'r corff llywodraethol yn monitro profiadau, lles, presenoldeb, cynnydd a deilliannau pob dysgwr sydd â phrofiad o fod mewn gofal?

Perthyn, perthnasoedd a chyfranogiad

- Sut mae arweinwyr yn gwybod a yw dysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn teimlo'n ddiogel, yn cael eu cynnwys a'u bod yn perthyn i gymuned yr ysgol?
- Pa gyfleoedd y mae dysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn eu cael i gyfrannu eu barn a dylanwadu ar benderfyniadau?
- Sut mae arweinwyr yn monitro cyfranogiad mewn gweithgareddau cyfoethogi, teithiau, cyfleoedd arwain a bywyd ehangach yr ysgol?
- Sut mae'r ysgol yn dathlu ac yn cydnabod cyflawniadau a llwyddiannau dysgwyr?

Dealltwriaeth a chymorth staff

- Pa ddysgu proffesiynol y mae staff wedi ymgymryd ag ef yn ymwneud â'r profiad o fod mewn gofal, ymlyniad ac arfer sy'n ystyriol o drawma?
- Sut mae arweinwyr yn gwybod bod y dysgu hwn yn dylanwadu ar arfer o ddydd i ddydd?

- Pa mor effeithiol y mae Cynlluniau Addysg Personol (CAPau) yn cael eu defnyddio i gefnogi dysgu, cyfranogiad a dyheadau?
- Pa mor effeithiol y caiff ADY a'r profiad o fod mewn gofal eu hystyried gyda'i gilydd wrth gynllunio cymorth?

Uchelgais, disgwyliadau a deilliannau

- Pa mor dda y mae dysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn gwneud cynnydd o'u mannau cychwyn?
- Sut mae arweinwyr yn monitro cynnydd addysgol ochr yn ochr â phresenoldeb a lles?
- Sut mae llywodraethwyr yn gwybod bod disgwyliadau ar gyfer dysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn ddigon uchelgeisiol?
- Pa dystiolaeth sydd bod dysgwyr yn cyflawni eu potensial ac yn symud yn llwyddiannus i addysg bellach, hyfforddiant neu gyflogaeth?

Pontio a pharhad

- Sut mae'r ysgol yn cefnogi dysgwyr sy'n ymuno yng nghanol y flwyddyn neu'n symud rhwng cyfnodau?
- Sut caiff parhad ei gynnal wrth newid lleoliadau neu yn ystod newidiadau i gymorth proffesiynol?
- Pa mor effeithiol y mae'r ysgol yn cefnogi dilyniant i addysg bellach, cyflogaeth neu hyfforddiant?

Myfyrion ar eich rôl rhianta corfforaethol

- Sut mae'r ysgol yn cyfrannu at ei rôl fel rhan o'r teulu corfforaethol?
- A fyddem yn fodlon pe byddai'r cymorth hwn yn cael ei ddarparu i'n plant ein hunain?
- Beth yw cryfderau'r ysgol o ran cefnogi dysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal?
- Beth sy'n parhau i fod yn flaenoriaeth ar gyfer gwella?

Atodiad 2: Llais y Dysgwr – “My School”

My School.

Where to start?

Well, if I had to use one word to describe it, I would use - 'Home'.

Am I crazy?

yes.

Am I delusional?

yes.

Am I right?

Obviously.

My school gave me stability,

Something my life has always lacked.

My school gave me friends,

Something that was taken from me before this school.

My school gave me a chance,

A genuine chance,

No strings attached.

A chance to:

Live,

Learn,

Explore,

Grow,

Evolve.

Live as myself, without the fear that used to follow me.

Learn about the world and the possibilities I could reach.

Explore my identity, my talents, to better work towards success.

Grow past my history, expand my worldview and mature.

Evolve to who I want to be, what I want to be - Happy.

Thanks to this community, I am able to be the person I needed six years ago.

I know my rights.

I know my limits.

I know the path I need to take.

*I wouldn't know that without this school,
I wouldn't know that without these people,
This family.*

*These people taught me to dream.
I don't know where I'd be without that.*

*They taught me humour, to laugh, to relax.
They taught me care, that not every feeling requires words to be heard.
They taught me simplicity, not every story needs a thousand words to make sense.
They taught me vocalization; nobody can read minds - talk.
They taught me recognition; sometimes there's a storm underneath the calm facade.*

*These people taught me, these people guided me and these people supported me when
nobody else would. That is what being a teacher is about. Not just teaching, but building a
relationship, getting to know your pupil and guiding them. These teachers have performed
this feat effortlessly. These teachers are legends. I will never forget what these people have
done for me.*

What my school has done for me.

Everyone has a different experience in school. That was mine.


Cyn-ddisgybl Ysgol Nantgarw

Atodiad 3: Ymatebion o'r Arolwg o Wasanaethau Addysg Llywodraeth Leol


Mae'r atodiad hwn yn darparu crynodeb o'r ymatebion i'r arolwg o drefniadau awdurdodau lleol ar gyfer hybu addysg dysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal. Ymatebodd dau ar bymtheg o'r ddau ar hugain o awdurdodau lleol.

Mae'r crynodeb yn canolbwyntio'n bennaf ar ymatebion i gwestiynau caeedig neu strwythuredig yr arolwg, lle gellir cyflwyno patrymau ar draws awdurdodau yn glir. Mae'n defnyddio ymatebion testun agored lle'r oedd y rhain yn helpu i esbonio neu ddarparu cyd-destun i'r prif ganfyddiadau, ond nid yw'n ceisio atgynhyrchu'r ystod lawn o sylwadau ansoddol nac yn rhoi cyfrif manwl o drefniadau unigol pob awdurdod.

Ffigurau 1 a 2. Ymatebion i "A oes gan yr awdurdod swyddogaeth arweiniol ddynodedig ar gyfer addysg dysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal?" ac "Os oes, nodwch bwy sydd â'r rôl hon":




Yn seiliedig ar 17 o ymatebion.




Yn seiliedig ar 17 o ymatebion.

Ffigur 3. Ymatebion i “Pa wasanaeth yn yr awdurdod lleol sydd â chyfrifoldeb strategol cyffredinol dros ddysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal?”:




Yn seiliedig ar 17 o ymatebion.

Ffigur 4. Ymatebion i “A oes gan yr awdurdod strategaeth neu fframwaith ysgrifenedig ar gyfer dysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal (rhwng 3 ac 16 oed)?”:




Yn seiliedig ar 17 o ymatebion.

Ffigur 5. Ymatebion i “A yw’r awdurdod yn cadw goruchwyliaeth weithredol o fewn systemau addysg ar ddysgwyr y tu hwnt i’r rhai sy’n derbyn gofal ar hyn o bryd (e.e. y rhai sydd wedi’u mabwysiadu, sydd dan warcheidiaeth arbennig, gofal gan berthynas, wedi dychwelyd adref)?”:




Yn seiliedig ar 17 o ymatebion.

Ffigur 6. Ymatebion i “Pa grwpiau eraill o ddysgwyr sydd wedi’u cynnwys yn nhrefniadaeth goruchwyllo neu fonitro addysg yr awdurdod lleol ar gyfer dysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal? (Dewiswch bob un sy’n berthnasol)”




Yn seiliedig ar 15 o ymatebion, ni atebodd 2 ymatebydd.

Ffigur 7. Ymatebion i “Pa wybodaeth ganlynol am ddysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal sy’n cael ei holrhain neu ei monitro’n ganolog yn rheolaidd gan yr awdurdod lleol? (Dewiswch bob un sy’n berthnasol)”




Yn seiliedig ar 17 o ymatebion.

Ffigur 8. Ymatebion i “A yw’r awdurdod yn dadansoddi tueddiadau neu batrymau dros amser mewn deilliannau i ddysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal (er enghraifft presenoldeb, cynnydd, cyrhaeddiad neu waharddiadau) i lywio cynllunio a gwella (e.e. yn ôl math o leoliad, statws ADY neu sefydlogrwydd)?”




Yn seiliedig ar 17 o ymatebion.


Ffigur 9. Ymatebion i “Pa mor aml y mae’r awdurdod lleol yn adrodd i aelodau etholedig ar ddeilliannau addysgol dysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal?”



Ffigur 10. Ymatebion i “Pa ddeilliannau ar gyfer dysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal sy’n cael eu cynnwys mewn adroddiadau i aelodau etholedig, fel arfer?”




Ffigur 11. Ymatebion i “A yw adroddiadau ar ddeilliannau addysgol dysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn cael eu rhannu’n gyhoeddus (er enghraifft trwy bwyllgorau craffu neu adroddiadau cyhoeddus)?”




Yn seiliedig ar 17 o ymatebion.

Ffigur 12. Ymatebion i “A yw parhad addysg cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog yn cael ei fonitro pan fydd dysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn newid lleoliad neu’n symud ysgol?”




Yn seiliedig ar 17 o ymatebion.

Ffigur 13. Ymatebion i “Ar lefel yr awdurdod lleol, pwy sydd â’r prif gyfrifoldeb am sicrhau ansawdd Cynlluniau Addysg Personol (CAPau)?”




Yn seiliedig ar 17 o ymatebion.

Ffigur 14. Ymatebion i “A yw’r awdurdod yn cynnal archwiliadau neu adolygiadau sicrhau ansawdd o Gynlluniau Addysg Personol (CAPau) ar lefel yr awdurdod (er enghraifft adolygu eu ffocws ar gynnydd, lles neu gynllunio ar gyfer pontio)?”




Yn seiliedig ar 17 o ymatebion.

Ffigur 15. Ymatebion i “Pa mor aml y caiff CAPau eu harchwilio neu eu hadolygu ar lefel yr awdurdod?”




Yn seiliedig ar 10 o ymatebion, ni atebodd 7 ymatebydd.

Ffigur 16. Ymatebion i “Er 2022, a yw'r awdurdod wedi comisiynu neu hybu hyfforddiant sy'n ystyriol o drawma neu hyfforddiant sy'n ymwybodol o ymlyniad ar gyfer ysgolion?”




Yn seiliedig ar 17 o ymatebion.

Ffigur 17. Ymatebion i “A yw’r awdurdod yn cadw cofnodion o ba ysgolion neu UC Dau sydd wedi manteisio ar hyfforddiant sy’n ystyriol o drawma neu hyfforddiant sy’n ymwybodol o ymlyniad?”




Yn seiliedig ar 17 o ymatebion.

Ffigur 18. Ymatebion i “Sut mae’r awdurdod yn gwerthuso gweithrediad neu effaith yr hyfforddiant hwn? (Dewiswch bob un sy’n berthnasol)”




Yn seiliedig ar 17 o ymatebion.

Ffigur 19. Ymatebion i “A oes gan yr awdurdod brotocol ffurfiol i leihau symudiadau ysgol diangen i ddysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal?”




Yn seiliedig ar 17 o ymatebion.

Ffigur 20. Ymatebion i “Pan fydd newidiadau i leoliadau’n cael eu hystyried a allai effeithio ar addysg, sut caiff y tîm addysg ei gynnwys mewn cynllunio ar gyfer parhad addysgol?”




Yn seiliedig ar 17 o ymatebion.

Ffigur 21. Ymatebion i “Pan fydd newidiadau i leoliadau’n cael eu hystyried a allai effeithio ar addysg, sut caiff y tîm addysg ei gynnwys mewn cynllunio ar gyfer parhad addysgol?”




Yn seiliedig ar 17 o ymatebion.

Ffigur 22. Ymatebion i “A yw’r awdurdod yn casglu adborth gan rieni, gofalwyr neu warcheidwaid dysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal am eu profiadau o addysg? (Er enghraifft trwy arolygon, ymgynghori neu ymgysylltiad strwythuredig arall)”




Yn seiliedig ar 17 o ymatebion.

Ffigur 23. Ymatebion i “Sut caiff yr adborth hwn ei ddefnyddio, fel arfer? (Dewiswch bob un sy’n berthnasol)”



Yn seiliedig ar 9 o ymatebion, ni atebodd 9 ymatebydd.

Ffigur 24. Ymatebion i “A yw’r awdurdod yn monitro gallu dysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal i fanteisio ar weithgareddau cyfoethogi, profiadau ehangach neu lwybrau’r cwricwlwm?”



Yn seiliedig ar 17 o ymatebion.

Dulliau a sail y dystiolaeth

Defnyddiodd yr adolygiad hwn ddulliau cymysg, gan gyfuno arolwg meintiol, gwaith maes ansoddol, dadansoddiad dogfennol ac ymgysylltu'n uniongyrchol â rhanddeiliaid a dysgwyr. Llywiwyd yr adolygiad gan set gyffredin o gwestiynau ymchwil a thrywyddau ymholi a oedd yn archwilio arweinyddiaeth, cymorth, sefydlogrwydd addysgol, cyfranogiad, cynhwysiant a deilliannau i ddysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal. Trionglwyd tystiolaeth o ffynonellau gwahanol i lunio canfyddiadau cadarn, wedi'u llywio gan dystiolaeth ar ba mor effeithiol y mae gwasanaethau addysg, ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion (UCDau) yn cefnogi dysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal ledled Cymru.

Ymgysylltu ag awdurdodau lleol

Anfonom arolwg at bob un o'r 22 o wasanaethau addysg awdurdod lleol yng Nghymru i gasglu gwybodaeth am drefniadau presennol ar gyfer cefnogi dysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal. Roedd yr arolwg yn ymdrin ag arweinyddiaeth a llywodraethu, trefniadau monitro, Cynlluniau Addysg Personol (CAPau), arfer sy'n ystyriol o drawma, pontio a chymorth i ddysgwyr. Cawsom ymatebion gan 17 awdurdod lleol, sef cyfradd ymateb o tua 77%. Mae crynodeb o'r ymatebion wedi'i gynnwys yn Atodiad 3.

Er mwyn archwilio'r materion hyn yn fanylach, cynhaliom drafodaethau wyneb-yn-wyneb â thri awdurdod lleol a ddewiswyd i adlewyrchu ystod o gyd-destunau ledled Cymru. Roedd y trafodaethau'n canolbwyntio ar arweinyddiaeth strategol, llywodraethu, gweithio mewn partneriaeth, dysgu proffesiynol, trefniadau monitro a heriau ymarferol yn ymwneud â chymorth i ddysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal.

Adolygom hefyd ystod o ddogfennau awdurdodau lleol, gan gynnwys strategaethau rhianta corfforaethol, strategaethau ar gyfer dysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal, adroddiadau monitro, canllawiau CAPau, tystiolaeth hunanwerthuso a gwybodaeth gyhoeddedig yn ymwneud â deilliannau a chymorth addysgol.

Ymweliadau ag ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion

Ymwelom â 19 o ddarparwyr addysg ledled Cymru, gan gynnwys ysgolion cynradd, uwchradd, pob oed ac arbennig, ac UCDau. Galluogodd yr ymweliadau i ni werthuso pa mor effeithiol y mae darparwyr yn cefnogi ymgysylltiad, lles, parhad addysgol a chynnydd dysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal.

Dewiswyd darparwyr yn fwriadus i adlewyrchu ystod o fathau o ddarparwyr, cyd-destunau ieithyddol, lleoliadau daearyddol ac amgylchiadau economaidd-gymdeithasol. Roedd y

sampl yn cynnwys darparwyr cyfrwng Cymraeg, cyfrwng Saesneg a dwyieithog o gymunedau trefol, gwledig ac yn y cymoedd ledled Cymru.

Yn ystod ymweliadau, cyfarfuom ag arweinwyr, athrawon, staff cymorth, CADYau, athrawon dynodedig, swyddogion awdurdodau lleol a dysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal. Cynhaliom deithiau dysgu hefyd ac adolygu dogfennau a thystiolaeth yn ymwneud â phresenoldeb, ymddygiad, cynnydd, pontio, llwybrau'r cwricwlwm a dysgu proffesiynol.

Ymgysylltu â dysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal a rhanddeiliaid

Ymgysylltom â dysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal trwy grwpiau cyfranogiad, gweithgareddau ymgysylltu awdurdodau lleol a sefydliadau'r trydydd sector y tu allan i'r ysgol. Rhoddodd y trafodaethau hyn fewnwelediad gwerthfawr i brofiadau dysgwyr o berthnasodd, perthyn, pontio a chymorth addysgol, gan gynnwys profiadau dysgwyr a allai fod yn llai gweladwy mewn systemau ysgolion, fel dysgwyr sydd wedi'u mabwysiadu a'r rhai sy'n byw dan drefniadau gofal gan berthynas neu sy'n destun gorchmynion gwarcheidiaeth arbennig.

Roedd cyfranogiad yn y gweithgareddau hyn yn wirfoddol ac roedd llawer o ddysgwyr eisoes yn ymgysylltu â gwaith cyfranogi neu'n hyderus o ran rhannu eu barn. O ganlyniad, efallai na fydd eu profiadau'n adlewyrchu rhai'r holl ddysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn llawn, yn enwedig y rhai sy'n ymgysylltu llai â gwasanaethau neu'n llai cyfforddus yn cyfrannu mewn lleoliadau grŵp.

Ystyriom hefyd dystiolaeth ysgrifenedig a gyflwynwyd gan awdurdodau lleol, sefydliadau'r trydydd sector a grwpiau cyfranogiad dysgwyr. Yn gyson â chwmpas yr adolygiad, ystyriodd y broses casglu dystiolaeth brofiadau'r grŵp ehangach o ddysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal, gan gynnwys dysgwyr sydd wedi'u mabwysiadu, dysgwyr sy'n byw dan drefniadau gofal gan berthynas, y rhai sy'n destun gorchmynion gwarcheidiaeth arbennig a dysgwyr a oedd yn derbyn gofal yn flaenorol.

Sail dystiolaeth ehangach

Defnyddiodd yr adolygiad dystiolaeth o dystiolaeth arolygu, gan gynnwys canfyddiadau arolygu yn ymwneud â dysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal, plant sy'n derbyn gofal, dysgwyr sydd wedi'u mabwysiadu ac arfer sy'n ystyriol o drawma. Ystyriom hefyd bolisi a chanllawiau Llywodraeth Cymru, data cenedlaethol a gyhoeddwyd gan StatsCymru a Llywodraeth Cymru ac ystod o ymchwil gyhoeddedig a thystiolaeth gan randdeiliaid.

Roedd hyn yn cynnwys adroddiad thematig cynharach Estyn, *Codi cyrhaeddiad, cyflawniad a dyheadau plant sy'n derbyn gofal* (Estyn, 2016), ymchwil a gwerthusiadau Llywodraeth Cymru ac astudiaethau academiaidd diweddar yn ymwneud â deilliannau cenedlaethol,

sefydlogrwydd lleoliadau, lles, perthyn, arfer sy’n ystyriol o drawma a’r profiad o fod mewn gofal. Ystyriom hefyd ganfyddiadau o waith thematig diweddar Estyn lle’r oedd yn berthnasol i brofiadau addysgol dysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal, gan gynnwys *Mwy na dewis olaf: Trefniadau ar gyfer gwasanaethau tiwtora AHY yng Nghymru, a’u hansawdd* (Estyn, 2026).

Dadansoddi a thriongli

Adolygwyd tystiolaeth o arolygon, ymweliadau â darparwyr, gweithgareddau ymgysylltu â dysgwyr, trafodaethau â rhanddeiliaid a dadansoddi dogfennau yn erbyn trywyddau ymholi’r adolygiad a’r themâu a ddaeth i’r amlwg. Profwyd canfyddiadau o bob agwedd ar yr adolygiad i’w triongli ar draws y ffynonellau tystiolaeth, mathau o ddarparwyr a’r grwpiau rhanddeiliaid gwahanol i nodi meysydd lle’r oedd cysondeb a gwahaniaethau.

Ystyriwyd bod themâu’n gadarn lle’r oeddent yn cael eu hategu gan nifer o ffynonellau tystiolaeth ar draws ysgolion, UC Dau, awdurdodau lleol, rhanddeiliaid a dysgwyr. Cymerwyd gofal arbennig wrth ddehongli tystiolaeth o grwpiau cyfranogiad dysgwyr gwirfoddol, gan gydnabod efallai nad oedd y safbwyntiau hyn yn cynrychioli pob dysgwr sydd â phrofiad o fod mewn gofal.

Cwmpas a chyfyngiadau

Canolbwyntiodd yr adolygiad yn bennaf ar effeithiolrwydd gwasanaethau addysg wrth gefnogi dysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal o oedran ysgol gorfodol mewn ysgolion a gynhelir ac UC Dau yng Nghymru, gan ystyried hefyd ddilyniant i addysg ôl-16, hyfforddiant a chyflogaeth, lle bo hynny’n berthnasol. Ni werthusodd ddarpariaeth gofal cymdeithasol yn uniongyrchol, ac eithrio lle’r oedd hyn yn rhyngwynebu ag addysg ac yn dylanwadu ar brofiadau, ymgysylltiad neu ddeilliannau dysgwyr. Rhoddodd cyfranogiadau dysgwyr fewnwelediad ansoddol gwerthfawr, er bod y nifer gyfyngedig a gymerodd ran yn golygu na ddylid trin y canfyddiadau yn rhai cynrychioliadol.

Hoffai Estyn ddiolch i’r canlynol am gymryd rhan yn yr arolygiad thematig hwn:

Darparwr	Awdurdod Lleol
Canolfan Bro Tywi	Sir Gâr
GALIL Caerdydd	Caerdydd
Canolfan Addysgu a Dysgu Sir Gâr	Sir Gâr
GALIL Ceredigion	Ceredigion
Ysgol Uwchradd Cei Connah	Sir y Fflint
Ysgol y Groes	Powys
Ysgol Uwchradd Cwmbrân	Torfaen
GALIL Sir Ddinbych	Sir Ddinbych
Ferndale	Rhondda Cynon Taf

Ysgol Trecelyn	Caerffili
Ysgol Gyfun Pencoed	Pen-y-bont ar Ogwr
Ysgol Gynradd Pencoed	Pen-y-bont ar Ogwr
Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Rhaeadr Gwy	Powys
Ysgol Gynradd Rhws	Bro Morgannwg
Ysgol Gynradd Gymunedol Seaview	Abertawe
Ysgol Sant Julian	Casnewydd
Ysgol Gymunedol Trimsaran	Sir Gâr
Ysgol Bryn Clwyd	Sir Ddinbych
Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin	Sir Gâr
Ysgol Nantgwyn	Rhondda Cynon Taf
Ysgol Pendalar	Gwynedd
Ysgol y Deri	Bro Morgannwg

Hoffai Estyn ddiolch hefyd i Adoption UK Cymru, Gwasanaethau Plant Sir Ddinbych, The Fostering Network a Chyngor Ieuenctid Plant mewn Gofal Castell-nedd Port Talbot am eu cyfraniad gwerthfawr i'r gwaith hwn.

Geirfa

Addysg cyfrwng Cymraeg	Addysg sy'n cael ei darparu trwy gyfrwng y Gymraeg, yn bennaf. Gellir effeithio ar barhad darpariaeth cyfrwng Cymraeg pan fydd dysgwyr yn newid lleoliad neu'n symud ysgol.
Addysg heblaw yn yr ysgol (AHY)	Darpariaeth addysgol sy'n cael ei threfnu gan awdurdod lleol i ddysgwyr na allant fynychu ysgol brif ffrwd ar sail amser llawn oherwydd gwaharddiad, salwch, anghenion ychwanegol neu amgylchiadau eraill.
Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)	Mae gan ddysgwr anghenion dysgu ychwanegol os oes ganddynt anhawster dysgu neu anabledd sy'n gofyn am ddarpariaeth ddysgu ychwanegu (DDdY). Mae'r derminoleg hon wedi'i nodi yn Neddff Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 ac mae'n disodli'r term anghenion addysgol arbennig (AAA) yng Nghymru.
Ansefydlogrwydd lleoliadau	Newidiadau mynych i leoliadau gofal neu drefniadau byw a allai amharu ar berthnasoedd, lles emosiynol a pharhad addysg.
Arfer sy'n ymwybodol o ymlyniad	Dulliau sy'n cydnabod effaith profiadau ymlyniad cynnar ar ddatblygiad, perthnasoedd ac ymddygiad plant ac addasu cymorth ac ymatebion yn unol â hynny.
Arfer sy'n ystyriol o drawma	Dulliau sy'n cydnabod effaith bosibl trawma ar blant a phobl ifanc ac yn ceisio creu amgylcheddau, perthnasoedd ac ymatebion sy'n cefnogi diogelwch, ymddiriedaeth a lles emosiynol.
Athro dynodedig	Yr aelod staff mewn ysgol sy'n gyfrifol am hybu cyflawniad addysgol plant sy'n derbyn gofal a chefnogi Cynlluniau Addysg Personol (CAPau).
Cydlynnydd Addysg Plant sy'n Derbynn Gofal (LACE)	Swyddog awdurdod lleol sy'n gyfrifol am gefnogi a monitro profiadau a deilliannau addysgol plant sy'n derbyn gofal a dysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal. Mewn rhai awdurdodau lleol, gall y rôl hon bellach fod yn rhan o drefniadau Ysgol Rithwir neu wasanaethau cynhwysiant ehangach.
Cydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (CADY)	Yr aelod staff mewn ysgol sy'n gyfrifol am gydlynu darpariaeth i ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol, gan gynnwys goruchwyllo Cynlluniau Datblygu Unigol (CDUau).

Cynllun Addysg Personol (CAP)	Cynllun statudol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal sy'n cofnodi anghenion addysgol, cymorth, targedau, cynnydd a dyheadau. Bwriad CAPau yw cydlynu cynllunio addysgol ac adolygu cynnydd dros gyfnod.
Cynllun Datblygu Unigol (CDU)	Cynllun statudol yng Nghymru i ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol sy'n amlinellu eu hanghenion, eu deilliannau a'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol sydd ei hangen.
Darpariaeth amgen	Addysg sy'n cael ei threfnu y tu allan i ysgol brif ffrwd, yn aml dros dro neu ar sail ran-amser, i fodloni anghenion dysgwyr.
Dysgwr sydd â phrofiad o fod mewn gofal	Term eang sy'n cael ei ddefnyddio i ddisgrifio dysgwyr sy'n derbyn gofal ar hyn o bryd, sydd wedi derbyn gofal yn flaenorol, sydd wedi'u mabwysiadu o ofal neu'n byw dan drefniadau gofal gan berthynas neu warcheidiaeth arbennig.
Gofal gan berthynas	Trefniadau lle mae plant yn cael gofal gan berthnasau, ffrindiau neu unigolion cysylltiedig yn hytrach na'u rhieni naturiol. Gall y trefniadau hyn fod yn ffurfiol neu'n anffurfiol.
Gofal maeth	Lleoliad lle mae plentyn sy'n derbyn gofal yn byw gyda gofalwyr maeth cymeradwy sy'n darparu gofal ar ran yr awdurdod lleol.
Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig (SGO)	Gorchymyn cyfreithiol a wneir dan Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002 sy'n rhoi cyfrifoldeb rhiant dros blentyn i warcheidwad arbennig, wrth gynnal perthynas gyfreithiol y plentyn â'u rhieni naturiol.
Grant Datblygu Disgyblion (GDD)	Cyllid grant Llywodraeth Cymru sydd â'r bwriad o wella deilliannau i ddysgwyr difreintiedig a lleihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol a lles.
Grant Datblygu Disgyblion – Plant sy'n Derbyn Gofal (PDG-CLA)	Mae PDG-CLA yn grant Llywodraeth Cymru sy'n cael ei ddynnu ar sail nifer y plant sy'n derbyn gofal, ond sydd wedi'i fwriadu i gefnogi cynnydd addysgol a lles y boblogaeth ehangach sydd â phrofiad o fod mewn gofal.
Lleoliad y tu allan i'r sir	Lleoliad gofal lle mae plentyn neu unigolyn ifanc yn cael eu rhoi i fyw y tu allan i ardal ddaearyddol yr awdurdod lleol sydd â chyfrifoldeb rhiant corfforaethol drostynt.
Oedolyn dibynadwy	Oedolion y mae dysgwr yn eu hadnabod yn dda ac yn teimlo eu bod yn gallu troi atynt am gefnogaeth, cyngor neu gymorth.
Plentyn / plant sy'n derbyn gofal (CLA)	Term statudol sy'n cael ei ddefnyddio i ddisgrifio plentyn sydd dan ofal awdurdod lleol neu'n cael llety gan adran gwasanaethau cymdeithasol awdurdod lleol am gyfnod

	parhaus o fwy na 24 awr. Mae hyn yn cynnwys plant sy'n destun gorchmynion gofal a'r rhai sydd wedi'u lletya'n wirfoddol.
Profiadau Niweidiol yn ystod Plentynod (ACEs)	Digwyddiadau a allai fod yn drawmatig sy'n digwydd yn ystod plentynod (e.e. cam-drin, esgeulustod, camweithrediad y cartref) a all gael effeithiau parhaol ar iechyd, lles a dysgu.
Perthyn	Ymdeimlad dysgwr o gael eu derbyn, eu cynnwys a'u gwerthfawrogi yn eu hysgol neu gymuned addysgol.
Rhianta corfforaethol	Cyfrifoldeb ar y cyd awdurdodau lleol ac asiantaethau partner i ddiogelu a hybu lles, cyflawniad addysgol a chyfleoedd bywyd plant sy'n derbyn gofal ac ymadawyr gofal.
Stigma	Rhagdybiaethau, stereoteipiau neu farnau negyddol sy'n gysylltiedig ag amgylchiadau, profiadau neu hunaniaeth unigolyn.
Uned Cyfeirio Disgyblion (UCD)	Math o ddarpariaeth addysg a gynhelir gan awdurdod lleol i ddysgwyr na allant fynychu ysgol brif ffrwd oherwydd gwaharddiad, anghenion iechyd neu amgylchiadau eraill.
Ymadawr gofal	Unigolyn ifanc sydd wedi derbyn gofal gan awdurdod lleol yn flaenorol ac sydd â hawl i gael cymorth parhaus gan ddeddfwriaeth gadael gofal.
Ysgol Rithwir	Gwasanaeth awdurdod lleol sy'n hybu ac yn cefnogi addysg plant sy'n derbyn gofal a dysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal trwy gydweithio ag ysgolion, gofalcwyr neu wasanaethau eraill. Mae awdurdodau lleol yng Nghymru yn defnyddio ystod o fodolau sefydliadol i ddarparu'r cymorth hwn ac nid yw pob un ohonynt wedi sefydlu ysgol rithwir.

Niferoedd – symiau a chyfrannau

bron pob un =	gydag ychydig iawn o eithriadau
y rhan fwyaf =	90% neu fwy
llawer =	70% neu fwy
mwyafrif =	dros 60%
hanner =	50%
tua hanner =	yn agos at 50%
lleiafrif =	islaw 40%

ychedig =	islaw 20%
ychedig iawn =	llai na 10%

Cyfeiriadau

Hyb ACE Cymru a Straen Trawmatig Cymru (2022) *Cymru sy'n Ystyriol o Drawma: Dull cymdeithasol o ddeall, atal a chefnogi effeithiau trawma ac adfyd*. Caerdydd: Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru. Ar gael yn: <https://traumaframeworkcymru.com/wp-content/uploads/2022/07/Cymru-syn-Ystyriol-o-Drawma.pdf> (Cyrchwyd: 16 Mehefin 2026).

Adoption UK (2024) *Breaking the barriers to school attendance*. Llundain: Adoption UK. Ar gael yn: <https://www.adoptionuk.org/listing/category/breaking-the-barriers> (Cyrchwyd: 16 Mehefin 2026).

Bayfield, H. (2023) *Understanding the higher education experiences of care-experienced young people in Wales*. Caerdydd: CASCADE. Ar gael yn: <https://cascadewales.org/wp-content/uploads/sites/3/2023/07/Care-Experience-and-HE-final-report.pdf> (Cyrchwyd: 16 Mehefin 2026).

Brown, A. and Shelton, K. (2024) *Coherent lives: Making sense of adoptees' experiences in education through narrative identity*, British Educational Research Journal, 50(2), tt. 495–512. Ar gael yn: <https://doi.org/10.1002/berj.3918> (Cyrchwyd: 16 Mehefin 2026).

Comisiynydd Plant Cymru (2025) *Lwc/Luck: profiadau pobl ifanc sydd â phrofiad gofal – y stori hyd yma*. Abertawe: Comisiynydd Plant Cymru. Ar gael yn: <https://www.complantcymru.org.uk/wp-content/uploads/2025/01/Lwc-Luck-profiadau-pobl-ifanc-sydd-a-phrofiad-o-ofal-%E2%80%93-y-stori-hyd-yma.pdf> (Cyrchwyd: 16 Mehefin 2026).

Estyn (2016) *Codi cyrhaeddiad, cyflawniad a dyheadau plant sy'n derbyn gofal – adroddiad arfer orau*. Caerdydd: Estyn. Ar gael yn: https://www.estyn.llyw.cymru/system/files/2020-07/LAC%2520Remit%2520report%2520cy_0.pdf (Cyrchwyd: 16 Mehefin 2026).

Estyn (2026) *Mwy na dewis olaf: Trefniadau ar gyfer gwasanaethau tiwtora AHY yng Nghymru, a'u hansawdd*. Caerdydd: Estyn. Ar gael yn: <https://www.estyn.llyw.cymru/adnoddau-gwella/mwy-na-dewis-olaf-trefniadau-ar-gyfer-gwasanaethau-tiwtora-ahy-yng-nghymru-au-hansawdd/> (Cyrchwyd: 16 Mehefin 2026).

Foster, R., Beninger, K., Svanaes, S. a Downing, C. (2021) *Dull integredig o wella deilliannau addysgol plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, Rhif Ymchwil Gymdeithasol 63/2021. Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/dull-integredig->

[o-wella-deilliannau-addysgol-ar-gyfer-plant-syn-derbyn-gofal](#) (Cyrchwyd: 16 Mehefin 2026).

Lowthian, E., Bedston, S., Lee, A., Akbari, A., Griffiths, L., Crick, T. and Forrester, D. (2025a) *Children's early care experiences and their educational attainment: A population data-linkage study in Wales*. Oxford Review of Education, tt. 1–20. Ar gael yn: <https://doi.org/10.1080/03054985.2025.2540036> (Cyrchwyd: 16 Mehefin 2026).

Lowthian, E., Crick, T., Bedston, S., Lee, A., Akbari, A., Griffiths, L., Heron, J., Hammerton, G. a Forrester, D. (2025b) *Llwybrau a chanlyniadau addysgol plant sydd â phrofiad o fod mewn gofal*. Abertawe: Prifysgol Abertawe/CASCADE/Banc Data SAIL. Ar gael yn: <https://popdatasci.swan.ac.uk/wp-content/uploads/2025/03/Educational-pathways-outcomes-care-experienced-children-Wel.pdf> (Cyrchwyd: 16 Mehefin 2026).

MacDonald, S., Hewitt, G., Jones, S., Rees, A., Brown, R., Anthony, R. and Evans, R., 2026. *Multiagency collaborations to support well-being amongst care-experienced children and young people in school and during transition to further education college: Stakeholder perspectives on facilitators, challenges and innovations*. Child & Family Social Work, 1-13.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2014) *Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014*. Caerdydd: Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Ar gael yn: <https://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2014/4/contents/enacted/welsh> (Cyrchwyd: 16 Mehefin 2026).

Paine, A.L., Perra, O. and Shelton, K.H. (2025) *Adopted children's internalizing symptoms and externalizing problems 8 years post-placement: Developmental trajectories and transitions*, Development and Psychopathology. Ar gael yn: <https://doi.org/10.1017/S0954579425100175> (Cyrchwyd: 16 Mehefin 2026).

Ymchwil y Senedd (2024) *Plant sydd â phrofiad o fod mewn gofal: Briff Ystadegol 2024*. Caerdydd: Senedd Cymru. Ar gael yn: <https://ymchwil.senedd.cymru/erthyglau-ymchwil/plant-sydd-a-phrofiad-o-fod-mewn-gofal-briff-ystadegol-2024/> (Cyrchwyd: 16 Mehefin 2026).

StatsCymru (2025a) *Plant sy'n derbyn gofal yn ôl awdurdod lleol, rhywedd ac oedran*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Ar gael yn: <https://stats.llyw.cymru/> (Cyrchwyd: 26 Mehefin 2026).

StatsCymru (2025b) *Plant sy'n derbyn gofal yn ôl math o leoliad ac awdurdod lleol*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Ar gael yn: <https://stats.llyw.cymru/> (Cyrchwyd: 16 Mehefin 2026).

StatsCymru (2025c) *Lleoliadau plant misol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Ar gael yn: <https://stats.llyw.cymru/> (Cyrchwyd: 16 Mehefin 2026).

StatsCymru (2026) *Cyfnodau'n gorffen ar gyfer plant sy'n derbyn gofal yn ystod y flwyddyn yn ôl rheswm dros orffen*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Ar gael yn: <https://stats.llyw.cymru/cy-GB/554edf74-844e-4547-a64c-1806db04ce26/start> (Cyrchwyd: 24 Gorffennaf 2026).

The Fostering Network (2024) *State of the Nations' Foster Care 2024: Spotlight on Wales*. London: The Fostering Network. Ar gael yn: <https://www.thefosteringnetwork.org.uk/media/lrznjgni/final-sotn-spotlight-on-wales.pdf> (Cyrchwyd: 16 Mehefin 2026).

Llywodraeth Cymru (2019) *Canllawiau Statudol: Gwasanaethau Mabwysiadu*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-04/canllawiau-ar-gyfer-darparwyr-ac-unigolion-cyfrifol-mewn-gwasanaethau-mabwysiadu-rheoleiddiedig.pdf> (Cyrchwyd: 16 Mehefin 2026).

Llywodraeth Cymru (2024a) *Siarter rhianta corfforaethol i Gymru*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/rhianta-corfforaethol> (Cyrchwyd: 16 Mehefin 2026).

Llywodraeth Cymru (2024b) *Rhianta corfforaethol: canllawiau statudol*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/rhianta-corfforaethol> (Cyrchwyd: 16 Mehefin 2026).

Llywodraeth Cymru (2025a) *Datganiad Ysgrifenedig: Cefnogi addysg dysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-cefnogi-addysg-dysgwyr-sydd-phrofiad-o-fod-mewn-gofal> (Cyrchwyd: 16 Mehefin 2026).

Llywodraeth Cymru (2025b) *Cynlluniau addysg personol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal: canllawiau drafft i ymarferwyr*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/cynlluniau-addysg-personol-ar-gyfer-plant-syn-derbyn-gofal-canllawiau-drafft-i-ymarferwyr-html-0> (Cyrchwyd: 16 Mehefin 2026).

Llywodraeth Cymru (2025c) *Cymorth ychwanegol i ddysgwyr sydd wedi'u mabwysiadu a dysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/cymorth-ychwanegol-i-ddysgwyr-sydd-weddiu-mabwysiadu-dysgwyr-sydd-phrofiad-o-fod-mewn-gofal> (Cyrchwyd: 16 Mehefin 2026).

Llywodraeth Cymru (2025d) *Adroddiad Cyfranogiad EiA CLA*: Adroddiad heb ei gyhoeddi a gyflwynwyd i adolygiad thematig Estyn.

Llywodraeth Cymru (2026a) *Plant sy'n derbyn gofal gan awdurdodau lleol: Ebrill 2024 i Fawrth 2025*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/plant-syn-derbyn-gofal-gan-awdurdodau-leol-ebrill-2024-i-fawrth-2025-html> (Cyrchwyd: 24 Gorffennaf 2026).

Llywodraeth Cymru (2026b) *Canllaw i'r Grant Datblygu Disgyblion ar gyfer plant sy'n derbyn gofal*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/canllaw-ir-grant-datblygu-disgyblion-ar-gyfer-plant-syn-derbyn-gofal-html> (Cyrchwyd: 24 Gorffennaf 2026).

Llywodraeth Cymru (2026c) *Cynlluniau addysg personol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal: canllawiau drafft i ymarferwyr: crynodeb o'r ymatebion*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2026-02/cynlluniau-addysg-personol-ar-gyfer-plant-syn-derbyn-gofal-crynodeb-or-ymatebion.pdf> (Cyrchwyd: 16 Mehefin 2026).

Llywodraeth Cymru (2026d) *Fframwaith ar sefydlu dull ysgol gyfan ar gyfer llesiant emosiynol a meddyliol*. Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/fframwaith-ar-sefydlu-dull-ysgol-gyfan-ar-gyfer-llesiant-emosiynol-meddyliol> (Cyrchwyd: 24 Gorffennaf 2026).

Llywodraeth Cymru (2026e) *Herio bwllo ac aflonyddu: Hawliau, parch, cydraddoldeb: canllawiau statudol ar gyfer ysgolion a lleoliadau*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Ar gael yn: [Herio bwllo ac aflonyddu](#) (Cyrchwyd: 16 Mehefin 2026).